# Gwerthusiad o gynllun peilot y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yng Nghymru

## Adroddiad terfynol

Melissa Meindl a David Westlake

Mawrth 2024

CASCADE

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

# Partneriaeth Seilwaith CASCADE

Mae ein harbenigedd yn dod â phartneriaeth eithriadol ynghyd. CASCADE yw'r brif ganolfan ar gyfer ymchwil werthusol ym maes gofal cymdeithasol plant yn y DU. Mae'n rhan o Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol (SOCSI), sef canolfan ragoriaeth flaenllaw yn y gwyddorau cymdeithasol ac ymchwil addysg sydd ag arbenigedd penodol mewn dulliau meintiol. Mae'r Ganolfan Treialon Ymchwil (CTR) yn arweinydd cenedlaethol cydnabyddedig ar gyfer treialon a dulliau cysylltiedig, roedd yr Ysgol Seicoleg yn 2il am ansawdd ymchwil yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diweddaraf, ac mae SAIL yn cynnig cysylltiadau data o'r radd flaenaf. Gyda'n gilydd credwn y gallwn greu newid sylweddol yn ansawdd ymchwil gofal cymdeithasol plant nad oes ei debyg yn y DU ac o ran y modd y caiff ei ddefnyddio. Yn benodol, gallwn ddarparu treialon a gwerthusiadau o ansawdd uchel; cysylltu data i ddeall y canlyniadau tymor hir; a chynnwys defnyddwyr y gwasanaeth (ein cyhoedd) ym mhob rhan o'n hymchwil. Rydym am i'r tair elfen hyn ryngweithio â'i gilydd i gynhyrchu ymchwil o ansawdd heb ei hail.

# Cynnwys

Diolchiadau ........ 3

Crynodeb Gweithredol ........ 1

Cyflwyniad........ 6

Y Fethodoleg........ 12

Canfyddiadau ........ 19

1. Nifer a phroffil y teuluoedd yn y cynllun peilot........ 19

2. Dichonoldeb........ 23

3. Profiadau o'r cynllun peilot........ 29

4. Arwyddion o botensial ........ 38

5. Y gallu i ehangu, a pharodrwydd ar gyfer gwerthusiadau pellach ........ 46

Trafodaeth ........ 60

Casgliadau ac argymhellion ........ 64

Cyfeiriadau ........ 66

Atodiad 1: Galluogwyr a rhwystrau a nodwyd mewn perthynas â gweithredu’r FDAC yng Nghymru ..... 70

Atodiad 2: Diffiniad o raddfeydd camddefnyddio sylweddau........ 75

Awduron a Chyfranwyr ........ 76

# Diolchiadau

Mae llawer o bobl wedi cyfrannu at lwyddiant y gwerthusiad hwn. Yn bwysicaf oll, hoffem ddiolch i'r rhieni a gymerodd ran. Ni fyddai'r gwerthusiad hwn wedi bod yn bosibl heb eu parodrwydd i rannu manylion eu bywydau a'u profiad o'r Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol (FDAC) mewn modd agored a chaniatáu inni arsylwi ar gyfarfodydd a gwrandawiadau trwy gydol eu hachos yn y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol.

Hoffem gydnabod Llywodraeth Cymru am ariannu cynllun peilot FDAC Caerdydd a'r Fro a'r gwerthusiad, a'r Ganolfan Arloesi ym maes Cyfiawnder (CJI) am gomisiynu CASCADE i fod yn werthuswyr. Rydym yn ddiolchgar am yr arweiniad cadarn a'r oruchwyliaeth arbenigol a ddarparwyd gan y ddau sefydliad i'r prosiect. Yn benodol, rydym yn ddiolchgar iawn i Stephen Whitehead a Vicki Morris yn CJI am eu cefnogaeth trwy gydol y cyfnod gwerthuso.

Hoffem hefyd ddiolch i'n cyd-weithwyr yn CASCADE, sef Meghan Hosch, Sumayyah Islam, a Megan Nightingale, a gyfrannodd at y gwaith o gasglu a dadansoddi data.

Yn olaf, hoffem ddiolch i'r rhanddeiliaid proffesiynol a ganiataodd i ni arsylwi ar eu hymarfer ac am neilltuo amser i rannu eu barn am y cynllun peilot. Yn benodol, hoffem ddiolch i farnwyr a thîm yr FDAC am yr ymdrechion sylweddol a chyson a wnaethant i alluogi'r broses casglu data a chefnogi'r gwerthusiad hwn. Gwnaethant hyn er gwaethaf eu llwyth gwaith uchel, ac rydym yn ddiolchgar am yr haelioni di-ffael a amlygwyd ganddynt wrth iddynt ymgysylltu â'r astudiaeth.

# Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

Yn 2021, ariannodd Llywodraeth Cymru gynllun peilot dwy flynedd o hyd y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol (FDAC), ynghyd â gwerthusiad, gyda'r bwriad o ddysgu gwersi a fyddai'n cefnogi'r posibilrwydd o gyflwyno model yr FDAC yn ehangach ledled Cymru. Dewiswyd Caerdydd a Bro Morgannwg ar gyfer y cynllun peilot, ac ym mis Tachwedd 2021 lansiwyd cynllun peilot FDAC Caerdydd a'r Fro. Rhedodd y cynllun peilot am y ddwy flynedd a drefnwyd, a daeth i ben ddiwedd mis Tachwedd 2023.

Dyma'r ail adroddiad, a'r un olaf, o werthusiad cynllun peilot FDAC Caerdydd a'r Fro. Roedd yr astudiaeth hon yn gwerthuso’r gweithrediad a’r broses gyda gwerthusiad realaidd wedi'i ymgorffori, a'r nod oedd darparu tystiolaeth a damcaniaethau y gellid eu defnyddio i gefnogi'r broses o gyflawni gwaith yr FDAC yn effeithiol yng Nghymru a chyflwyno’r cyd-destun ar gyfer gwerthusiad ar raddfa fwy. Cynhaliwyd y gwerthusiad mewn tri cham, a bu’n rhedeg rhwng Ionawr 2022 a Ionawr 2024. Mae'r adroddiad terfynol hwn yn canolbwyntio ar gamau 2 a 3 y gwerthusiad.

Roedd yna dri phrif gwestiwn ymchwil yn y gwerthusiad hwn:

1. **Dichonoldeb:** A yw cynllun peilot yr FDAC yn cael ei roi ar waith fel y bwriadwyd, ac a yw'n gweithredu mewn modd sy'n ei alluogi i gael ei ehangu yn hawdd?
2. **Profiadau a photensial:** Sut brofiad y mae rhanddeiliaid allweddol yn ei gael o’r cynllun peilot, a pha arwyddion o botensial y gellir eu nodi?
3. **Y gallu i ehangu, a pharodrwydd ar gyfer gwerthusiadau pellach:** A yw cynllun peilot yr FDAC wedi'i ddiffinio'n ddigon clir i'w gyflwyno'n ehangach, ac a yw'n addas ar gyfer gwerthusiad arbrofol neu led-arbrofol mwy cadarn?

## Y Fethodoleg

Ar draws pob cam o'r astudiaeth, cymerodd cyfanswm o 41 o randdeiliaid proffesiynol ac 13 o rieni ran yn y gweithgareddau casglu data canlynol.

- 29 o gyfweliadau/grwpiau ffocws ansoddol realaidd lled-strwythuredig. Cynhaliwyd 26 ohonynt yng nghamau 2 a 3 ac fe'u dadansoddwyd ar gyfer yr adroddiad hwn. Roedd hyn yn cynnwys 15 o gyfweliadau/grwpiau ffocws gydag 16 o randdeiliaid proffesiynol ac 11 o gyfweliadau â rhieni.
- 27 o esiamplau o arsylwi ar gyfarfodydd a gwrandawiadau allweddol yr FDAC, gan gipio ymarfer 32 o randdeiliaid proffesiynol, ac achosion cyfreithiol 13 o rieni.
- Pedwar cyflwyniad ysgrifenedig; tri a ddarparwyd gan randdeiliaid proffesiynol ac un a ddarparwyd gan riant.

Hefyd, casglodd tîm FDAC Caerdydd a’r Fro ddata gweinyddol, meintiol, wedi’u rhoi dan ffugenw am deuluoedd a oedd yn rhan o'r cynllun peilot, a hynny ar dair lefel wahanol – lefel achos, lefel rhiant, a lefel plentyn.

# Canfyddiadau

Rhennir canfyddiadau'r gwerthusiad yn bum adran:

1. **Nifer a phroffil y teuluoedd yn y cynllun peilot**

Yn ystod cyfnod y cynllun peilot, atgyfeiriwyd 36 o achosion at FDAC Caerdydd a'r Fro; cofrestrwyd 21 ohonynt i gymryd rhan yn yr FDAC yn ystod y cynllun peilot, ac aethant ymlaen i dreial ar gyfer newid. Roedd yr achosion hyn yn cynnwys 35 o rieni a 33 o blant. Roedd 57% o'r rhieni yn fenywod (n=20), 34 oed oedd oedran cyfartalog y rhieni, a chofnodwyd bod mwyafrif y rhieni (n=27,77%) yn Wyn Prydeinig (Seisnig, Cymreig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon). Roedd 52% o'r plant yn wrywaidd (n=17), ac roedd mwyafrif helaeth y plant (n=31, 93.9%) yn iau na 10 oed.

Roedd y rhan fwyaf o'r rhieni yng nghynllun peilot Caerdydd a'r Fro (n=30, 86%) wedi cael cyswllt blaenorol â gwasanaethau plant, ac roedd bron pob rhiant yn y cynllun peilot wedi cael profiad blaenorol o gamdriniaeth ddomestig a phroblemau iechyd meddwl (n=34, 97% yn y drefn honno). Roedd dros hanner y rhieni yn y cynllun peilot (n=22, 63%) yn byw mewn tai cymdeithasol pan ddechreuodd yr achosion.

2. **Dichonoldeb**

Roedd tîm craidd FDAC Caerdydd a'r Fro yn cynnwys rheolwr y tîm, cynorthwyydd gweinyddol, seicolegydd clinigol, arbenigwr iechyd meddwl, ac arbenigwr ar gamddefnyddio sylweddau. At hynny, roedd yna dri barnwr yn gwrando ar achosion yr FDAC. Amlygodd barnwyr a thîm yr FDAC ymdeimlad cryf o ymrwymiad a rennir, angerdd, a chred mewn perthynas ag ethos yr FDAC.

Wynebodd tîm yr FDAC heriau nodedig, gan gynnwys recriwtio gweithwyr proffesiynol i swyddi, a diffyg lleoliad ffisegol i'r tîm ar adegau gwahanol yn ystod y cynllun peilot. Roedd problemau'n ymwneud â'r llwybr atgyfeirio, capasiti tîm yr FDAC, ac ansicrwydd ynghylch cyllid parhaus ar gyfer y cynllun peilot yn heriau eraill a nodwyd, ac roeddent wedi cyfyngu ar nifer y teuluoedd a oedd yn rhan o'r cynllun peilot.

Wrth i'r cynllun peilot fynd rhagddo, cafwyd cipolwg pellach ar weithrediad yr FDAC yng Nghymru. Roedd ffactorau'n ymwneud â chyllido, hyfforddiant, ac ymrwymiad yn nodedig ar sawl lefel o weithredu.

3. **Profiadau o'r cynllun peilot**

Roedd y rhieni'n hynod o gadarnhaol ynghylch eu profiad o fod yn rhan o achosion yr FDAC. Roedd y themâu allweddol a drafodwyd ganddynt mewn cyfweliadau yn cynnwys rôl yr FDAC o ran helpu rhieni i newid cyfeiriad, cydnabyddiaeth o'r gefnogaeth a'r ymdrech a ddarparwyd gan dîm yr FDAC, eirioli dros gymorth anfeirniadol sy'n datrys problemau, cymharu'r FDAC ag achosion gofal arferol, a phethau y byddai teuluoedd yn eu newid.

Er bod barn y rhanddeiliaid proffesiynol am y cynllun peilot hefyd yn gadarnhaol ar y cyfan, roedd yna fwy o safbwyntiau cymysg a oedd yn cynnwys beirniadaethau. Roedd y themâu a gododd yn eu cyfweliadau a'u grwpiau ffocws yn cynnwys y modd yr oedd yr FDAC yn teimlo fel dull gweithredu unedig rhwng rhieni a gweithwyr proffesiynol, cymharu'r FDAC ag achosion gofal arferol, pethau y byddai gweithwyr proffesiynol yn eu newid, anghysonderau rhwng cynrychiolwyr cyfreithiol a'r FDAC,

a newidiadau i rolau proffesiynol. Cafodd safbwyntiau mwy beirniadol eu mynegi gan weithwyr proffesiynol a oedd ar gyrion yr FDAC, megis cynrychiolwyr cyfreithiol, Gwarcheidwaid Plant, a gweithwyr cymdeithasol.

### 4. Arwyddion o botensial

Camddefnyddio sylweddau ymhlith rhieni

Gostyngodd nifer y rhieni yn y cynllun peilot a oedd yn camddefnyddio sylweddau ar ddechrau achos yr FDAC, sef 83% (n=29), i 54% (n=19) erbyn diwedd achos yr FDAC. Llwyddodd 29% o'r rhieni (n=10) i roi'r gorau'n llwyr i gamddefnyddio sylweddau, gostyngodd difrifoldeb y camddefnydd o sylweddau ymhlith 14% (n=5), cynyddodd difrifoldeb y camddefnydd o sylweddau ymhlith 17% (n=6), ac ni phrofodd 11% (n=4) unrhyw newid o ran difrifoldeb eu camddefnydd o sylweddau. Nid oedd yn eglur nac yn hysbys a oedd yna newid o ran difrifoldeb y camddefnydd o sylweddau ymhlith y rhieni a oedd yn weddill.

Llwyddodd 26% o’r rhieni yn y cynllun peilot (n=9) i roi'r gorau’n llwyr i gamddefnyddio alcohol, gostyngodd difrifoldeb y camddefnydd o alcohol ymhlith 6% (n=2), parhaodd 6% (n=2) i beidio â chamddefnyddio alcohol, cynyddodd difrifoldeb y camddefnydd o alcohol ymhlith 17% (n=6), ac ni newidiodd difrifoldeb y camddefnydd o alcohol ymhlith 17% (n=6). Roedd y rhieni hyd yn oed yn fwy llwyddiannus wrth leihau eu camddefnydd o gyffuriau. Llwyddodd 34% (n=12) o’r rhieni i roi'r gorau’n llwyr i gamddefnyddio cyffuriau, gostyngodd difrifoldeb y camddefnydd o gyffuriau ymhlith 3% (n=1), parhaodd 3% (n=1) i beidio â chamddefnyddio cyffuriau, cynyddodd difrifoldeb y camddefnydd o gyffuriau ymhlith 9% (n=3), ac ni newidiodd difrifoldeb y camddefnydd o gyffuriau ymhlith 23% (n=8). Nid oedd yn eglur nac yn hysbys a oedd yna newid o ran difrifoldeb y camddefnydd o alcohol a chyffuriau ymhlith y rhieni a oedd yn weddill.

Ar ddechrau a diwedd achosion yr FDAC, y sylweddau a gamddefnyddiwyd fwyaf (hunangofnodedig) gan y rhieni a oedd yn rhan o’r cynllun peilot oedd alcohol, canabis, a chocên. Gostyngodd nifer y rhieni a oedd yn camddefnyddio'r sylweddau hyn ar ddiwedd achosion yr FDAC.

Canlyniadau achosion

Dim ond yn achos 22 o'r 33 o blant a oedd yn rhan o’r cynllun peilot yr oedd modd dadansoddi’r data canlyniadau am drefniadau byw y plant. Dangosodd trefniadau byw y plant ar ddiwedd achos yr FDAC:

- Bod nifer y plant a oedd yng ngofal un rhiant neu'r ddau ohonynt wedi mwy na dyblu o 14% (n=3) ar ddechrau achosion yr FDAC, i 32% (n=7) ar ddiwedd achosion yr FDAC,
- Roedd 36% o’r plant (n=8) yng ngofal aelod o'r teulu nad oedd yn rhiant, o gymharu â 55% (n=12) ar ddechrau'r achosion,
- Roedd 14% o’r plant (n=3) yng ngofal ffrind i’r teulu neu rywun arall nad oedd yn aelod o'r teulu,
- Roedd 9% o’r plant (n=2) mewn gofal maeth, o gymharu â 32% (n=7) ar ddechrau'r achosion, ac
- Roedd 9% o’r plant (n=2) mewn man gofal dros dro hyd nes y byddent yn cael eu mabwysiadu.

Roedd yna ddata canlyniadau hefyd ar gael am y gorchmynion a wnaed yn y gwrandawiad terfynol yn achos 24 o'r 33 o blant a oedd yn ymwneud ag FDAC Caerdydd a’r Fro ar yr adeg y daeth y cynllun peilot i ben. Yn y gwrandawiad terfynol, gwnaed ychydig o dan hanner y plant (n=11, 46%) yn destun gorchymyn gofal, roedd 33% (n=8) yn destun gorchymyn goruchwylio (roedd tri o'r plant hyn hefyd yn destun gorchymyn trefniant plentyn), roedd 13% (n=3) yn destun gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig, roedd 4% (n=1) yn destun gorchymyn lleoli, ac nid oedd 4% (n=1) yn destun unrhyw orchymyn.

Mae'n werth nodi hefyd na heriwyd unrhyw wrandawiadau terfynol (pan na all y partïon sy'n ymwneud ag achos ddod i gytundeb ynghylch y cynllun gofal a’r cynllun lleoli, sef rhieni a’r awdurdod lleol yn yr enghraifft hon) yn ystod cyfnod peilot FDAC Caerdydd a’r Fro.

<u>Canlyniadau eraill:</u>

O'r 54 o gyfranogwyr a gymerodd ran yn y gwerthusiad hwn, dim ond dau riant ac un Gwarcheidwad Plant a fynegodd yn benodol eu bod yn teimlo mai aduno oedd canlyniad pwysicaf achosion yr FDAC. Nodwyd sawl canlyniad arall gan gyfranogwyr yn rhai a oedd yn ddangosyddion pwysicach a gwell o ran a oedd achosion yr FDAC yn 'llwyddiannus' i rieni a'u teuluoedd. Y canlyniad pwysicaf a nodwyd amlaf oedd bod y plant yn cael gofal da mewn lleoliad diogel, sefydlog.

5. **Y gallu i ehangu, a pharodrwydd ar gyfer gwerthusiadau pellach**

Mae'r astudiaeth hon wedi esgor ar ddealltwriaeth lawer mwy manwl o’r modd y mae’r FDAC yn gweithio nag a oedd yn bodoli o'r blaen, a hynny trwy ddatblygu pedair set o ddamcaniaethau ynghylch y rhaglen sy'n cynnig disgrifiadau o sut y mae rhai o elfennau’r FDAC yn cynhyrchu canlyniadau. Mae hefyd yn gipolwg cyntaf ar y modd y mae'n gweithio yng Nghymru, elfen y gellir ei defnyddio i gynorthwyo ymdrechion i werthuso’r FDAC yn fwy trylwyr.

Cyllid oedd y ffactor mwyaf hanfodol i randdeiliaid proffesiynol a oedd yn rhan o gynllun peilot FDAC Caerdydd a’r Fro wrth iddynt ystyried cynaliadwyedd yr FDAC. Roedd yr amwysedd a’r diffyg eglurder ynghylch a fyddai cyllid ar gael i estyn y cynllun peilot wedi golygu goblygiadau sylweddol i deuluoedd ac i randdeiliaid proffesiynol. Roedd y goblygiadau i deuluoedd yn cynnwys negeseuon cymysg am argaeledd y gwasanaeth, dim mynediad at y gwasanaeth er ei fod yn addas, a llai o gyfleoedd i estyn achosion. Roedd y goblygiadau i weithwyr proffesiynol yn cynnwys cyflogaeth ansicr, anhawster cadw staff yr FDAC, a morâl is ymhlith y staff.

# Trafodaeth

Archwiliodd y gwerthusiad hwn sawl agwedd ar gynllun peilot FDAC Caerdydd a’r Fro. Astudiodd safbwyntiau a phrofiadau ystod eang o bobl a oedd yn rhan o’r cynllun, a datblygodd ddamcaniaethau ynghylch y modd y cynhyrchodd yr FDAC ganlyniadau ar ei ffurf gyntaf yng Nghymru. Mae'n dangos ei bod yn bosibl sefydlu gwasanaeth FDAC yng Nghymru a bod y ddarpariaeth a gynigiwyd i deuluoedd gan FDAC Caerdydd a’r Fro yn cyd-fynd yn fras â'r model sefydledig, gyda pheth amrywiad lleol y daethpwyd i'w ddisgwyl gan FDACs yn y DU.

Roedd y broses o gasglu data gweinyddol arferol, ynghyd ag ansawdd a chyflawnrwydd y data hynny yn y cynllun peilot yn wael, ac nid oedd yn bosibl datrys hyn yn llwyr mewn ymgynghoriad â thîm yr FDAC am fod y cynllun peilot wedi dod i ben. Dangosodd y data a oedd ar gael fod yna rai gostyngiadau trawiadol yn y lefelau camddefnyddio sylweddau ymhlith y rhieni yn ystod yr achos.

Dangosodd y data hefyd fod mwy na dwywaith nifer y plant yng ngofal rhiant ar ddiwedd yr achos o gymharu â dechrau'r achos. Mae'r canlyniadau hyn, ynghyd ag adborth gan gyfranogwyr sy'n gadarnhaol ar y cyfan, yn cefnogi'r ddadl y dylid archwilio'r FDAC ymhellach yng Nghymru, er bod angen gwerthusiad cymharol mwy cadarn.

Ystyriwyd ers amser maith mai aduno yw canlyniad allweddol yr FDAC. Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad hwn yn awgrymu bod aduno yn un o nifer o ganlyniadau pwysig y mae'r FDAC yn gweithio tuag atynt ac nid yw rhieni neu randdeiliaid proffesiynol o reidrwydd yn ystyried mai hwn yw'r un pwysicaf .

Un agwedd anffodus ar y cynllun peilot oedd y diffyg cysondeb rhwng amserlenni'r cynllun peilot a'r gwerthusiad hwn. Yn gysylltiedig â hyn roedd ansicrwydd ynghylch estyn y cyllid ar gyfer y cynllun peilot, a amharodd yn ddifrifol ar y gwasanaeth. Mae'r penderfyniad i beidio ag ariannu estyniad wedi golygu goblygiadau i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol ac wedi arwain at syndod, siom, pryder a rhwystredigaeth eang ymhlith rhanddeiliaid a oedd yn ymwneud â'r cynllun peilot. Fodd bynnag, nid yw materion cyllido wedi'u cyfyngu i'r cynllun peilot hwn, a bydd angen i wasanaethau'r FDAC yn y dyfodol sicrhau cyllid cynaliadwy i'w galluogi i gynnig gwasanaeth cyson a dibynadwy i deuluoedd. Gellir cryfhau cynaliadwyedd y cyllid os yw'n cynnwys yr ystod o bartneriaid sy'n ymwneud â'r FDAC.

Mae'r dulliau a ddefnyddir, ymglymiad gweithwyr proffesiynol, nifer y cyfarfyddiadau â chyfranogwyr, llawer iawn o ddata ansoddol, a datblygu damcaniaethau ynghylch y rhaglen yn rhai o gryfderau'r gwerthusiad. I'r gwrthwyneb, roedd diffyg data cymharol o safleoedd yr FDAC yn Lloegr, ansawdd gwael data lefel gwasanaeth meintiol a'r analluu i fabwysiadu dull gweithredu ar sail astudiaethau achos yn gyfyngiadau nodedig ar y gwerthusiad.

## Casgliad ac argymhellion

Roedd rhoi dull yr FDAC ar waith yn elfen ymarferol yng nghyd-destun De Cymru, ac mae canfyddiadau cadarnhaol yr astudiaeth hon yn cefnogi'r defnydd parhaus o'r FDAC yng Nghymru ar ffurf math amgen o achosion gofal yn y llys teulu.

Nod yr argymhellion canlynol yw cefnogi'r broses o weithredu, cyflwyno, ehangu a gwerthuso mewn perthynas â'r FDAC yng Nghymru, ac yn ehangach yn y DU.

**Argymhelliad 1:** Symud ymlaen â'r cynlluniau i ehangu'r FDAC ymhellach yng Nghymru, a chomisiynu gwerthusiad o'r effaith a'r gosteffeithiolrwydd.

**Argymhelliad 2:** Cynyddu cyfleoedd hyfforddi ar gyfer yr holl randdeiliaid sy'n rhyngweithio â'r FDAC a chynnig hyfforddiant dilynol i weithwyr proffesiynol ar ôl iddynt ddechrau gweithio gyda theuluoedd yn yr FDAC.

**Argymhelliad 3:** Gwella ansawdd a chyflawnrwydd y data am yr FDAC ac achosion gofal safonol a gesglir fel mater o drefn.

**Argymhelliad 4:** Rhoi ystyriaeth bellach i'r modd y mae canlyniadau heblaw aduno yn cael eu diffinio a'u mesur.

**Argymhelliad 5:** Ehangu'r amserlenni ar gyfer sefydlu a gweithredu'r cynllun peilot.

# Cyflwyniad

Dyma'r ail adroddiad, a'r un olaf, o werthusiad cynllun peilot y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol (FDAC) yng Nghymru.

Yn 2021, ariannodd Llywodraeth Cymru gynllun peilot dwy flynedd o hyd yr FDAC, ynghyd â gwerthusiad, gyda'r bwriad o ddysgu gwersi a fyddai'n cefnogi'r posibilrwydd o gyflwyno model yr FDAC yn ehangach. Gwnaed y penderfyniad hwn mewn ymateb i adroddiad gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (2019), a argymhellodd y dylid sefydlu FDAC yng Nghymru am y tro cyntaf. Datblygwyd model cynllun peilot FDAC Cymru gan y Ganolfan Arloesi ym maes Cyfiawnder (CJI) mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid lleol. Ar ôl i Fwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol De-ddwyrain Cymru (LFJB) gyflwyno mynegiant o ddiddordeb llwyddiannus, dewiswyd dau awdurdod lleol yn Ne Cymru, sef Caerdydd a Bro Morgannwg, ar gyfer y cynllun peilot. Gwnaed ymrwymiad o £450,000 gan Lywodraeth Cymru i weithredu'r cynllun peilot, a disgwylid cyllid cyfatebol ar y dechrau gan yr Awdurdodau Lleol lle y byddai’r cynllun yn cael ei gynnal, pan cânt eu dewis. Fodd bynnag, nid oedd ALlau Caerdydd a Bro Morgannwg yn ymwybodol o'r gofyniad am arian cyfatebol ac ni chafodd ei ddarparu. Arweiniodd hyn at leihau cwmpas a graddfa'r cynllun peilot FDAC yn unol â'r cyllid a oedd ar gael.

Ym mis Tachwedd 2021, cafodd cynllun peilot FDAC Caerdydd a'r Fro ei lansio'n swyddogol. Ar y pryd, FDAC Caerdydd a'r Fro oedd unig safle gweithredol yr FDAC yn y DU y tu allan i Loegr, er i'r model gyrraedd gydag enw da, ynghyd â sylfaen dystiolaeth addawol o sawl astudiaeth. Ysbrydolwyd cynllun peilot gwreiddiol yr FDAC yn y DU, a gynhaliwyd yn Llundain rhwng 2008 a 2011, gan fodel y Llys Teulu Trin Cyffuriau yn UDA. Ers hynny, mae’r FDAC wedi ehangu ledled Lloegr i gyfanswm o 13 o safleoedd[1] erbyn hyn ac mae wedi cynhyrchu tystiolaeth addawol sy'n awgrymu y gallai’r FDAC fod yn helpu rhieni i fynd i'r afael â’r camddefnydd o gyffuriau ac alcohol, ynghyd â chynyddu'r siawns y bydd eu plant yn cael eu haduno â'u teuluoedd biolegol (Green et al., 2007; Harwin et al., 2014; Harwin et al., 2018; Papaioannou et al., 2023; Tunnard et al., 2016; Worcel et al., 2008; Zhang et al., 2019).

Mae model yr FDAC yn fath amgen o achosion gofal sy'n cynnwys nifer o elfennau megis cefnogaeth therapiwtig a ddarperir gan dîm amlddisgyblaethol, monitro barnwrol cyson gan yr un barnwr sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig, adolygiadau bob pythefnos gan unigolyn nad yw’n gyfreithiwr (NLRs), a phrofion rheolaidd ar gyfer camddefnyddio sylweddau. Caiff ei ategu gan ddull 'datrys problemau' i helpu rhieni i oresgyn eu camddefnydd o sylweddau a gwella canlyniadau iddyn nhw eu hunain a'u plant. Mae'r achosion yn cael eu hail-lunio ar ffurf galluogwyr newid pwerus sy'n achosi llai o wrthdaro, ac sydd wedi'u cynllunio o amgylch y syniad y gall y llys ddarparu cymorth ymarferol i fynd i'r afael â phroblemau y mae unigolion neu deuluoedd yn eu hwynebu.

Mae hyn yn rhan o duedd ddiweddar lle mae dulliau gweithredu o'r fath wedi cael eu treialu mewn meysydd gwahanol yn y system gyfiawnder, gyda'r Llysoedd Goruchwylio Dwys a gomisiynwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ddechrau 2023 yn enghraifft o hynny ym maes cyfiawnder troseddol (Ministry of Justice, 2023). Mae crynodeb mwy cyflawn o’r modd y mae dulliau datrys problemau yn llunio cyfiawnder yn y DU yn fwy cyffredinol i'w weld yn Mentzou & Mutebi (2023).

[1] Mae nifer safleoedd cyfredol yr FDAC yn y DU wedi amrywio ers cyhoeddi’r adroddiad gwerthuso interim am fod rhai o safleoedd yr FDAC wedi agor a rhai eraill wedi cau.

Yn erbyn y cefndir hwn, bu yna ddiddordeb mawr yn y modd y gweithiodd y cynllun peilot yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Cafodd ei grybwyll yn yr adroddiad '*Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer gwasanaethau i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal'* a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (2023a) Senedd Cymru, a hynny'n rhan o'r ymchwiliad '*Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical'*. Trwy gydol yr ymchwiliad, roedd y cynllun peilot yn destun trafod yn y Senedd ac mewn gohebiaeth rhwng cadeirydd y pwyllgor ac arweinwyr yr Awdurdodau Lleol. Mae hyn wedi rhoi proffil cymharol uchel i'r cynllun peilot ac, o ganlyniad, mae'r disgwyliadau o ran y gwerthusiad wedi tyfu dros amser. Er mwyn egluro pa gwestiynau y gall y gwerthusiad eu hateb a meysydd y cynllun peilot a archwiliwyd ganddo, mae'r adran nesaf yn rhoi crynodeb byr o nodau a chwmpas yr astudiaeth.

## Nod a chwmpas

### Y Nod

Nod y gwaith hwn o werthuso'r oedd darparu tystiolaeth a damcaniaethau y gellid eu defnyddio i gefnogi'r broses o gyflawni gwaith yr FDAC yn effeithiol yng Nghymru a chyflwyno'r cyd-destun ar gyfer gwerthusiad ar raddfa fwy.

### Y Cwmpas

Cynhaliwyd y gwerthusiad mewn tri cham, a bu'n rhedeg rhwng Ionawr 2022 a Ionawr 2024. Roedd Cam 1 y gwerthusiad yn cynnwys cyfweliadau â rhanddeiliaid proffesiynol wrth i'r cynllun peilot gael ei sefydlu, a hynny i ganfod eu disgwyliadau o'r cynllun peilot a'u profiadau o'i sefydlu, ac i nodi rhwystrau a hwyluswyr o ran rhoi'r FDAC ar waith yng Nghymru. Cynhaliwyd adolygiadau o bolisïau, gwaith ymchwil a llenyddiaeth yn ystod y cam hwn hefyd. Gellir gweld crynodeb o ganfyddiadau Cam 1 isod, a gellir dod o hyd i'r canfyddiadau llawn yn adroddiad interim y gwerthusiad hwn (Meindl et al., 2022).

Mae'r adroddiad terfynol hwn yn canolbwyntio ar gamau 2 a 3 y gwerthusiad. Roedd y camau hyn yn cynnwys cyf-weld â theuluoedd a rhanddeiliaid proffesiynol, yn ogystal ag arsylwi ar wrandawiadau a chyfarfodydd allweddol yr FDAC, a hynny ar wahanol adegau yn ystod yr achosion. Defnyddiwyd data ansoddol a gafwyd yn ystod y camau hyn i ddiweddaru, profi a mireinio damcaniaeth ynghylch y rhaglen a ddatblygwyd yn flaenorol ac sy'n disgrifio'r hyn sydd, mewn perthynas â'r FDAC, yn gweithio i wella canlyniadau, i bwy, ym mha amgylchiadau, a sut. Roedd Cam 3 hefyd yn cynnwys dadansoddiad o ddata gweinyddol meintiol a gasglwyd gan safle FDAC Caerdydd a'r Fro.

Roedd yr astudiaeth hon yn gwerthuso'r gweithrediad a'r broses (IPE) gyda gwerthusiad realaidd (RE) wedi'i ymgorffori. Er ei bod yn cynnwys data meintiol sy'n dangos newidiadau o ran y canlyniadau sydd o ddiddordeb, a hynny cyn ac ar ôl y cynllun, nid oedd yn cynnwys gwerthusiad llawn o'r effaith na dadansoddiad economaidd – roedd y ddau beth hyn y tu hwnt i gwmpas a chyllid y gwerthusiad hwn.

### Cwestiynau ymchwil

Roedd yna dri phrif gwestiwn ymchwil ar gyfer y gwerthusiad hwn:

1. **Dichonoldeb:** A yw cynllun peilot yr FDAC yn cael ei roi ar waith fel y bwriadwyd, ac a yw'n gweithredu mewn modd sy'n ei alluogi i gael ei ehangu yn hawdd?
2. **Profiadau a photensial:** Sut brofiad y mae rhanddeiliaid allweddol yn ei gael o'r cynllun peilot, a pha arwyddion o botensial y gellir eu nodi?
3. **Y gallu i ehangu, a pharodrwydd ar gyfer gwerthusiadau pellach:** A yw cynllun peilot yr FDAC wedi'i ddiffinio'n ddigon clir i'w gyflwyno'n ehangach, ac a yw'n addas ar gyfer gwerthusiad arbrofol neu led-arbrofol mwy cadarn?

## Crynodeb o'r canfyddiadau interim

Cyflwynodd yr adroddiad gwerthuso interim (Meindl, et al., 2022), a gyhoeddwyd ym mis Awst 2022, ganfyddiadau cynnar yn ymwneud â chynnydd FDAC Caerdydd a'r Fro yn wyth mis cyntaf y cynllun peilot, ynghyd â thri maes ychwanegol i'w hadolygu a'u dadansoddi:

**Adolygiadau o waith ymchwil a llenyddiaeth** – Nododd adolygiad byr o'r ymchwil gyfredol i'r FDAC yn y DU fod rhai o'r gwerthusiadau mwyaf a mwyaf uchelgeisiol o'r FDAC hyd yma ar y gweill, ac ariennid pob un ohonynt gan raglen *Supporting Families: Investing in Practice* Adran Addysg Llywodraeth y DU. Awgrymodd yr adolygiad o ymchwil diweddar i'r FDAC fod yr ymyriad yn fwy effeithiol nag achosion gofal safonol o ran helpu rhieni i gadw neu adennill gofal o'u plant a rhoi'r gorau i gamddefnyddio sylweddau. Ystyrid y byddai canlyniadau cadarnhaol yr FDAC yn para'n hirach na chanlyniadau achosion gofal safonol ac, yn aml, roeddent yn cael eu priodoli i'r dull cydweithredol o weithio sy'n gynhenid i'r FDAC, defnydd y model o ddull sy'n ystyriol o drawma, y rhieni'n cyd-gynhyrchu nodau a chynlluniau ymyrryd, yn ogystal â'r tryloywder a'r parch yr oedd y rhieni'n teimlo yr amlygai'r gweithwyr proffesiynol tuag atynt. Roedd yna awgrym hefyd y gallai'r FDAC arwain at arbedion sylweddol o ran costau trwy osgoi achosion gofal rheolaidd a dod o hyd i leoliadau gofal, lleihau nifer y galwadau i'r gwasanaethau brys a'r heddlu ar gyfer materion sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, a lleihau costau cyfreithiol. Roedd heriau pandemig COVID-19 hefyd yn amlwg mewn ychwanegiadau mwy diweddar at y llenyddiaeth, ac mae rhai o'r newidiadau a wnaed i'r model yn ystod y cyfnod hwnnw, megis defnyddio gwrandawiadau hybrid, wedi cael eu cadw gan eu bod yn cael eu hystyried yn fuddiol.

**Adolygiad Polisi** – Dangosodd trosolwg o arferion presennol ledled safleoedd yr FDAC yn Lloegr, a ddisgrifiwyd fel adolygiad polisi, fod 16 o dimau'r FDAC, adeg cyhoeddi'r adolygiad, yn gweithredu mewn 24 o lysoedd, gan wasanaethu 36 o Awdurdodau Lleol. Roedd pob safle yn cadw at fodel craidd yr FDAC a bennwyd yn ystod y cynllun peilot gwreiddiol yn Llundain, er bod nifer ohonynt yn cynnwys iteriadau, addasiadau a gwelliannau, megis cymorth estynedig mewn perthynas â chamdriniaeth ddomestig neu iechyd meddwl, a chymorth ôl-achos yn ychwanegol. Roedd hirhoedledd a rhagweladwyedd cyllid yn faterion amlwg i lawer o'r safleoedd. Arweiniodd hyn at amrywiadau yn y modd yr oedd safleoedd yr FDAC yn cael eu hariannu, ac roedd yn benderfynydd o ran p'un a oeddent yn ehangu neu'n rhoi'r gorau i weithredu. Roedd y berthynas a oedd gan safleoedd yr FDAC â'r Awdurdodau Lleol a wasanaethid ganddynt hefyd yn thema ag amrywiadau rhwng yr FDACs.

**Ffactorau gweithredu** – Awgrymodd dadansoddiad ansoddol o grwpiau ffocws a chyfweliadau â rhanddeiliaid proffesiynol a oedd yn ymwneud â chynllun peilot Caerdydd a'r Fro fod gweithredu'r FDAC wedi digwydd ar bedair prif lefel: 1) lefel genedlaethol/polisi, 2) lefel yr awdurdod lleol, 3) lefel yr FDAC a 4) lefel unigol. Gwnaed argymhellion interim yn seiliedig ar y galluogwyr a'r rhwystrau o ran gweithredu a nodwyd ar bob lefel, a hynny i gefnogi'r broses o roi'r FDAC ar waith yn ehangach yng Nghymru. Roedd yr argymhellion hyn yn cynnwys ehangu argaeledd hyfforddiant yr FDAC i'r holl asiantaethau/gwasanaethau partner allweddol, cynnig sesiynau hyfforddiant diweddaru ar ôl i dimau'r FDAC ddechrau gweithio gyda theuluoedd, gwella'r ddogfennaeth ategol am y cynllun peilot fel ei bod yn egluro sut y mae diogelwch plant yn cael ei flaenoriaethu, a safoni'r cyllid a'r cymorth ar gyfer safleoedd FDAC newydd.

## Ychwanegiadau diweddar at sylfaen dystiolaeth yr FDAC

Ers cyhoeddi'r adroddiad interim, bu datblygiadau o ran yr ymchwil i'r FDAC a gyhoeddwyd. Y datblygiad mwyaf trawiadol yw canfyddiadau'r gwerthusiad mwyaf o'r FDAC sydd wedi'i gynnal yn Lloegr hyd yma, a oedd yn cynnwys pedair astudiaeth gydamserol o fathau gwahanol, a phob un ohonynt yn cael ei hariannu gan Foundations – the What Works Centre for Children and Families[2]. Roedd y rhain yn cynnwys gwerthusiad o'r effaith, gwerthusiad o ymyriad mentora rhieni a oedd wedi'i wreiddio yn yr FDAC, gwerthusiad o gymorth ôl-achos mewn un FDAC, a hap-dreial dan reolaeth yn ymwneud ag effeithiau anfon llythyr at rieni ar gamau gwahanol yn ystod y broses i gynyddu ymgysylltiad â'r model (Baginsky et al., 2023; Damman & Ruch, 2023; Lewis et al., 2023; Papaioannou et al., 2023). Roedd yr un olaf yn seiliedig ar gorff o waith ym maes economeg ymddygiadol, sydd wedi awgrymu y gall llythyrau o'r fath annog pobl i ymgysylltu â gwasanaethau amrywiol (Hallsworth et al., 2016; Sanders et al., 2017; Santoro et al., 2020).

Prif amcan gwerthuso'r effaith oedd amcangyfrif effeithiolrwydd yr FDAC o ran cynyddu'r cyfraddau aduno. Roedd y canlyniadau eilaidd yn cynnwys y camddefnydd o sylweddau ymhlith rhieni, y defnydd o dystion arbenigol, a chyfraddau'r gwrandawiadau terfynol a heriwyd. Mabwysiadodd yr astudiaeth ddull lled-arbrofol o gymharu canlyniadau ar gyfer plant a theuluoedd sy'n ymwneud â'r FDAC â chanlyniadau'r rheiny sy'n cymryd rhan mewn achosion gofal safonol. Cafodd y ddau grŵp hyn eu paru a hynny gan ddefnyddio data naw Awdurdod Lleol ac 13 o safleoedd yr FDAC.

Gan drin y canlyniadau â gofal, dywedodd yr ymchwilwyr fod yna sawl effaith gadarnhaol, megis cyfraddau aduno uwch, a phobl yn rhoi'r gorau i gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Canfuwyd hefyd fod safleoedd yr FDAC yn defnyddio llai o dystion arbenigol allanol a bod llawer llai o wrandawiadau terfynol yn cael eu herio. Fodd bynnag, oherwydd heriau ymarferol a methodolegol sylweddol, nododd yr ymchwilwyr na allant fod yn hyderus bod y gwahaniaethau hyn i'w priodoli'n llawn i'r FDAC. Roedd argaeledd ac ansawdd y data yn arbennig o heriol – yn enwedig mewn perthynas ag achosion gofal safonol. Roedd hyn yn cyfyngu ar allu'r ymchwilwyr i baru plant a theuluoedd yn achos sawl newidyn sy'n debygol o fod yn bwysig, gan gynnwys difrifoldeb y camddefnydd o sylweddau a chymhelliant hunangofnodedig i fynd i'r afael ag ef. Roedd y data am gostau mor wael fel na ellid rhoi amcangyfrifon ystyrlon (Papaioannou et al., 2023).

Ochr yn ochr â'r arwyddion calonogol o'r effaith, roeddent hefyd wedi rhoi gwybod am ganfyddiadau cadarnhaol mewn perthynas ag elfen gweithrediad a phroses y gwerthusiad, gan nodi manteision

[2] Enw blaenorol Foundations oedd What Works for Children's Social Care, a dyna oedd enw'r sefydliad pan gomisiynwyd y gwerthusiadau.

canfyddedig yr FDAC o gymharu ag achosion safonol. Priodolwyd yr effeithiau a'r profiadau cadarnhaol i ddau ffactor allweddol – sef angerdd "cofleidiol" a chymorth teilwredig gan dîm amlddisgyblaethol yr FDAC, a "goruchwyliaeth weithredol" y barnwyr a oedd wedi'u hyfforddi'n arbennig (Papaioannou et al., 2023).

Canolbwyntiodd yr astudiaeth o'r cymorth ôl-achos ar FDAC Swydd Gaerloyw, a defnyddiodd gynllun dulliau cymysg i archwilio gweithrediad a phroses elfen benodol o'r cymorth ôl-achos ym model yr FDAC ar y safle hwnnw. Roedd y canfyddiadau'n gadarnhaol ar y cyfan, gan awgrymu bod y cymorth ôl-achos yn ffitio'n dda yn null yr FDAC a'i fod wedi cael derbyniad da gan randdeiliaid allweddol, er bod effeithiolrwydd yn anodd ei ganfod oherwydd meintiau samplau bach, ansawdd y data, ac effaith pandemig COVID-19 (Baginsky et al., 2023). Awgrymodd yr astudiaeth o fentora hefyd y gallai ychwanegu'r swyddogaeth honno at dimau'r FDAC fod yn fuddiol, er bod yr ymchwilwyr wedi nodi sawl her yn ymwneud â rhoi hynny ar waith, gan gynnwys anawsterau o ran recriwtio a chadw mentoriaid, ac o ran cynnal eglurder y rôl (Damman & Ruch, 2023).

Yn olaf, canfu Lewis a'i gyd-weithwyr nad oedd y llythyrau a gynlluniwyd i annog cyfranogiad wedi cael yr effaith honno, ac nad oedd yna unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng y ddau grŵp a ddewiswyd ar hap o ran ymgysylltu â'r gwasanaeth neu ganlyniadau eraill (Lewis et al., 2023).

## Statws presennol FDAC Caerdydd a'r Fro

Roedd cynllun peilot FDAC Caerdydd a'r Fro i fod i redeg o fis Tachwedd 2021 tan ddiwedd mis Tachwedd 2023. Cafodd Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol De-ddwyrain Cymru wybod yn ystod y broses ymgeisio na ellid gwarantu cyllid o'r newydd y tu hwnt i gyfnod y cynllun peilot a bod disgwyl i'r Awdurdodau Lleol amlygu ymrwymiad i barhau â'r FDAC ar ôl i gyllid Llywodraeth Cymru ddod i ben. Yn ei fynegiant o ddiddordeb, roedd yn cydnabod yr angen i sicrhau cynaliadwyedd ar gyfer safle'r FDAC yn ystod oes cyllid y cynllun peilot, a'r effaith ar blant a theuluoedd pe bai'r gwasanaeth yn dod i ben ar ôl y cyfnod peilot. Er nad oedd yn gallu cadarnhau ymrwymiadau cyllido gan bartneriaid allweddol yn ystod y cam ymgeisio, nododd y mynegiant o ddiddordeb ymrwymiad gan y Bwrdd i archwilio pob ffynhonnell ariannu a oedd ar gael ledled yr holl asiantaethau a phob partneriaeth strategol y tu hwnt i gyfnod y cynllun peilot. Fodd bynnag, ym mis Medi 2023 cyhoeddwyd y byddai FDAC Caerdydd a'r Fro yn cau wedi'r cyfan, cyhoeddiad a arweiniodd at fynegiant cyffredinol o syndod, siom, pryder a rhwystredigaeth o du rhanddeiliaid a oedd yn rhan o'r cynllun peilot (Bryant, 2023a; Bryant, 2023b). Mae'n ymddangos bod yr ymateb hwn wedi digwydd am ddau reswm: disgwyliadau ymhlith y rhanddeiliaid y byddai cynllun peilot FDAC Caerdydd a'r Fro yn cael ei estyn, a'r modd yr oedd y broses o gyfleu gwybodaeth am gau'r cynllun wedi cael ei rheoli.

Ar ôl cynnal ymchwiliad i'r diwygiadau radical y mae eu hangen ar gyfer gwasanaethau i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yng Nghymru, ym mis Mai 2023 argymhellodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg fod Llywodraeth Cymru yn parhau i gyflwyno model yr FDAC ledled Cymru, yn amodol ar gynnal gwerthusiad llwyddiannus o gynllun peilot Caerdydd a'r Fro (y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2023a, argymhelliad 9). Derbyniwyd yr argymhelliad gan Lywodraeth Cymru (Morgan, 2023a, argymhelliad 9), a nododd yn ei hymateb:

> "*Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r gwerthusiad o gynllun peilot Caerdydd a Bro Morgannwg i ystyried modelau cyflawni cynaliadwy ar gyfer cyflwyno cynllun o'r fath*

> *yn genedlaethol. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol, aelodau o'r farnwriaeth a rhanddeiliaid perthnasol eraill i sicrhau bod partneriaid allweddol yn rhan o'r gwaith o gynghori ar y Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol (FDAC) yng Nghymru yn y dyfodol, a phennu eu cwmpas."*

O ganlyniad i ddiffyg cysondeb yn yr amserlenni rhwng y cyfnod yr oedd cynllun peilot Caerdydd a'r Fro i ddod i ben a chyhoeddi'r adroddiad hwn, gwnaed cais gan Awdurdodau Lleol Caerdydd a Bro Morgannwg i Lywodraeth Cymru ystyried estyn y cyllid byrdymor a hirdymor ar gyfer cynllun peilot FDAC Caerdydd a'r Fro. Roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi bod yn edrych ar ffyrdd o estyn y cyllid er mwyn i'r gwerthusiad gael ei gwblhau, a hynny ers mis Mawrth 2023 (y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2023b, paragraff 222). Yn ystod y misoedd cyn i'r cyllid cychwynnol ar gyfer y cynllun peilot ddod i ben, gofynnodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am sicrwydd gan Lywodraeth Cymru ynghylch ei hymrwymiadau i ariannu'r cynllun peilot a'r FDAC yng Nghymru.

Ym mis Medi 2023, cafodd tîm FDAC Caerdydd a'r Fro wybod gan Wasanaethau Plant Caerdydd y byddai'r cynllun peilot yn dod i ben ddiwedd mis Tachwedd pan ddaeth y cyfnod cyllido i ben. Cyn y cyhoeddiad hwn am gau FDAC Caerdydd a'r Fro, ni chafodd gallu na phenderfyniad Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid i estyn y cynllun peilot ei gyfleu i randdeiliaid (Bryant, 2023b). Mae llythyr gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi mai'r rheswm am hyn oedd fod Llywodraeth Cymru yn dal wrthi'n ceisio sicrhau cyllid ar yr adeg y gwnaed y penderfyniad gan Awdurdod Lleol Caerdydd i ddod â'r cynllun peilot i ben (Morgan, 2024).

Mewn ymateb i lythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a oedd yn mynegi pryderon am gau FDAC Caerdydd a'r Fro, roedd llythyrau gan gynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg ym mis Tachwedd 2023 yn rhoi gwybod am benderfyniad Llywodraeth Cymru – sef nad oedd estyn cynllun peilot Caerdydd a'r Fro yn ymarferol oherwydd cyfyngiadau cyllidebol (Lister, 2023; Thomas, 2023). Dechreuodd tîm FDAC Caerdydd a'r Fro wasgaru ddechrau mis Tachwedd 2023 a daeth y cynllun peilot i ben ddiwedd mis Tachwedd 2023. Disgrifiwyd cau'r cynllun peilot fel 'diwedd wedi'i drefnu' (Morgan, 2023b).

# Y Fethodoleg

Dewiswyd defnyddio dulliau cymysg i werthuso’r gweithrediad a’r broses (IPE), gyda gwerthusiad realaidd (RE) wedi'i ymgorffori, ar gyfer yr astudiaeth hon am mai cynllun peilot FDAC Caerdydd a’r Fro yw safle’r FDAC cyntaf yng Nghymru. Mae IPEs mewn sefyllfa dda i bennu a all ymyriad neu wasanaeth weithio mewn cyd-destun penodol, gan roi gwybodaeth well ynghylch a ellir ei gyflawni'n llwyddiannus yn yr hirdymor ac a yw'n werth ei ddatblygu a buddsoddi ynddo yn y dyfodol (Early Intervention Foundation, 2021). Mae IPEs yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau casglu data i archwilio p’un a yw elfennau allweddol ymyriad neu wasanaeth yn ymarferol, yn gyraeddadwy ac yn gweithio'n dda ai peidio, i ddeall sut a pham y cafwyd effaith neu na chafwyd effaith, ac i helpu i fireinio, llywio neu wella ymyriad neu wasanaeth i gynyddu'r siawns y bydd yn creu newid cadarnhaol. Roedd hyn yn ymddangos yn arbennig o briodol ar gyfer camau cynnar yr FDAC yng Nghymru.

Mae gwerthusiadau realaidd yn ddull o werthuso ymyriad neu wasanaeth a lywir gan ddamcaniaethau ac sy'n ceisio deall ac egluro beth sy'n gweithio, i bwy, ym mha amgylchiadau, a sut (Wong et al., 2016). Mae'n seiliedig ar y dybiaeth y bydd pob ymyriad neu wasanaeth yn llwyddo’n rhannol ac yn methu’n rhannol, ac mae'n arbennig o addas ar gyfer gwerthuso ymyriadau cymhleth (Wong et al., 2013). Mae’r FDAC yn ymyriad o’r fath am ei fod yn cynnwys sawl elfen ac yn cefnogi amrywiaeth eang o deuluoedd, pob un ohonynt â chefndir ac anghenion gwahanol.

Mae yna dri chysyniad allweddol yn perthyn i werthusiadau realaidd:

1. Mecanweithiau – sy’n gyfuniad o adnoddau a gynigir gan ymyriad a’r modd y mae pobl yn ymateb i'r adnoddau hynny (Prosiect RAMESES II, 2017). Nhw yw'r grymoedd achosol sylfaenol sy'n cynhyrchu canlyniadau gweladwy ac sy'n cael eu sbarduno mewn cyd-destunau penodol yn unig (Astbury a Leeuw, 2010; Pawson, 2008; Pawson a Tilley, 1997).

2. Cyd-destunau – sef unrhyw ffactor neu gyflwr y tu allan i ymyriad sy'n galluogi mecanweithiau i gynhyrchu canlyniadau, neu'n eu hatal rhag gwneud hynny.

3. Canlyniadau – gallant amrywio o fod yn rhai byrdymor i rai hirdymor, a gallant fod yn ganlyniadau a fwriadwyd ac nas bwriadwyd. Gall ymyriadau neu wasanaethau hefyd fod â sawl canlyniad o bwysigrwydd amrywiol, yn dibynnu ar y rhanddeiliad.

Gellir defnyddio ystod o dystiolaeth i nodi neu ddamcaniaethu ynghylch perthnasoedd achosol rhwng cyd-destunau, mecanweithiau a chanlyniadau (Pawson a Tilley, 1997) ac i gynhyrchu damcaniaeth ynghylch y rhaglen, damcaniaeth sy'n cynnig rhagdybiaeth ynglŷn â’r modd y credir bod ymyriad neu wasanaeth yn creu canlyniad a fwriadwyd (Funnell a Rogers, 2011; Pawson, 2002). Mae hyn yn cael ei brofi a'i fireinio mewn cylchoedd ailadroddol nes bod damcaniaeth derfynol ynghylch y rhaglen yn cynnig esboniad o’r hyn sy'n gweithio mewn perthynas ag ymyriad, i bwy, ym mha amgylchiadau, a sut.

## Cyfranogwyr/sampl

Ar draws pob cam o'r astudiaeth, cymerodd cyfanswm o 41 o randdeiliaid proffesiynol ran yn y gwerthusiad (gweler Tabl 1), ac roedd 38 ohonynt yn ymwneud â’r gweithgarwch casglu data yng

nghamau 2 a 3. Roedd hyn lawer yn uwch na'r nifer targed o weithwyr proffesiynol a bennwyd yng ngham dechreuol y gwerthusiad (n=5). Cymerodd tri ar ddeg o rieni ran mewn gweithgarwch casglu data hefyd, gan gynnwys mamau (n=7) a thadau (n=6). Ar ddechrau'r gwerthusiad, y bwriad oedd cynnwys 15 o deuluoedd a oedd wedi cael eu hatgyfeirio at gynllun peilot FDAC Caerdydd a’r Fro. Fodd bynnag, oherwydd nifer achosion yr FDAC, cyfansoddiad y teuluoedd, a'r heriau ymarferol o ran recriwtio rhieni i gymryd rhan yn yr astudiaeth, diwygiwyd y targed hwn i 15 o rieni unigol a oedd yn rhan o dreial ar gyfer newid. Roedd hwn yn parhau i fod yn darged anodd ei gyflawni oherwydd y cymhlethdodau yr oedd y rhieni'n eu profi, newidiadau munud olaf i wrandawiadau, rhieni'n rhoi'r gorau i achosion, rhieni yn gwrthod cydsynio i'r gwaith ymchwil, a chapasiti tîm yr FDAC.

### Tabl 1: Crynodeb o'r rhanddeiliaid proffesiynol a gymerodd ran yn y gwerthusiad

| Rôl y rhanddeiliad proffesiynol | | Nifer |
|---|---|---|
| Tîm yr FDAC | | 6 |
| Barnwr yr FDAC | | 3 |
| Gwarcheidwad plant | | 8 |
| Cynrychiolydd cyfreithiol | Rhiant | 6 |
| | Awdurdod lleol | 3 |
| | Gwarcheidwad | 2 |
| | Plentyn | 1 |
| Staff gwaith cymdeithasol | Gweithiwr cymdeithasol | 5 |
| | Arweinydd tîm/rheolwr | 2 |
| Arall[3] | Gweithiwr yn y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd | 1 |
| | Staff y Ganolfan Arloesi ym maes Cyfiawnder* | 2 |
| | Uwch-weithiwr Proffesiynol mewn Awdurdod Lleol* | 1 |
| | Staff llys yr FDAC | 1 |
| **Cyfanswm** | | **41** |

Cafodd rhieni eu recriwtio i gymryd rhan yn yr astudiaeth gyda chymorth tîm yr FDAC, a roddodd wybodaeth iddynt am y gwerthusiad yn ystod camau cyntaf eu cysylltiad ag achosion yr FDAC, neu'n ddiweddarach yn yr achosion os oeddent o'r farn bod hyn yn fwy priodol i'r rhiant[4]. Ar ôl nodi bod ganddo ddiddordeb mewn cymryd rhan, roedd gweithiwr allweddol y rhiant neu reolwr tîm yr FDAC yn gweithredu’n rôl porthgeidwad i drefnu'r rhyngweithio cyntaf rhwng y rhiant a'r ymchwilwyr. Byddai taleb o £10 yn cael ei rhoi i rieni a gymerai ran i ddiolch iddynt am eu hamser a'u cyfraniad.

Estynnwyd gwahoddiad i gyfran fechan o'r rhanddeiliaid proffesiynol gymryd rhan yn y gwerthusiad trwy gyfarfod grŵp strategol, er bod y mwyafrif wedi'u recriwtio trwy weithgarwch casglu data gyda’r rhieni (gweler 'casglu data' isod). Gyda chefnogaeth tîm yr FDAC, cyflwynwyd ymchwilwyr i weithwyr proffesiynol perthnasol a oedd yn gweithio gyda rhieni a oedd yn rhan o'r gwerthusiad. Bu rheolwr tîm a chynorthwyydd gweinyddol FDAC Caerdydd a’r Fro hefyd o gymorth i'r tîm ymchwil o ran nodi rhagor o randdeiliaid proffesiynol a fyddai’n addas neu a fyddai â diddordeb, ac a oedd yn gweithio gyda theuluoedd eraill yn y cynllun peilot.

[3] Mae seren yn dynodi gweithwyr proffesiynol a gymerodd ran yng ngham 1 yn unig.
[4] Mewn rhai achosion, roedd tîm yr FDAC yn teimlo nad oedd yn briodol, am wahanol resymau, cyflwyno'r astudiaeth i rieni ar ddechrau’r achosion, ac weithiau byddent yn dewis cyflwyno'r ymchwil yn nes ymlaen. Roedd gan y tîm yr ymreolaeth i benderfynu, ond fe'i hanogid i gyflwyno'r cyfle ymchwil cyn gynted â phosibl.

Rhoddodd yr ymchwilwyr daflen wybodaeth ffurfiol a oedd yn ymwneud â'r astudiaeth i bob cyfranogwr, a sicrhawyd eu bod yn cydsynio i gymryd rhan cyn cynnal y gweithgarwch casglu data.

## Casglu data

Roedd y gwerthusiad yn cynnwys tri phrif weithgaredd casglu data ansoddol: cyfweliadau/grwpiau ffocws, arsylwadau a chyflwyniadau ysgrifenedig. Casglwyd data gweinyddol meintiol gan dîm yr FDAC hefyd, ac maent yn ymddangos yn y gwerthusiad hwn.

### Cyfweliadau a grwpiau ffocws

Defnyddiwyd grwpiau ffocws a chyfweliadau ansoddol realaidd i gasglu data am ganfyddiadau, agweddau a phrofiadau unigolion mewn perthynas â'r cynllun peilot. Roedd y cwestiynau'n dilyn canllawiau pwnc lled-strwythuredig ac yn canolbwyntio'n bennaf ar ddatgelu, profi a mireinio damcaniaethau ar y berthynas achosol rhwng cyd-destunau, mecanweithiau a chanlyniadau. Roedd rhai o'r cwestiynau hefyd yn canolbwyntio ar gipio gweddau amrywiol, yn sicrhau bod y ddamcaniaeth ynghylch y rhaglen a oedd yn cael ei datblygu yn berthnasol i'r ardal leol a'r teuluoedd a oedd yn rhan o'r peilot, ac yn llenwi bylchau o ran deall sut yr oedd FDAC Caerdydd a'r Fro yn gweithredu a'r modd yr oedd rhai o elfennau'r model yn sicrhau canlyniadau i deuluoedd. Ar ôl pob cyfweliad neu grŵp ffocws, defnyddid yr wybodaeth a gafwyd i lywio'r cwestiynau a ofynnid mewn cyfweliadau a grwpiau ffocws dilynol, a hynny mewn modd ailadroddol. Cafodd recordiadau sain o'r holl gyfweliadau a grwpiau ffocws eu creu a'u trawsgrifio.

Fel y nodwyd uchod, y nod gwreiddiol oedd cynnal hyd at bum cyfweliad â phum rhanddeiliad proffesiynol, a hyd at bedwar cyfweliad â 15 o deuluoedd ar gamau gwahanol yn ystod achosion yr FDAC (n=~ 65-85), a hynny trwy gydol y gwerthusiad cyfan. Oherwydd amserlenni, argaeledd y rhieni a'r rhanddeiliaid proffesiynol, a'r heriau a nodwyd uchod o ran anawsterau recriwtio teuluoedd i gymryd rhan yn y gwerthusiad, rhaid oedd adolygu'r targed hwn. Cynhaliwyd grwpiau ffocws yn ogystal â chyfweliadau, ac i adlewyrchu'r newid methodolegol a nodir yn 'cyfranogwyr/sampl', diwygiwyd y targed o 15 o deuluoedd i 15 o rieni. Roedd y rhieni'n dal i gael eu cyf-weld ar gamau amrywiol yn ystod achosion yr FDAC, er nad yr un rhieni oedden nhw o reidrwydd bob tro. Roedd y newid wedi cynyddu cyfranogiad gweithwyr proffesiynol yn y gwerthusiad yn sylweddol.

Ar draws pob cam o'r gwerthusiad, cynhaliwyd 29 o gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws, a oedd yn cynnwys 65 o enghreifftiau unigol o randdeiliad proffesiynol neu riant yn cyfrannu at y gweithgaredd casglu data hwn[5] (gweler Tabl 2).

[5] Cafodd rhai cyfranogwyr eu cyf-weld/Cymerodd rhai cyfranogwyr ran mewn grwpiau ffocws fwy nag unwaith.

## Tabl 2: Dosbarthiad yr holl gyfweliadau a grwpiau ffocws yn ôl y grŵp cyfranogwyr

| Math o gyfweliad/grŵp ffocws | Nifer y cyfweliadau/grwpiau ffocws a gynhaliwyd |
|---|---|
| Cyfweliad â rhiant | 8 |
| Cyfweliad â rhieni ar y cyd | 3 |
| Grŵp ffocws tîm yr FDAC | 4 |
| Cyfweliad ychwanegol â thîm yr FDAC | 2 |
| Grŵp ffocws barnwyr yr FDAC | 5 |
| Grŵp ffocws y cynrychiolwyr cyfreithiol | 1 |
| Grŵp ffocws y gwarcheidwaid | 1 |
| Cyfweliad ychwanegol â'r gwarcheidwaid | 1 |
| Cyfweliad â gweithwyr cymdeithasol | 1 |
| Cyfweliadau cychwynnol â rhanddeiliaid a'u grwpiau ffocws[6] | 3* |
| **Cyfanswm** | **29** |

O'r 40 o randdeiliaid proffesiynol a wahoddwyd[7] yn ffurfiol i gyfweliad neu grŵp ffocws (gweler Tabl 3), cymerodd 19 ohonynt ran mewn 18 o gyfweliadau/grwpiau ffocws, a oedd yn cyfrif am 51 o'r 65 o enghreifftiau o gyfranogwyr yn cymryd rhan mewn cyfweliadau/grwpiau ffocws. Cynhaliwyd yr 11 cyfweliad arall ag wyth rhiant (pedair mam a phedwar tad), a oedd yn cyfrif am 14 o enghreifftiau o gyfranogwyr yn cymryd rhan mewn cyfweliadau/grwpiau ffocws.

Cynhaliwyd 26 o'r cyfweliadau/grwpiau ffocws (55 o enghreifftiau) yng nghamau 2 a 3 y gwerthusiad a chawsant eu dadansoddi ar gyfer yr adroddiad hwn. Roedd hyn yn cynnwys 15 cyfweliad/grŵp ffocws gydag 16 o randdeiliaid proffesiynol (41 o enghreifftiau) a phob un o'r 11 o gyfweliadau â rhieni (14 o enghreifftiau).

## Tabl 3: Rhanddeiliaid proffesiynol a wahoddwyd, ac a gymerodd ran, mewn cyfweliadau a/neu grwpiau ffocws ar draws pob cam o'r gwerthusiad

| Rhanddeiliad proffesiynol[8] | Wedi cael gwahoddiad | Wedi cymryd rhan mewn cyfweliadau/grwpiau ffocws |
|---|---|---|
| Tîm yr FDAC | 6 | 5 |
| Barnwyr yr FDAC | 3 | 3 |
| Cynrychiolwyr cyfreithiol. | 8 | 3 |
| Staff gwaith cymdeithasol | 11 | 1 |
| Gwarcheidwaid | 8 | 4 |
| Gweithiwr yn y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd | 1 | 0 |
| Uwch-weithiwr Proffesiynol mewn Awdurdod Lleol* | 1 | 1 |
| Staff y Ganolfan Arloesi ym maes Cyfiawnder* | 2 | 2 |
| **Cyfanswm** | **40** | **19** |

[6] Mae seren yn dynodi cyfweliadau/grwpiau ffocws a gynhaliwyd yng ngham 1.
[7] Roedd estyn gwahoddiad ffurfiol yn golygu gohebu trwy e-bost â rhanddeiliaid proffesiynol, a chyfleu gwybodaeth ar lafar a dros y ffôn yn achos rhieni. Oherwydd y niferoedd uchel, ni fu'n bosibl olrhain y rhanddeiliaid proffesiynol a'r rhieni eraill a gafodd eu gwahodd yn anffurfiol i gymryd rhan yn y gweithgaredd casglu data hwn.
[8] Mae seren yn dynodi gweithwyr proffesiynol a gymerodd ran yng ngham 1 yn unig.

## Arsylwadau

Arsylwyd ar wrandawiadau llys a chyfarfodydd allweddol trwy gydol yr achosion i ddeall y modd yr oedd proses FDAC Caerdydd a'r Fro yn gweithio a sut yr oedd yr FDAC yn gweithredu mewn cyd-destun Cymreig. Roeddent yn darparu safbwynt gwahanol a mwy uniongyrchol na'r data ail-law a gaed mewn cyfweliadau a grwpiau ffocws. Yn ystod y gwrandawiadau llys, roedd yr ymchwilwyr yn eistedd yng nghefn ystafell y llys ac nid oeddent yn cyfathrebu'n uniongyrchol â rhieni, gweithwyr proffesiynol na barnwyr. Yn ystod y cyfarfodydd allweddol, a oedd yn fwy agos atoch na gwrandawiadau, ymwahanodd yr ymchwilwyr o'r cyfarfod cyn belled ag yr oedd hynny'n rhesymol bosibl. Cymerodd yr ymchwilwyr nodiadau maes ar sail eu harsylwadau, a oedd yn cael eu teipio cyn pen 24 awr ar ôl yr arsylwi.

Cynhaliwyd yr holl waith arsylwi yn ystod camau 2 a 3 y gwerthusiad. Y nod gwreiddiol oedd arsylwi ar 15 o deuluoedd mewn hyd at dri gwrandawiad llys/chyfarfod allweddol yn ystod camau gwahanol achosion yr FDAC (n=~ 30-45). Diwygiwyd y targed hwn hefyd, am resymau a nodwyd eisoes uchod, i arsylwi ar 15 o rieni mewn gwrandawiadau llys/cyfarfodydd allweddol yn ystod camau gwahanol achosion yr FDAC, er nad o reidrwydd gyda'r un rhieni bob tro.

Arsylwyd ar gyfanswm o 27 o wrandawiadau a chyfarfodydd allweddol yr FDAC (gweler Tabl 4). Roedd y rhain yn cynnwys 154 o gyfarfyddiadau unigol â rhanddeiliad proffesiynol neu riant yn y gweithgaredd[9] casglu data hwn. Arsylwyd ar 32 o randdeiliaid proffesiynol, a oedd yn cyfrif am 122 o'r cyfarfyddiadau, ac roedd 13 o achosion rhieni yn rhan o'r arsylwadau, a oedd yn cyfrif am 32 o'r cyfarfyddiadau[10].

### Tabl 4: Dosbarthiad yr holl arsylwadau yn ôl gwrandawiadau a chyfarfodydd allweddol yr FDAC

| Math o gyfarfod/wrandawiad yr arsylwyd arno | Nifer yr arsylwadau a gynhaliwyd |
|---|---|
| Adolygiad gan unigolyn nad yw'n gyfreithiwr | 7 |
| Cyfarfod gweithwyr allweddol | 2 |
| Cyfarfod gweithwyr allweddol,ynghyd â phrawf a dal i fyny | 2 |
| Y cam cychwynnol | 5 |
| Diwygio | 6 |
| Cyfarfod adolygu cynlluniau ymyrryd | 1 |
| Gwrandawiad datrys problemau | 3 |
| Seremoni graddio/cydnabod | 1 |
| **Cyfanswm** | **27** |

## Cyflwyniadau ysgrifenedig

Cafodd cyflwyniadau ysgrifenedig eu cynnwys fel gweithgaredd casglu data tua diwedd y gwerthusiad i alluogi rhanddeiliaid proffesiynol i gyfrannu, lle nad oeddent wedi gallu gwneud hynny'n flaenorol oherwydd argaeledd adeg y gweithgareddau casglu data eraill neu oherwydd cwmpas y gwerthusiad. Gwahoddwyd deuddeg o randdeiliaid proffesiynol (gweler Tabl 5) i

[9] Arsylwyd ar rai o'r cyfranogwyr fwy nag unwaith.
[10] Oherwydd natur rhai o'r cyfarfodydd allweddol yr arsylwyd arnynt, roedd 11 o'r cyfarfyddiadau â rhieni yn cynnwys arsylwadau ar gyfarfodydd a oedd yn ymwneud ag achos rhiant lle roedd y rhiant yn ffocws y cyfarfod ond nad oedd yn bresennol.

ddarparu cyflwyniadau ysgrifenedig byr mewn ymateb i gwestiynau lled-strwythuredig tebyg i'r rhai a ofynnwyd mewn cyfweliadau/grwpiau ffocws. Daeth cyfanswm o bedwar cyflwyniad ysgrifenedig i law. Darparwyd tri chyflwyniad gan randdeiliaid proffesiynol a oedd wedi mynegi eu prif feddyliau a'u profiadau am y cynllun peilot. Daeth un cyflwyniad ysgrifenedig digymell i law hefyd gan riant nad oedd yn gallu cymryd rhan mewn cyfweliad.

Tabl 5: Rolau'r rhanddeiliaid proffesiynol a wahoddwyd i ddarparu cyflwyniadau ysgrifenedig, ac a wnaeth hynny

| Rhanddeiliaid proffesiynol | Wedi cael gwahoddiad | Cyflwyniad wedi dod i law |
|---|---|---|
| Staff llys yr FDAC | 2 | 1 |
| Staff gwaith cymdeithasol | 4 | 0 |
| Gwarcheidwad | 1 | 2[11] |
| Uwch-weithiwr proffesiynol mewn Awdurdod Lleol | 5 | 0 |
| **Cyfanswm** | **12** | **3** |

### Data meintiol

Casglodd tîm FDAC Caerdydd a'r Fro ddata gweinyddol, meintiol, wedi'u rhoi dan ffugenw am deuluoedd a oedd yn rhan o'r cynllun peilot a hynny ar dair lefel wahanol – lefel achos, lefel rhiant, a lefel plentyn. Roedd data lefel achos yn cynnwys yr Awdurdod Lleol a wnaeth yr atgyfeiriad, cynnydd yr achos, dyddiadau allweddol, hyd yr achos, p'un a heriwyd gwrandawiad terfynol ai peidio, ynghyd â manylion adroddiadau/asesiadau arbenigol. Roedd data lefel rhiant yn cynnwys demograffeg, gwybodaeth gefndirol, ymgysylltiad â thîm yr FDAC, y gwasanaethau a gafwyd trwy gydol yr achos, camddefnyddio sylweddau, camdriniaeth ddomestig, a salwch meddwl. Roedd data lefel plentyn yn cynnwys demograffeg, gwybodaeth gefndirol a chanlyniadau achosion yr FDAC (gorchmynion a threfniadau byw). Casglwyd y data ar daenlen Microsoft Excel safonedig, a rhannwyd y data hynny mewn modd diogel â'r tîm gwerthuso trwy'r Ganolfan Arloesi ym maes Cyfiawnder.

Bwriadwyd i ddata gweinyddol cynllun peilot FDAC Caerdydd a'r Fro gael eu cymharu ag un neu ragor o safleoedd FDAC yn Lloegr i archwilio unrhyw wahaniaethau allweddol o ran proffiliau, anghenion a chanlyniadau rhwng teuluoedd a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth yn Lloegr a theuluoedd a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth yng Nghymru. Yn anffodus, nid oedd data cymharol ar gael yn ystod amserlen y gwerthusiad, ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

## Dadansoddi data

Defnyddiwyd NVivo (Lumivero, 2017) i ddarllen trawsgrifiadau o gyfweliadau a grwpiau ffocws, nodiadau maes o arsylwadau, a chyflwyniadau ysgrifenedig, ac i'w codio i nodau ar elfennau o'r FDAC, y cyd-destunau, y mecanweithiau, y canlyniadau, y ffactorau gweithredu, a meysydd 'eraill' o ddiddordeb. Cafodd pob darn o ddata mewn cod, o dan nodau'r cyd-destun, y mecanwaith a'r canlyniadau, eu hallforio i ddogfen Microsoft Word a'u grwpio'n themâu sy'n berthnasol ym mhob elfen o'r FDAC a nodwyd. Cyfunwyd y data a oedd yn gorgyffwrdd ym mhob thema. Trwy broses o

[11] Dim ond un gwarcheidwad a wahoddwyd i ddarparu cyflwyniad ysgrifenedig; fodd bynnag, darparwyd cyflwyniad gan ail warcheidwad hefyd.

gyfosod, cymharu, cyferbynnu a chyfuno, daethpwyd â'r data ynghyd a'u mapio'n weledol yn sawl damcaniaeth ynghylch y rhaglen sy'n adlewyrchu perthnasoedd achlysurol amodol a nodwyd rhwng cyd-destunau, mecanweithiau a chanlyniadau. Er enghraifft, y syniad bod mecanwaith penodol yn cynhyrchu canlyniad penodol o dan amgylchiadau penodol. Cyfrannwyd at y damcaniaethau ynghylch y rhaglen yn barhaus, ynghyd â'u diweddaru a'u profi, a hynny gan ddefnyddio data a gwybodaeth a gafwyd trwy gydol y cyfnod casglu data. Ni chafodd data mewn cod eu mapio os nad oeddent yn ychwanegu unrhyw beth newydd, neu'n ychwanegu rhywbeth yr ystyrid mewn modd goddrychol gan yr ymchwilwyr a oedd wedi'u trwytho yn y ddamcaniaeth ynghylch y rhaglen ei fod y tu hwnt i gwmpas y ddamcaniaeth. Roedd data yn y meysydd 'eraill' o ddiddordeb hefyd yn cael eu hallforio a'u grwpio'n themâu, a fyddai wedyn yn cael eu crynhoi a'u cyflwyno mewn modd thematig.

Roedd data meintiol yn cael eu glanhau a'u dadansoddi gan ddefnyddio Microsoft Excel. Yn anffodus, oherwydd cyflawnrwydd y data/bod symiau mawr o ddata ar goll ac yn anhysbys, nid oedd modd cynnal sawl dadansoddiad arfaethedig. Mae goblygiadau'r materion hyn o ran data yn cael eu hystyried yn y drafodaeth.

# Canfyddiadau

## 1. Nifer a phroffil y teuluoedd yn y cynllun peilot

Cyn trafod canfyddiadau allweddol mewn perthynas â chwestiynau ymchwil y gwerthusiad, mae'r adran hon yn nodweddu'r teuluoedd a oedd yn rhan o'r cynllun peilot, a hynny gan ddefnyddio data gweinyddol a gasglwyd gan dîm yr FDAC a data ansoddol a gasglwyd trwy'r gwerthusiad[12]. Mae hyn yn dangos pwy oedd yn defnyddio'r gwasanaeth; eu proffil, eu hanghenion, ac unrhyw brofiadau blaenorol o wasanaethau y gallent fod wedi'u cael.

### Trosolwg o achosion yr FDAC

Gosodwyd targed o 30 o achosion (15 y flwyddyn) i FDAC Caerdydd a'r Fro ar gyfer y cynllun peilot. Ar ddiwedd y cynllun peilot, roedd yna ddiffyg eglurder ynghylch sut y pennwyd y rhif targed, a chan bwy. Awgrymodd swyddogion Llywodraeth Cymru ei fod yn seiliedig ar ddadansoddiad cwmpasu o'r galw disgwyliedig am y gwasanaeth. Dywedir bod y targed wedi'i bennu ar sail amcangyfrif o nifer y teuluoedd yr oedd eu hangen i werthuso'r effaith, a nifer y teuluoedd yr oedd yn fforddiadwy i'r cynllun peilot weithio gyda nhw. Fodd bynnag, nid oedd yna unrhyw gyd-ddealltwriaeth ymhlith uwch-randdeiliaid o'r rhesymeg y tu ôl i'r targed a'r hyn yr oedd i fod i'w fesur yn ystyrlon. O ganlyniad, nid yw'n bosibl rhoi gwybod a oedd tîm yr FDAC wedi cyflawni ei darged yn ystod y cynllun peilot. Yn hytrach, darperir crynodeb o'r ffigurau perthnasol.

Mae Tabl 6 yn dangos bod 36 o achosion wedi'u hatgyfeirio i FDAC Caerdydd a'r Fro yn ystod y cyfnod peilot, ac roeddent yn cynnwys 55 o rieni a 49 o blant. Atgyfeiriwyd hanner yr achosion gan Gyngor Gaerdydd ac atgyfeiriwyd hanner gan Fro Morgannwg.

#### Tabl 6: Cyfansoddiad y teuluoedd yn achosion FDAC Caerdydd a'r Fro adeg yr asesiad

| Achos[13] | Prif riant/ofalwr | Rhiant/Gofalwr 2 | Rhiant/Gofalwr 3 | Nifer y plant | Awdurdod Lleol | Wedi cofrestru i gymryd rhan yn yr FDAC |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Achos 1** | Y Fam | - | - | 1 | Caerdydd | Ydy |
| **Achos 2** | Y Fam | Y Tad | - | 1 | Caerdydd | Ydy |
| **Achos 3** | Y Fam | - | - | 1 | Caerdydd | Ydy |
| **Achos 4** | Y Fam | Y Tad | - | 2 | Caerdydd | Ydy |
| **Achos 5** | Y Fam | - | - | 1 | Caerdydd | Ydy |
| **Achos 6** | Y Fam | - | - | 1 | Bro Morgannwg | Nac ydy |
| **Achos 7** | Y Fam | Y Tad | - | 1 | Caerdydd | Ydy |
| **Achos 8** | Y Fam | - | - | 1 | Bro Morgannwg | Ydy |


[12] Oherwydd talgrynnu, mae'n bosibl y bydd y canrannau a gofnodir yn yr adran 'Nifer a phroffil y teuluoedd yn y cynllun peilot' ychydig yn is neu ychydig yn uwch na 100% drwyddi draw.
[13] Er bod rhai o'r achosion yn cynnwys mam a thad, nid yw hyn o reidrwydd yn arwydd eu bod mewn perthynas ar y pryd. Mae'n bosibl bod y prif ofalwyr wedi newid yn ystod achosion hefyd. Roedd rhai o'r achosion a oedd yn ymwneud â nifer o blant hefyd yn cynnwys mwy nag un tad yn achosion yr FDAC.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Achos 9** | Y Fam | Y Tad | - | 3 | Bro Morgannwg | Ydy |
| **Achos 10** | Y Fam | Y Tad | - | 1 | Caerdydd | Ydy |
| **Achos 11** | Y Fam | Y Tad | - | 1 | Caerdydd | Ydy |
| **Achos 12** | Y Fam | Y Tad | - | 1 | Bro Morgannwg | Ydy |
| **Achos 13** | Y Fam | - | - | 2 | Bro Morgannwg | Nac ydy |
| **Achos 14** | Y Fam | Y Tad | - | 1 | Bro Morgannwg | Nac ydy |
| **Achos 15** | Y Fam | - | - | 1 | Bro Morgannwg | Nac ydy |
| **Achos 16** | Y Fam | Y Tad/Llystad | - | 2 | Bro Morgannwg | Ydy |
| **Achos 17** | Y Fam | Y Tad | - | 2 | Caerdydd | Ydy |
| **Achos 18** | Y Fam | Y Tad | - | 2 | Bro Morgannwg | Ydy |
| **Achos 19** | Y Fam | - | - | 1 | Caerdydd | Nac ydy |
| **Achos 20** | Y Fam | - | - | 1 | Caerdydd | Nac ydy |
| **Achos 21** | Y Fam | Y Tad | - | 1 | Bro Morgannwg | Ydy |
| **Achos 22** | Y Fam | - | - | 1 | Bro Morgannwg | Ydy |
| **Achos 23** | Y Fam | - | - | 1 | Bro Morgannwg | Nac ydy |
| **Achos 24** | Y Fam | Y Tad | - | 1 | Bro Morgannwg | Nac ydy |
| **Achos 25** | Y Fam | Y Tad | - | 1 | Bro Morgannwg | Nac ydy |
| **Achos 26** | Y Fam | Y Tad | Y Tad | 4 | Bro Morgannwg | Ydy |
| **Achos 27** | Y Fam | - | - | 1 | Caerdydd | Nac ydy |
| **Achos 28** | Y Fam | Y Tad | - | 1 | Caerdydd | Nac ydy |
| **Achos 29** | Y Fam | - | - | 1 | Caerdydd | Nac ydy |
| **Achos 30** | Y Fam | Y Tad | - | 1 | Bro Morgannwg | Ydy |
| **Achos 31** | Y Fam | - | - | 1 | Caerdydd | Nac ydy |
| **Achos 32** | Y Fam | Y Tad | - | 1 | Caerdydd | Nac ydy |
| **Achos 33** | Y Fam | - | - | 1 | Caerdydd | Ydy |
| **Achos 34** | Y Fam | - | - | 1 | Bro Morgannwg | Ydy |
| **Achos 35** | Y Fam | Y Tad | - | 4 | Caerdydd | Ydy |
| **Achos 36** | Y Fam | - | - | 1 | Bro Morgannwg | Nac ydy |

Cofrestrwyd 21 o'r 36 o’r achosion a atgyfeiriwyd i gymryd rhan yn FDAC Caerdydd a’r Fro yn ystod y cynllun peilot, ac aethant ymlaen i dreial ar gyfer newid. Cofrestrodd y rhiant cyntaf ym mis Ionawr 2022 a chofrestrodd y rhiant olaf ym mis Awst 2023 (gweler Ffigur 1). Ni chofrestrwyd 15 o'r achosion i gymryd rhan yn yr FDAC; roedd tîm yr FDAC yn ystyried 11 ohonynt yn 'anaddas', ni

chofrestrwyd tri ohonynt am 'reswm arall', a gwrthododd un achos gymryd rhan. **Nid yw**'r 15 o achosion na fu iddynt gofrestru wedi'u cynnwys yn y data canlynol.

### Ffigur 1: Amserlen yr achosion a gofrestrwyd i gymryd rhan yn FDAC Caerdydd a'r Fro




Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i achosion gofal gael eu cwblhau cyn pen 26 wythnos (Children and Families Act, 2014), a nod FDAC yw cyflawni hyn mewn achosion lle na fydd plant yn cael eu haduno â'u rhiant/rhieni. Fodd bynnag, gellir estyn achosion yr FDAC y tu hwnt i 26 wythnos lle bo aduno er budd gorau'r plant, neu lle bo yna bosibilrwydd y bydd y plant yn dychwelyd adref (Uned Genedlaethol FDAC, 2018). Roedd hyd yr achosion yn ystod cynllun peilot FDAC Caerdydd a'r Fro yn amrywio o 23 wythnos i 50 wythnos, ac roedd hyd cymedrig yr achosion yn 28.5 wythnos. Roedd hyd canolrifol yr achosion yn 25 wythnos, ac aeth 38% o'r achosion (n=8) y tu hwnt i 26 wythnos. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â data sy'n awgrymu mai 49 wythnos (Ministry of Justice, 2022) yw hyd cyfartalog yr achosion mewn llys teulu traddodiadol.

## Demograffeg

Roedd y 21 o achosion a gofrestrwyd i gymryd rhan yn FDAC Caerdydd a'r Fro yn cynnwys 35 o rieni a 33 o blant. Mae tablau 7 ac 8 yn dangos crynodeb o ddemograffeg y rhieni a'r plant. Roedd mwyafrif y rhieni (57%) yn fenywod. Roedd oedran y rhieni yn amrywio o 18-54 oed, ac roedd eu hoedran cyfartalog yn 34 oed. Roedd oedran cyfartalog y rhieni gwrywaidd (36 oed) ychydig yn uwch nag oedran cyfartalog y rhieni benywaidd (32 oed). Cofnodwyd bod mwyafrif y rhieni (77%) yn Wyn Prydeinig (Seisnig, Cymreig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon); cofnodwyd bod 6% yn Asiaidd/Asiaidd Prydeinig; cofnodwyd bod 3% yn Wyn/Du Caribïaidd, a chofnodwyd bod 14% yn perthyn i gefndir cymysg/amlethnig. Mewn cymhariaeth, yn ôl y cyfrifiad diweddaraf, cofnodwyd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, yn y drefn honno, fod 79.2% a 94.6% o'r boblogaeth yn Wyn, bod 4% a 2.3% yn perthyn i gefndir cymysg/amlethnig, bod 9.7% a 2.1% yn Asiaidd, yn Asiaidd Prydeinig neu'n Asiaidd Cymreig, bod 3.8% a 0.5% yn Ddu, yn Ddu Prydeinig, yn Ddu Cymreig, yn Garibïaidd neu'n Affricanaidd, a bod 3.3% a 0.5% yn perthyn i grwpiau ethnig eraill (y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2023).

Roedd 52% o'r plant yn wrywaidd. Roedd oedran y plant yn amrywio o fabanod heb eu geni i 16 oed, er bod y mwyafrif helaeth (93.9%) o dan 10 oed. Yn yr un modd â'r rhieni, cofnodwyd bod

mwyafrif y plant (70%) yn Wyn (Seisnig, Cymreig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig), cofnodwyd bod 9% yn perthyn i gefndir cymysg/amlethnig, cofnodwyd bod 3% yn Asiaidd/Asiaidd Prydeinig, ac ni chofnodwyd ethnigrwydd yn achos 6% o'r plant (gweler Tabl 8).

### Tablau 7 ac 8: Crynodeb o ddemograffeg y rhieni a'r plant[14]

| Ystodau demograffig y rhieni | Nifer y rhieni |
|---|---|
| **Rhywedd** | |
| Gwryw | 15 |
| Benyw | 20 |
| **Oedran (blynyddoedd) ar ddyddiad y gwrandawiad cyntaf** | |
| 18-24 | 4 |
| 25-29 | 8 |
| 30-34 | 7 |
| 35-39 | 7 |
| 40-44 | 7 |
| 50 | 2 |
| **Ethnigrwydd** | |
| Gwyn (Seisnig, Cymreig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig) | 27 |
| Cefndir cymysg/amlethnig | 5 |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig | 2 |
| Gwyn/Du Caribïaidd | 1 |

| Ystodau demograffig y plant | Nifer y plant |
|---|---|
| **Rhywedd** | |
| Gwryw | 17 |
| Benyw | 16 |
| **Oedran (blynyddoedd) ar ddyddiad y gwrandawiad cyntaf** | |
| < 12 mis | 10 |
| 1-3 | 5 |
| 4-6 | 8 |
| 7-9 | 8 |
| 10-12 | 1 |
| 16+ | 1 |
| **Ethnigrwydd** | |
| Gwyn (Seisnig, Cymreig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig) | 23 |
| Cefndir cymysg/amlethnig | 3 |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig | 1 |
| Anhysbys | 6 |

### Hanes blaenorol o ymwneud â gwasanaethau plant

Roedd dros chwarter y rhieni yn y cynllun peilot (n=9, 26%) wedi bod yn blant a oedd yn derbyn gofal eu hunain, ac roedd mwyafrif yr holl rieni wedi cael cyswllt blaenorol â gwasanaethau plant (n=30, 86%). Roedd plant wedi'u cymryd oddi ar 31% o'r holl rieni yn flaenorol (n=11), ac roedd cyfanswm cyfunol o 31 o blant wedi'u cymryd oddi ar rieni cyn iddynt gymryd rhan yn achosion yr FDAC. Roedd nifer y plant a gymerwyd oddi ar rieni yn flaenorol yn amrywio rhwng un a saith, ac ar gyfartaledd roedd ychydig llai na thri phlentyn yn cael eu cymryd fesul rhiant.

Nid oedd unrhyw riant yn y cynllun peilot wedi bod yn barti mewn achos FDAC blaenorol, ac nid oedd unrhyw blant a oedd yn ymwneud ag achosion yr FDAC wedi bod yn blant a oedd yn derbyn gofal yn y gorffennol.

### Camdriniaeth ddomestig

Gan adlewyrchu tuedd a nodwyd yn yr adolygiad polisi o safleoedd eraill yr FDAC (gweler yr adroddiad interim), dywedodd bron pob un o'r rhieni yng nghynllun peilot Caerdydd a'r Fro eu bod wedi profi camdriniaeth ddomestig yn y gorffennol (n=34, 97%). Dywedodd 34% o'r rhieni (n=12) fod ganddynt brofiad blaenorol o fod yn ddioddefwr, dywedodd 11% (n=4) fod ganddynt brofiad o fod yn gyflawnwr, a dywedodd 51% (n=18) fod ganddynt brofiad o fod yn ddioddefwr ac yn

[14] Nid yw categorïau gwag wedi'u cynnwys yn y tablau.

gyflawnwr. Nid oedd yn hysbys p'un a oedd gan y rhiant a oedd yn weddill brofiad blaenorol o gamdriniaeth ddomestig ai peidio.

Yn achos rhai o'r rhieni, roedd camdriniaeth ddomestig hefyd yn fater cyfredol ar ddechrau achosion yr FDAC, er bod y nifer a ddywedodd eu bod yn profi camdriniaeth ddomestig yn is (n=8, 23%). Ar yr adeg hon, dywedodd 17% o'r rhieni (n=6) eu bod yn ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig; dywedodd 6% (n=2) eu bod yn cyflawni camdriniaeth ddomestig, a dywedodd 74% (n=26) nad oeddent yn profi camdriniaeth ddomestig ar y pryd.

### Iechyd meddwl

Hefyd, yn gyson â chanfyddiadau'r adolygiad polisi, roedd pob rhiant ar ddechrau achosion yr FDAC, ac eithrio un, wedi profi problemau iechyd meddwl (n=34, 97%). Roedd llawer o'r rhieni (60%; n=21) yn cael meddyginiaeth iechyd meddwl ar bresgripsiwn ar y pryd. Nid oedd 31% (n=11) yn cael meddyginiaeth iechyd meddwl, ac nid oedd yr wybodaeth yn hysbys yn achos 9% (n=3) o'r rhieni.

Yn anffodus, mae ansawdd a chyflawnrwydd y data yn ein hatal rhag adrodd am ganfyddiadau eraill sy'n ymwneud ag iechyd meddwl y rhieni, megis diagnosis o anhwylder meddwl, iselder rhiant neu ddifrifoldeb anhwylder gorbryder, p'un a oedd rhieni'n ymgysylltu â thimau iechyd meddwl cymunedol cyn ac ar ôl yr achosion, neu sgoriau sgrinio ar gyfer trawma.

### Tai

Roedd mwyafrif y rhieni yn y cynllun peilot yn byw mewn tai cymdeithasol (n=22, 63%) pan ddechreuodd yr achosion. Yr ail fath mwyaf cyffredin o lety oedd tŷ â chymorth, hostel neu loches (n=6, 17%), a'r mathau lleiaf cyffredin o lety oedd lle roedd y rhiant yn berchennog preswyl (n=1, 3%) a thenant preifat (n=1, 3%). Roedd un rhiant (3%) yn ddigartref ar ddechrau'r achos. Ni chasglwyd data am y mathau o lety ar ddiwedd achosion yr FDAC, ac felly nid oedd yn bosibl olrhain y modd yr oedd statws llety'r rhieni wedi newid dros amser.

## 2. Dichonoldeb

I bennu a weithredwyd y cynllun peilot yn ôl y bwriad, ac a yw'n ymarferol yng nghyd-destun Caerdydd a Bro Morgannwg, mae'r adran hon yn archwilio sawl agwedd allweddol ar y cynllun peilot sy'n bwysig at ddibenion mewnol y cynllun peilot ac o ran rhoi ystyriaeth helaethach i ehangu'r FDAC i rannau eraill o Gymru.

### Tîm yr FDAC

Roedd tîm craidd FDAC Caerdydd a'r Fro yn cynnwys y rolau canlynol:

- Rheolwr y tîm
- Cynorthwyydd gweinyddol
- Seicolegydd clinigol
- Arbenigwr iechyd meddwl
- Arbenigwr camddefnyddio sylweddau

Cafodd y tîm ei sefydlu ym mis Tachwedd 2021; fodd bynnag, ni chafodd pob swydd o fewn y tîm ei llenwi pan aeth y cynllun peilot yn fyw, ac ni chafodd rhai swyddi eu llenwi tan fis Rhagfyr 2021. Dywedodd aelod o'r tîm fod hyn wedi creu amgylchiadau anodd o'r cychwyn cyntaf:

> *"Roedd yna amserlenni gwahanol pan fyddai pobl yn ymuno â'r tîm. Felly, rwy'n credu ein bod wedi gorfod ffurfio'r tîm mewn amgylchiadau anodd iawn, wyddoch chi, o ran cael amser gyda'n gilydd, efallai hyd yn oed fel tîm, mynd i FDACs eraill neu ddim ond cael y cyfle hwnnw fel tîm mewn gwirionedd i feddwl ychydig mwy am 'sut y mae hyn yn gweithio?'"* – aelod o dîm yr FDAC

Roedd y tîm wedi'i leoli ochr yn ochr â Thîm Integredig Cymorth i Deuluoedd Caerdydd a'r Fro (IFST) a oedd yn bodoli eisoes. Yn ymarferol, roedd hyn yn golygu bod rheolwr tîm yr FDAC yn adrodd i reolwr gwasanaeth yr IFST, a bod teuluoedd a oedd yn cael eu haduno trwy'r FDAC yn gallu cael 12 mis o gymorth ôl-achos gan yr IFST. Roedd tîm yr FDAC wedi'i leoli'n bennaf yn Neuadd y Ddinas Caerdydd, er nad oedd hyn yn wir am hyd cyfan y cynllun peilot. Roedd diffyg gofod ffisegol i weithio ohono yn ystod tri neu bedwar mis cyntaf y cynllun peilot yn her gynnar arall i'r tîm, un a ddaeth i'r amlwg eto yn ystod dau fis olaf y cynllun peilot, pan fu'n rhaid i aelodau'r tîm adael Neuadd y Ddinas oherwydd gwaith adnewyddu'r adeilad.

Pan oeddent yn cefnogi teuluoedd ym Mro Morgannwg, byddai tîm yr FDAC yn aml yn gweithredu o ganolfan Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro (CAVDAS). Bu'r tîm yn canu clodydd CAVDAS a'r gefnogaeth a'r gofod a gawsant gan y mudiad, a pha mor ddefnyddiol oedd cael y lle ychwanegol hwn:

> *"Maen nhw wir wedi ymrwymo i'r FDAC. Enghraifft dda o hyn yw eu bod wedi caniatáu i ni ddefnyddio eu gofod yr wythnos hon. Dim cost, wyddoch chi, ac yn groesawgar iawn…mae hyn wedi bod o gymorth mawr i ni."* – aelod o dîm yr FDAC

Yn ystod ail flwyddyn y cynllun peilot, i ehangu capasiti tîm FDAC Caerdydd a'r Fro a chynyddu nifer y gwrandawiadau, daeth y Ganolfan Arloesi ym maes Cyfiawnder o hyd i gyllid ychwanegol trwy Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yng Nghymru i gyflogi gweithiwr cymdeithasol cymwys. Cafodd y swydd ei llenwi am oddeutu mis cyn dod yn wag eto. Ni cheisiwyd recriwtio rhywun arall ac ni chasglwyd y cyllid ychwanegol. Roedd y tîm wedi derbyn achosion ychwanegol, gan ddisgwyl y byddai yna ragor o gapasiti, ac er bod gweithiwr o Dîm Integredig Cymorth i Deuluoedd Caerdydd a'r Fro wedi cynorthwyo tîm FDAC Caerdydd a'r Fro tua diwedd y cynllun peilot i liniaru'r ffaith bod swydd y gweithiwr cymdeithasol ychwanegol yn wag, roedd yn dal i effeithio ar nifer yr achosion yr oedd y tîm yn gallu ymdrin â nhw ar yr un pryd.

Er bod rheolwr y tîm yn weithiwr cymdeithasol cymwys ac yn gallu cynnig arbenigedd ym maes gwaith cymdeithasol, roedd gweithiwr cymdeithasol cymwys neilltuol yn un rôl ymhlith nifer nad oeddent wedi'u cynnwys yn nhîm FDAC Caerdydd a'r Fro. Er enghraifft, nid oedd y tîm chwaith yn cynnwys gweithiwr ôl-achos na mentor(iaid) rhieni. Er bod y tair rôl hyn yn cael eu hargymell yn safonau gwasanaeth yr FDAC (y Ganolfan Arloesi ym maes Cyfiawnder, 2019a) a chanllawiau gan bartneriaeth genedlaethol yr FDAC ynghylch dechrau arni (y Ganolfan Arloesi ym maes Cyfiawnder, 2019b), dangosodd yr adroddiad gwerthuso interim (Meindl et al., 2022) fod cyfansoddiad timau'r FDAC yn amrywio yn ôl y cyd-destun lleol, ac mae'n gyffredin i'r ddwy rôl olaf a nodwyd beidio â chael eu cynnwys mewn llawer o dimau FDAC y DU.

## Barnwyr yr FDAC

Roedd gan FDAC Caerdydd a’r Fro un prif farnwr pan ddechreuodd y cynllun peilot. Y bwriad oedd i'r cynllun peilot gynnwys dau farnwr llawn-amser, a fyddai’n gwrando ar achosion yr FDAC bob yn ail wythnos. Fodd bynnag, oherwydd swm y gwaith, ac i sicrhau gwasanaeth cyflenwi priodol, ehangodd y tîm barnwrol erbyn mis Mehefin 2022 i gynnwys tri barnwr wedi'u hyfforddi'n arbennig. Cafodd y trydydd barnwr ei recriwtio’n bennaf i ddarparu gwasanaeth cyflenwi ychwanegol, ac ar y cyfan roedd yn gyfrifol am lai o achosion yr FDAC na dau brif farnwr yr FDAC. Roedd y tri barnwr yn gweithredu o Lys Teulu Caerdydd.

## Niferoedd yr achosion

Er mor anodd fu penderfynu a oedd FDAC Caerdydd a’r Fro yn cyflawni ei darged o ran nifer yr achosion trwy gydol y cynllun peilot, roedd yn ymddangos bod yna dri phrif rwystr i gynyddu nifer y teuluoedd a oedd yn cymryd rhan. Roedd y rhwystr cyntaf yn ymwneud â'r llwybr atgyfeirio i’r FDAC, a arweiniodd at nifer is o atgyfeiriadau na'r hyn a ddisgwylid yn y lle cyntaf. Un rheswm yn nhyb tîm yr FDAC pam nad oedd nifer yr atgyfeiriadau yn cyfateb i’r hyn a ragwelwyd, oedd y gallai rhai gweithwyr proffesiynol fod wedi drysu ynghylch trothwyon camddefnyddio sylweddau. O ganlyniad, tybiwyd bod gweithwyr proffesiynol yn sgrinio’r atgyfeiriadau ymlaen llaw, a dim ond yn atgyfeirio at yr FDAC os oedd camddefnydd rhiant o sylweddau yn arbennig o ddifrifol.

Adlewyrchwyd y dryswch hwn mewn cyfweliadau â gweithwyr cymdeithasol a chynrychiolwyr cyfreithiol, a nododd fod yna ddiffyg eglurder ynghylch y llwybr atgyfeirio i’r FDAC, y trothwyon yr oedd cynllun peilot yr FDAC yn gweithredu yn unol â nhw, a chwmpas y gefnogaeth a gynigir yn achosion yr FDAC. Gan gyfeirio at rai teuluoedd, esboniodd un gweithiwr cymdeithasol *"Mae cyffuriau ac alcohol yn nodwedd, ond ni fyddai bob amser yn cyrraedd y trothwy hwnnw o bosibl*", ac nad oedd "*defnydd lefel isel o ganabis*"…"*yn ôl pob tebyg ar lefel lle y byddai’n addas*" ar gyfer yr FDAC.

Yn yr un modd, roedd rhai cynrychiolwyr cyfreithiol o dan yr argraff mai'r Awdurdodau Lleol a oedd yn gyfrifol am benderfynu a oedd achos yn cyrraedd trothwy'r FDAC. Soniodd un ohonynt am achos na chafodd ei gyflwyno gan yr ALl i gael ei ystyried gan yr FDAC yn y lle cyntaf, ond a ddaeth i mewn i'r gwasanaeth ar orchymyn barnwr yn y pen draw:

> *"Pan gawson ni hyfforddiant yr FDAC, roeddem yn meddwl bod yn rhaid i'r Awdurdod Lleol bennu p’un a oedd yn addas ar gyfer yr FDAC ai peidio cyn* [dechrau achos]. *Ond yr hyn a ddigwyddodd yn yr achos penodol hwn yw na wnaeth yr awdurdod ddewis llwybr yr FDAC. Yn y pen draw, bu’n rhaid cynnal gwrandawiad brys gerbron y Barnwr Teulu Dynodedig. Ac yn y bôn dywedodd, 'mae hyn yn mynd i ddilyn llwybr yr FDAC'. A dydw i ddim yn meddwl bod yr un ohonon ni, a ninnau’n anghyfarwydd â’r maes hwn, wedi meddwl bod hynny'n bosibl – sef y gallem ddewis dilyn y llwybr yna…dw i'n gwybod mai mater o 'gynnig a methu' yw'r cyfan, ond dyna oedd un o'r [materion] cyntaf, achos roeddwn i'n meddwl na allen ni wneud hyn."* – Cynrychiolydd cyfreithiol

Dangosodd enghreifftiau eraill sut y gallai camsyniad ynghylch natur a chwmpas yr FDAC fod wedi atal rhai teuluoedd rhag cael eu hystyried ar gyfer achosion yr FDAC. Mae'r sylw canlynol gan weithiwr cymdeithasol yn awgrymu bod yr FDAC yn cael ei ystyried yn wasanaeth a oedd yn canolbwyntio ar faterion cyffuriau ac alcohol ar draul problemau eraill:

*"... dan yr amgylchiadau hyn, roedd gennym lawer o bryderon ynghylch niwed corfforol. Yn flaenorol, mae plant wedi cael eu cymryd oddi ar oedolion sy'n amlygu ymddygiad treisgar peryglus iawn. Nid dod i gysylltiad â chamdriniaeth ddomestig yn unig, ond yn gorfforol, wyddoch chi, anafiadau nad ydynt yn amlwg wedi digwydd yn ddamweiniol. Teimlid na fyddai'r FDAC o reidrwydd yn asesu'r elfen honno i'r dyfnder angenrheidiol.* " – Gweithiwr cymdeithasol

Y camddealltwriaeth yn y fan hon yw fod presenoldeb materion eraill sydd y tu hwnt i gamddefnyddio sylweddau, megis anaf nad yw'n ddamweiniol, yn atal yr FDAC rhag gweithio gyda theulu pan nad yw hyn yn wir. Yn fwy eang, awgrymodd un o farnwyr yr FDAC y gallai diffyg ymwybyddiaeth cyffredinol a phrofiad o'r model ymhlith gweithwyr proffesiynol fod yn rheswm arall a oedd yn cyfrannu at lai o atgyfeiriadau. Dywedodd:

*"Rwyf wedi gwrando ar gwpl o achosion a oedd yn ymddangos yn addas ar gyfer yr FDAC, ond nid yw hyn wedi cael ei archwilio am nad oedd gan y cyfreithiwr na'r tîm penodol a oedd yn ymdrin â'r achos unrhyw brofiad o'r system."* – Un o farnwyr yr FDAC

Mae'r ail rwystr yn ymwneud â chapasiti tîm yr FDAC. Roedd y tîm wedi cael gwybod y byddai aelodau'r tîm, mewn FDAC sefydledig, yn ymdrin ag o leiaf llwyth gwaith o bum achos (teuluoedd) ar y tro. Roedd gweithwyr allweddol yn FDAC Caerdydd a'r Fro yn ymdrin â hyd at dri neu bedwar achos ar y tro, ac yn teimlo nad oedd yna gapasiti i ehangu hynny ymhellach o ystyried maint y tîm ar y pryd. Y rheswm dros hyn yn arbennig oedd oherwydd y llwyth gweinyddol trwm a dwyster y gwaith achos. Gan fyfyrio ar y mater hwn, awgrymodd un aelod o dîm yr FDAC "*pe baem yn dîm mwy, yna efallai y byddwn yn gallu ysgwyddo llwyth achosion mwy*."

Cododd y trydydd rhwystr tuag at ddiwedd y cynllun peilot. Roedd yr amwysedd ynghylch a fyddai'r cynllun peilot yn cael ei estyn, ei ailgomisiynu neu ei ddirwyn i ben ar ddiwedd y cyfnod a drefnwyd (gweler y 'canfyddiadau' yn adran 5 i gael rhagor o fanylion) yn golygu nad oedd tîm yr FDAC yn gallu derbyn atgyfeiriadau newydd i gynllun peilot yr FDAC ar ôl mis Gorffennaf 2023. Ystyriwyd bod hyn yn angenrheidiol am nad oedd digon o amser yn weddill yn y cynllun peilot i'r FDAC gwblhau achosion newydd pe na bai yna sicrwydd o gyllid ychwanegol.

### Yr ystod a'r math o waith a wnaed

Yn ystod achosion yr FDAC, cafodd pob un o'r 35 o rieni gymorth/wasanaethau mewnol gan dîm yr FDAC ar gyfer y canlynol:

- Iechyd meddwl
- Iechyd corfforol
- Teulu
- Magu plant
- Camdriniaeth rywiol neu drawma (rhywiol a chyffredinol)
- Camddefnyddio sylweddau

Cafodd rhieni gymorth hefyd gan asiantaethau allanol eraill trwy atgyfeiriadau a wnaed gan dîm yr FDAC, cymorth a oedd yn ymdrin yn benodol ag anghenion y rhiant. Nid yw'n syndod mai'r cymorth ychwanegol mwyaf cyffredin oedd ymyriadau o ran camddefnyddio sylweddau (n=11, 31%), ac yna cefnogaeth o ran magu plant (n=8, 23%) a chymorth adfer a arweinir gan gymheiriaid (n=7, 20%). Ymhlith y gwasanaethau eraill a gafwyd gan rieni yr oedd cymorth/triniaeth iechyd corfforol (n=3,

9%), triniaeth ddeintyddol (n=1, 3%), cymorth iechyd meddwl arall (n=5, 14%), rhaglen ar gyfer goroeswyr camdriniaeth ddomestig (n=1, 3%), tai (n=4, 11%), rheoli dyled (n=4, 11%), cymorth o ran addysg neu hyfforddiant (n=3, 9%), cymorth o ran camdriniaeth neu drawma rhywiol (n=1, 3%), a chanolfannau menywod (n=1, 3%). Mae hyn yn dangos yr ystod eang o gymorth a gafodd y rhieni trwy gydol achosion yr FDAC, elfen a atgyfnerthwyd ymhellach gan rieni mewn cyfweliadau, lle roedd llawer ohonynt yn teimlo nad oedd yna gyfyngiad ar yr hyn yr oedd tîm yr FDAC yn gallu, neu'n fodlon, ei wneud i'w cynorthwyo:

> *"Byddan nhw'n eich helpu i ddelio â phopeth yr ydych chi'n cael trafferth ag ef, a phethau sy'n achosi problemau i chi. Maen nhw yno i wneud mwy na dim ond gofyn i chi wneud profion cyffuriau a'ch cael chi i drwbl. Maen nhw yno i'ch helpu chi...ac maen nhw'n dweud hynny wrthych chi bob tro y byddan nhw'n cwrdd â chi."* – Un o'r rhieni a oedd yn ymwneud â'r FDAC, nad yw wedi'i (h)aduno â'r plentyn/plant.

> *"Mae'n teimlo fel petaen nhw'n fwy na pharod i'ch helpu gydag unrhyw sefyllfa rydych yn rhan ohoni. Ac mae'n braf."* – Un o'r rhieni a oedd yn ymwneud â'r FDAC, sydd wedi'i (h)aduno â'r plentyn/plant.

### Ymrwymiad i ddull gweithredu'r FDAC

Roedd yna rinwedd bwysig, ond ychydig y tu hwnt i eiriau, yn perthyn i'r modd yr oedd achosion a gwaith achos yn cael eu rheoli yn ystod y cynllun peilot, a daeth hynny i'r amlwg yn ystod arsylwadau a oedd yn cynnwys barnwyr a thîm yr FDAC. Roeddent yn amlygu ymdeimlad cryf o ymrwymiad a rennir, angerdd a chred mewn perthynas ag ethos yr FDAC, ac yn enwedig o ran y ffordd o weithio seiliedig ar gryfderau ac ystyriol o drawma, a'r dull o ddatrys problemau. Amlygwyd hyn ar draws pob agwedd ar eu gwaith i'r FDAC a welwyd yn y gwerthusiad, ond roedd yn arbennig o nodedig yn y modd yr oeddent yn siarad am y teuluoedd yr oeddent yn eu cefnogi a'r gwaith yr oeddent yn ei wneud.

Mewn rhai achosion, roedd y cynnydd yn araf, roedd ymgysylltu â'r rhieni yn ymddangos yn heriol, roedd rhwystrau'n gyffredin, ac roedd y llwythi gwaith yn drwm. Er gwaethaf hyn, amlygodd barnwyr a thîm yr FDAC ymrwymiad i ddull gweithredu'r FDAC, gan ymgorffori egwyddorion sylfaenol ac athroniaethau'r FDAC. Roeddent yn defnyddio iaith seiliedig ar gryfderau wrth drafod y rhieni, hyd yn oed pan nad oeddent yn bresennol. Roeddent yn ceisio deall amgylchiadau cyfredol a blaenorol y rhieni i nodi atebion a chefnogi anghenion y rhieni yn well. At hynny, roeddent yn darparu cefnogaeth gyson a man diogel i helpu teuluoedd i oroesi'r heriau anochel a godai, a hynny oll ar yr un pryd â sicrhau bod diogelwch y plant a'r rhieni yn flaenoriaeth.

### Ffactorau gweithredu

Er bod gweithrediad cynllun peilot FDAC Caerdydd a'r Fro wedi ymddangos yng ngham cyntaf y cyfnod casglu data ac yn yr adroddiad gwerthuso interim, roedd dadansoddiad ansoddol o gyfweliadau a grwpiau ffocws â rhanddeiliaid proffesiynol yng nghamau 2 a 3 wedi rhoi cipolwg pellach ar weithrediad yr FDAC yng Nghymru wrth i'r cynllun peilot fynd rhagddo. Mae'r adran hon yn cyflwyno diweddariad cryno ar y rhwystrau a'r galluogwyr mewn perthynas â gweithredu a brofwyd gan randdeiliaid allweddol cynllun peilot FDAC Caerdydd a'r Fro. Mae'r rhain wedi'u gwahanu yn ôl y lefelau y canfuwyd bod y broses o weithredu'r FDAC yn digwydd yng nghyd-destun Cymru yn ystod cam 1 y gwerthusiad (gweler Tabl 9).

Nid yw'r rhestr yn un lawn, ond mae'n rhoi manylion rhai o'r galluogwyr a'r rhwystrau a nodwyd yn flaenorol yng ngham 1 ac a ategwyd yng nghamau 2 a 3 (y testun wedi'i danlinellu yn y tabl), ynghyd â galluogwyr a rhwystrau newydd a nodwyd yn ystod camau 2 a 3 (y testun mewn teip trwm). Mae Atodiad 1 yn rhoi fersiwn estynedig o'r tablau, sy'n rhoi manylion galluogwyr a rhwystrau a nodwyd ar draws pob cam o'r gwerthusiad a oedd yn effeithio ar y broses o weithredu'r FDAC yng Nghymru. O ystyried yr amgylchiadau a oedd yn gysylltiedig â chau FDAC Caerdydd a'r Fro, mwy o rwystrau i weithredu'r FDAC yn llwyddiannus wedi'u nodi nag o alluogwyr wrth i'r cynllun peilot fynd rhagddo. Roedd ffactorau'n ymwneud â chyllido, hyfforddiant ac ymrwymiad yn nodedig ar sawl lefel o weithredu.

### Tabl 9: Galluogwyr a rhwystrau mewn perthynas â gweithredu'r FDAC yng Nghymru, a nodwyd yng nghamau 2 a 3

| Lefel gweithredu | Galluogwyr | Rhwystrau |
|---|---|---|
| Cenedlaethol/polisi | - | Cyllid:<br>• **Diffyg adnoddau a chyllid ar gael ar gyfer yr FDAC.**<br>• **Ailbennu neu ailgomisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.** |
| Awdurdod Lleol | Argaeledd y gwasanaethau:<br>• <u>Mae amrywiaeth eang o ddarparwyr triniaethau a sefydliadau trydydd sector ar gael yn yr ardal leol i atgyfeirio rhieni atynt;</u><br>• <u>Gwasanaethau lleol cadarn yn yr Awdurdod Lleol (yn enwedig y rhai ag egwyddorion craidd sy'n debyg i rai'r FDAC, strwythur tîm amlddisgyblaethol tebyg, a/neu brosesau tebyg ar gyfer atgyfeirio pobl at y gwasanaeth).</u><br><br>Ymrwymiad:<br>• <u>Arweinwyr sy'n credu yn yr FDAC ac sy'n ymrwymedig i'r newidiadau o ran dull ac ymarfer.</u><br>• **Gweithwyr cymdeithasol yr ALl yn gefnogol i'r FDAC.**<br><br>Hyfforddiant:<br>• **Y gweithlu camddefnyddio sylweddau wedi'i hyfforddi mewn ymarfer sy'n ystyriol o drawma.** | Argaeledd y gwasanaethau:<br>• <u>Cyfyngir ar wasanaethau triniaeth gan y canlynol: argaeledd, rhestrau aros hir, cost, cylch gwaith (e.e. y gallu i fynd i'r afael ag anhwylderau defnyddio sylweddau ac anghenion holistaidd), neu feini prawf mynediad (e.e argaeledd cyfyngedig y gwasanaethau triniaeth preswyl i ddynion; gwasanaethau iechyd meddwl sy'n caniatáu mynediad mewn argyfwng yn unig).</u><br><br>Ymrwymiad:<br>• <u>Anghynefindra â model yr FDAC a diffyg dealltwriaeth o'i ddiben.</u><br><br>Amserlenni:<br>• <u>Cyfnodau amser byr i sefydlu FDAC newydd.</u><br><br>Hyfforddiant:<br>• <u>Nid yw gweithwyr cymdeithasol Awdurdodau Lleol, ymarferwyr cyfreithiol, gwarcheidwaid, staff y llys nac asiantaethau/gwasanaethau partner yn cael yr un hyfforddiant, neu nid ydynt yn cael unrhyw hyfforddiant o gwbl.</u><br><br>Cyllid:<br>• **Diffyg adnoddau sydd ar gael i dîm yr FDAC weithredu'n effeithiol, e.e. gofod swyddfa.**<br>• **Diffyg cyllid cynaliadwy ar gyfer FDAC.** |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cynllun Strategol[15]:<br>• **Cyfathrebu a chynllunio gwael o ran canlyniadau a mesurau llwyddiant ar gyfer FDAC.**<br>• **Nodau, amcanion a chynllun strategol aneglur ar gyfer cynllun peilot.** |
| FDAC | Ymrwymiad:<br>• Barnwyr lleol sy'n hybu dull gweithredu yr FDAC.<br>• Pan fydd safle FDAC newydd yn credu y bydd yn bodoli y tu hwnt i gwmpas ei gynllun beilot.<br><br>Hyfforddiant:<br>• **Mae tîm yr FDAC wedi'i hyfforddi ar lefel trawma uwch.** | Hyfforddiant:<br>• Hyfforddiant yr FDAC yn cael ei gyflwyno'n rhy gynnar yn y broses o weithredu'r FDAC.<br>• Nid yw Awdurdodau Lleol, ymarferwyr cyfreithiol, gwarcheidwaid, staff y llys nac asiantaethau/gwasanaethau partner yn cael yr un hyfforddiant, neu nid ydynt yn cael unrhyw hyfforddiant o gwbl.<br><br>Capasiti'r tîm[16]<br>• **Y tîm yn rhy fach i gydbwyso capasiti â'r llwyth achosion disgwyliedig** |
| Unigol | - | - |

# 3. Profiadau o'r cynllun peilot

Mae'r adran hon yn archwilio profiadau a safbwyntiau rhai o'r rhieni a'r rhanddeiliaid proffesiynol a oedd yn ymwneud â chynllun peilot Caerdydd a'r Fro.

### Safbwyntiau'r rhieni

Roedd y rhieni'n hynod o gadarnhaol ynghylch eu profiad o fod yn rhan o achosion yr FDAC. Er y gallai'r rhieni a oedd yn llai cadarnhaol hefyd fod yn llai tebygol o gymryd rhan yn y gwerthusiad hwn, mae'n werth nodi bod y rhai a gymerodd ran wedi canmol yr ymyriad hyd yn oed os canlyniad eu hachosion oedd cymryd eu plentyn/plant o'u gofal. Thema fwyaf cyffredin eu canmoliaeth oedd tîm yr FDAC, ac roeddent yn defnyddio geiriau megis "gwych" ac "anhygoel" yn aml i'w ddisgrifio. Crynhoir isod themâu cryf eraill a ddeilliodd o'r cyfweliadau â'r rhieni.

#### Rôl FDAC o ran helpu rhieni i newid cyfeiriad

Mynegodd sawl rhiant y farn bod eu bywyd yn mynd i gyfeiriad gwael a'u bod yn teimlo bod yr FDAC wedi eu helpu i newid cyfeiriad eu bywyd. Roedd hyn yn wir hyd yn oed pan oedd y problemau'n bod ers tro, fel y disgrifiodd un rhiant:

> *"Popeth maen nhw wedi'i wneud ar fy nghyfer i, roedd arna i ei angen...roeddwn i mewn lle gwael. Roeddwn i mewn lle tywyl...ac yn fy nghanfod fy hun mewn twll tywyll, dwfn. Ac maen nhw wedi fy llusgo i allan o'r twll hwnnw. Roeddwn yn cymryd llawer o sylweddau ers bron 20 mlynedd...ac maen nhw wedi trawsnewid fy mywyd, ac ni allaf ddiolch digon iddyn nhw*

[15] Roedd y rhwystrau hyn yn berthnasol ar y lefel 'genedlaethol/bolisi' am fod Llywodraeth Cymru yn ymwneud ag ariannu cynllun peilot FDAC Caerdydd a'r Fro; fodd bynnag, yn achos y rhan fwyaf o FDACs, maent yn fwy tebygol o fod yn berthnasol ar lefel yr 'awdurdod lleol'.
[16] Mae'r rhwystr hwn hefyd yn berthnasol ar y lefel 'genedlaethol/bolisi' a lefel yr 'awdurdod lleol' gan ei fod yn gysylltiedig â'r cyllid sydd ar gael ar gyfer FDAC.

*am wneud hynny."* – Un o'r rhieni a oedd yn ymwneud â'r FDAC, nad yw wedi'i (h)aduno â'r plentyn/plant.

Yn yr un modd, disgrifiwyd y gwasanaeth gan riant arall, a gafodd ei (h)aduno â'i blentyn/phlentyn ar ddiwedd yr achos, yn "achubwr bywyd", a dywedodd, "*mae fy mywyd bellach ar y trywydd cywir o'u herwydd nhw* [sef tîm yr FDAC]. *Ni allaf eu hargymell ddigon*". Er bod y rhieni hyn yn canmol yr FDAC am wneud y gwaith o fynd i'r afael â'u camddefnydd sefydledig o sylweddau, ac am newid rhagolygon eu bywyd, nododd rhieni eraill fod yr FDAC wedi eu helpu i wneud newidiadau eu hunain. Mae hyn yn cael ei amlygu gan un rhiant sydd hefyd yn arddel y syniad o newid cyfeiriad, gan ddweud, *"Dw i'n teimlo eu bod wedi helpu cymaint, a dw i'n teimlo y gallaf drawsnewid fy mywyd a rhoi'r gorau i gymryd cyffuriau"*. Hefyd, crybwyllwyd y syniad mewn sawl un o'r cyfweliadau, fod y rhieni wedi gallu eu synnu eu hunain o ran yr hyn yr oeddent yn medru ei gyflawni gyda'r gefnogaeth gywir.

### Cydnabyddiaeth o'r gefnogaeth a ddarparwyd a'r ymdrech a wnaed gan dîm yr FDAC

Roedd rhai o'r rhieni nad oeddent wedi'u haduno â'u plentyn/plant yn dal i allu cydnabod maint yr ymdrech a wnaed gan dîm yr FDAC, gan fynegi eu bod o'r farn na ellid bod wedi gwneud dim mwy, ac roeddent yn gwerthfawrogi'r ymdeimlad bod y tîm ar eu hochr nhw yn yr ymdrech i wneud y newidiadau angenrheidiol:

> *"Maen nhw'n rhoi'r cyfle gorau i bawb. Ac maen nhw'n gweithio'n galed iawn*." – Un o'r rhieni a oedd yn ymwneud â'r FDAC, nad yw wedi'i (h)aduno â'r plentyn/plant.
>
> "*Maen nhw'n sefyll wrth eich ymyl ac yn ymladd ochr yn ochr â chi yr holl ffordd wrth i chi wneud yr un fath*. " – Un o'r rhieni a oedd yn ymwneud â'r FDAC, nad yw wedi'i (h)aduno â'r plentyn/plant.

Pwysleisiodd rhiant arall, na chafodd ei (h)aduno â'i phlentyn/blentyn ond a oedd yn teimlo bod cynnydd wedi'i wneud, ansawdd ysgogol yr FDAC, gan egluro "*Dydw i ddim yn credu y gallen ni fod wedi gwneud hyn hebddyn nhw. Dw i'n credu eu bod nhw'n eich cymell fwy ac yn gwneud hynny mewn cyfnod byr o amser."*

### Eirioli dros gymorth anfeirniadol sy'n datrys problemau

Gellir dadlau bod y rheswm dros lefel yr adborth cadarnhaol gan rieni, hyd yn oed ymhlith y rhai y cymerwyd plant o'u gofal, yn adlewyrchu'r modd y ceisiodd yr FDAC gefnogi rhieni a phlant fel ei gilydd. Cyfeiriodd un rhiant at hyn, rhiant a gafodd ei aduno yn y gwrandawiad terfynol, gan ddweud, *"Dw i'n eu hargymell i unrhyw un mewn gwirionedd. Roedd hyn o gymorth mawr i fi fel unigolyn, yn ogystal â sicrhau fy mod lle roeddwn i angen bod* [ar gyfer y plentyn]". Mewn modd tebyg, awgrymodd rhieni eraill y byddai tîm datrys problemau ar ffurf yr FDAC o fudd i leoliadau cyfreithiol eraill:

> "*Dw i'n teimlo y dylai pob llys, unrhyw fath o lysoedd, fod â thîm – efallai nad yr FDAC – sy'n ceisio gwneud yr un math o beth ar gyfer beth bynnag yw'r sefyllfa honno. Am fy mod i'n teimlo fel hyn, byddai'n gwneud i bobl ar begwn isaf bywyd, ac nid y system llysoedd yn unig, fod ychydig yn fwy agored wrth ymdrin ag awdurdod. A dw i'n meddwl wedyn y byddai'r wlad yn rhedeg ychydig yn fwy esmwyth o safbwynt hynny*." – Un o'r rhieni a oedd yn ymwneud â'r FDAC, sydd wedi'i (h)aduno â'r plentyn/plant.

> *“Nid y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn unig a ddylai gael tîm fel hyn. Dylai fod yna dîm ar gyfer pob math o lys. Oherwydd pe baent ym mhob math o lys, dw i'n teimlo y byddai'n adfer rhagor o ymddiriedaeth yn y llywodraeth ac mewn awdurdod ymhlith y bobl, a byddent yn gwybod bod yna bobl sy'n mynd i wrando a cheisio helpu yn hytrach na barnu ar unwaith, a ddim am wybod. Ac ydw, dw i’n teimlo bod hyn wedi bod yn achubwr bywyd, mewn gwirionedd."* – Un o’r rhieni a oedd yn ymwneud â’r FDAC, sydd wedi’i (h)aduno â’r plentyn/plant.

Mae'r ddau riant yn nodi bod gan yr FDAC y potensial i ail-lunio’r modd y mae pobl yn amgyffred awdurdod a grym. Ymddengys bod hyn yn gysylltiedig â'r syniad bod yr FDAC yn ymwneud yn bennaf â datrys problemau yn hytrach na barnu. Fel y disgrifiodd un rhiant nad oedd wedi’i (h)aduno, "*nid oedd unrhyw farnu yn rhan o’r broses...pe bai'n rhaid iddyn nhw eistedd yno a gwrando am awr neu ddwy, dyna'r cyfan y bydden nhw'n ei wneud."*

### Cymhariaeth ag achosion gofal safonol

Roedd rhieni a oedd wedi profi achosion gofal safonol yn flaenorol yn gallu cymharu a chyferbynnu'r cyfarfyddiadau hyn yn y gorffennol â’r FDAC. Amlygodd hyn wrthgyferbyniad llwyr. Dyma’r hyn a ddywedodd un rhiant, y cymerwyd plant o'i ofal yn flaenorol, am achosion safonol, *"Roeddem yn teimlo nad oedd gennym lais, a’n bod yn ddi-rym, ac roeddem yn cael ein cyhuddo o bethau ac nid oedd yna gyfle i’n hamddiffyn ein hunain hyd yn oed."* Aeth yn ei flaen i ddisgrifio’r FDAC mewn termau gwahanol iawn:

> "*Mae'n teimlo fel bod gennym y pŵer i ddweud ein dweud mewn gwirionedd, i gyflawni pethau a sicrhau bod ein safbwynt ni yn cael ei glywed, ac yna maen nhw'n rhoi cynnig ar weithio gyda ni i geisio gwella pethau a chyrraedd cyfaddawd."* – Un o’r rhieni a oedd yn ymwneud â’r FDAC, sydd wedi’i (h)aduno â’r plentyn/plant.

Cyfeiriwyd hefyd ar y ffaith bod lefel yr ymwneud â gweithwyr proffesiynol yn elfen bwysig o wahaniaeth rhwng yr FDAC ac achosion safonol, gyda’r rhieni’n cofio cael eu "*rhoi i eistedd yng nghefn yr ystafell...yn yr un modd â gwyliwr”* mewn achosion safonol, ond yn yr FDAC roedden nhw'n teimlo eu bod *"yn y rheng flaen y rhan fwyaf o'r amser*". Yn unol â'r syniad hwn, dywedwyd hefyd fod yna ymdeimlad o lefel llawer uwch o ymgysylltiad yn yr FDAC, yn enwedig rhwng gwrandawiadau:

> *“...i gael eich gadael ar eich pen eich hun yn ystod y cyfnod hwnnw, dw i'n credu y byddai hynny'n anodd iawn, iawn. Ond yn achos yr FDAC, dydych chi byth yn cael eich gadael ar eich pen eich hun fel y cyfryw. Mae yna negeseuon yn cael eu hanfon bob amser. Mae yna sgyrsiau’n digwydd ac apwyntiadau’n cael eu trefnu o hyd, a thrafodaeth ynghylch yr hyn a fydd yn digwydd nesaf. Felly, rydych chi mewn cysylltiad parhaus â nhw. Ac fel yr ydych yn ei ddweud, pan fydd rhywun mewn cysylltiad parhaus â chi, rydych chi’n gwybod i ba gyfeiriad mae popeth yn mynd a beth sy'n digwydd wedyn."* – Un o’r rhieni a oedd yn ymwneud â’r FDAC, nad yw wedi’i (h)aduno â’r plentyn/plant.

Dywedodd rhiant arall fod yr adegau hir o ddiffyg cyfathrebu a gwrandawiadau mewn achosion gofal safonol wedi achosi cymaint o straen nes iddo waethygu ei iechyd meddwl a'i gamddefnydd o sylweddau:

> "*Roedd* [achosion gofal safonol] *yn straen mawr ac yn cyrraedd y pwynt lle na fyddwn i'n rhoi'r gorau i ganabis. Byddwn i'n dal i'w smygu, ac roedd y sefyllfa yn achosi straen sylweddol. Byddech chi'n mynd i mewn [i'r llys] heb wybod beth oedd yn mynd i ddigwydd. Roeddech chi'n teimlo bod pawb yn eich erbyn chi. Nid oedd* [y gwrandawiadau] *yn cael eu cynnal bob pythefnos fel y maen nhw 'nawr. Roedd un yn digwydd bob chwe mis. Felly, roedd yr holl ddisgwyl a pharatoi yn achosi straen. Roedd lefel fy ngorbryder wedi cynyddu'n aruthrol. Mae hwn ar y llaw arall mor wahanol i'r achosion gofal arferol."* – Un o'r rhieni a oedd yn ymwneud â'r FDAC, sydd wedi'i (h)aduno â'r plentyn/plant.

#### Pethau y byddai'r rhieni'n eu newid

Pan ofynnwyd a oedd yna unrhyw beth ynghylch yr FDAC y gellid ei newid neu ei wella i wneud i'r FDAC yng Nghymru weithio'n well er budd teuluoedd, ymatebodd tri rhiant (pob un ohonynt heb gael eu haduno â'u plant), gan ddweud nad oedd yna unrhyw beth y byddent yn ei newid:

> "*I fod yn onest, nac oes. Fel y dywedais, mae wedi bod yn anhygoel, mae wir wedi bod o gymorth mawr i mi, ac yn fy marn i, bydd yn bendant yn helpu lot mwy o bobl."* – Un o'r rhieni a oedd yn ymwneud â'r FDAC, nad yw wedi'i (h)aduno â'r plentyn/plant.

Gwnaeth pedwar rhiant arall awgrymiadau a oedd i gyd, yn fras, yn dod o dan y thema Ehangu'r FDAC. Roedd hyn yn cynnwys sawl awgrym ar gyfer tîm mwy i alluogi aelodau'r tîm i weithio gyda rhagor o deuluoedd, darparu amserlenni hirach i'r tîm weithio gyda rhieni, a gwella gwelededd yr FDAC trwy ei hysbysebu i ragor o rieni. Er enghraifft, dywedodd un rhiant, *"Dw i'n gwybod fy mod i'n lwcus iawn i fod gyda'r FDAC am nad ydyn nhw'n derbyn llawer o deuluoedd...dylen nhw allu derbyn rhagor o deuluoedd yn ein sefyllfa ni"*, tra bod un arall yn awgrymu y dylid *"cyflwyno'r ymyriad yn ehangach a dylid rhedeg pob llys teulu yn yr un ffordd".*

### Safbwyntiau rhanddeiliaid proffesiynol

Er bod barn rhanddeiliaid proffesiynol am y cynllun peilot hefyd yn gadarnhaol ar y cyfan, roedd yna fwy o gymysgedd o safbwyntiau, a oedd yn cynnwys rhai beirniadaethau. Mae'r themâu a ddeilliodd o gyfweliadau â rhanddeiliaid proffesiynol a grwpiau ffocws wedi'u crynhoi isod.

#### Dull unedig

Ystyrid yn gyffredinol fod yr FDAC yn cynnig dull mwy cydweithredol, unedig rhwng rhieni a gweithwyr proffesiynol, a fyddai'n gweithio gyda'i gilydd i gyflawni nodau a rennir:

> "*Roedd yn agored iawn...nid oedd yn fater o 'ni a nhw'. Roedd yn teimlo i raddau helaeth ein bod ni yn y grŵp hwn gyda'n gilydd."* – Gwarcheidwad Plant

> "*Dw i'n credu bod y broses yn cymryd yr holl elfen wrthwynebol honno o'r achosion ac mae'n rhoi'r cyfle hwnnw i'r rhieni sylweddoli bod pawb sy'n gweithio gyda nhw yn gweithio gyda nhw. Ac nid oes angen iddyn nhw brofi rhywbeth. Rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd i wella'r sefyllfa."* – Un o farnwyr yr FDAC

Disgrifiodd un o'r gwarcheidwaid plant y canlyniadau llwyddiannus yr oedd wedi'u gweld a'u priodoli i rieni a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd mewn tîm:

"*Gwelais effaith bwerus y tîm o amgylch y teulu yn sgaffaldio'r newidiadau yr oedden nhw'n eu gwneud. Gwelais lwyddiannau'n cael eu dathlu ac roeddwn i'n rhan o hynny, ynghyd â phroses gyson o ailwerthuso'r rhwydwaith cymorth a oedd ar gael i'r teulu, a pha mor dda yr oedd yn gweithio. Gwelais y teulu'n dechrau gwneud newidiadau mewnol; y fam gyntaf ac yna'r tad yn ddiweddarach. Gwelais y modd y cafodd y gwahaniaeth ei drin gan y barnwr yn y cyfnod interim. Y prif ffocws i mi oedd gallu gweithwyr proffesiynol i 'beidio â chynhyrfu' yn ystod cyfnodau o lithro'n ôl neu droeon anffodus, ac i ddal ati gyda'r teulu trwy adegau poenus o newid*." Gwarcheidwad Plant

Priodolodd tîm yr FDAC y cydweithrediad cynyddol rhwng rhieni a gweithwyr proffesiynol yn rhannol i ddull sy'n ystyriol o drawma yr FDAC, a nododd aelod o'r tîm bod gweithio gyda'r tîm yn y ffordd honno yn meithrin "*hyder ac ymddiriedaeth y rhieni a gwneud iddynt deimlo'n ddiogel yng nghwmni gweithwyr proffesiynol*." Fodd bynnag, nid oeddent wedi egluro sut yr oedd y 'dull sy'n ystyriol o drawma' yn cael ei amlygu yn ymarferol.

### Cymhariaeth ag achosion gofal safonol

Yn yr un modd â'r rhieni, gwnaeth y rhanddeiliaid proffesiynol gymariaethau a oedd hefyd yn gwrthgyferbynnu'n llwyr ag achosion gofal safonol. Roedd gweithwyr proffesiynol yn aml yn siarad yn gadarnhaol am y modd y grymuswyd y rhieni gan yr FDAC ac y rhoddwyd rhagor o alluedd iddynt. Teimlai un aelod o dîm yr FDAC fod hyn wedi cychwyn ar ddechrau'r achosion, pan roddwyd "*ychydig o ddewis ac opsiwn/opsiynau i'r rhieni*" dim ond am fod yr FDAC yn bodoli fel dewis amgen i achosion gofal safonol. Priodolwyd y cynnydd mewn grymuso a galluedd i'r FDAC hefyd, elfennau a oedd yn rhoi mwy o gyfle i'r rieni sicrhau newid nag mewn achosion gofal safonol:

"[rhoddir i'r rhieni] *y cyfle i ddeall bod ganddyn nhw rywfaint o rym yn hyn oll mewn gwirionedd, ac i ddweud y gwir mae ganddyn nhw'r gallu i newid y canlyniad, er nad ydych chi'n cael y ffocws hwnnw* [mewn achosion gofal safonol]." – Gwarcheidwad Plant

Credid hefyd fod gan achosion yr FDAC awyrgylch gwahanol i achosion gofal safonol, yn enwedig mewn perthynas ag adolygiadau gan unigolyn nad yw'n gyfreithiwr. Dywedwyd bod hyn yn lleddfu tensiwn achosion gofal i rieni ac yn caniatáu i weithwyr proffesiynol gael gwell ymdeimlad o'r rhieni yr oeddent yn gweithio gyda nhw.

"*Bydden nhw'n cael hwyl...a meddyliais na fyddai hynny wedi digwydd yn yr achosion eraill...Dw i'n credu ei fod yn caniatáu i rywfaint o'u personoliaeth ddod i'r wyneb hefyd, felly byddech chi'n cael gwell ymdeimlad o'r unigolyn*" – Gwarcheidwad Plant

Nid mewn perthynas â phrofiadau'r rhieni yn unig yr oedd y gwahaniaethau rhwng achosion yr FDAC ac achosion gofal safonol yn cael eu teimlo. Mynegodd rhai o'r gweithwyr proffesiynol pa mor wahanol yr oedd y profiad yn teimlo iddynt yn eu rôl o fod yn ymarferwyr, fel y disgrifir gan y gweithiwr cymdeithasol hwn:

"*Mae llysoedd yn gyffredinol yn arswydus. Mae gweithwyr cymdeithasol ar bigau drain, a phe byddech yn rhiant dw i'n meddwl y byddai'n brofiad gwirioneddol erchyll...a dw i'n credu bod y ffordd honno o weithio* [yn yr FDAC]...*yn llawer mwy caredig, yn llawer tecach yn fy marn i. Rydych chi i gyd yn gweithio i gyflawni nod cyffredin o geisio cefnogi'r rhieni hynny i wneud y newidiadau angenrheidiol i fagu'r baban hwnnw yn ddiogel. Ac er mai dyna a ddylai'r trywydd fod bob amser, weithiau gall deimlo yn dra gwahanol mewn*

*gwirionedd mewn llysoedd mwy traddodiadol. Ac wrth gwrs, mae yna lawer o ofn. Ond dw i'n credu bod y gefnogaeth sydd ar gael trwy'r FDAC yn ddefnyddiol iawn, iawn. Ac mae'n gyfle euraidd*" – Gweithiwr cymdeithasol

Mynegodd cynrychiolwyr cyfreithiol hefyd sut yr oedd yr FDAC yn teimlo'n wahanol yn eu profiad nhw. Eglurasant eu bod yn aml, mewn achosion gofal safonol, yn "*cythru i gael hyd i adnoddau o fewn y teulu*". Mewn rhai achosion, gallai hyn gynnwys:

> "...*cysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill i geisio cael trefn ar bethau megis cyswllt ac atgyfeiriadau at wasanaethau cymorth, wyddoch chi, gan wneud gwaith dilynol i sicrhau bod gan fy nghleient rwydwaith cymorth rhesymol ar waith*" – Cynrychiolydd cyfreithiol

Yn yr FDAC ar y llaw arall, dywedir bod gan y tîm fwy o reolaeth dros adnoddau a'r modd y cânt eu defnyddio:

> "...*maen nhw'n arwain y gwaith hwnnw o drefnu'r holl bethau hyn. Ac os oes yna broblemau, am fod y tîm yn gymaint rhan o bethau, ymdrinnir â nhw yn eithaf cyflym fel arfer, i'r graddau lle na fydd cleient hyd yn oed yn fy ffonio i ddweud wrthyf fod problem wedi dod i'r amlwg, am ei bod wedi'i datrys mor fuan*." – Cynrychiolydd cyfreithiol

Roedd yr FDAC yn ymdrin a phopeth ac yn datrys popeth yn eu barn nhw, ond roeddent yn meddwl tybed *"a fyddai'r lefel honno'n gynaliadwy*" pe bai'r FDAC yn cael ei ehangu.

### Pethau y byddai gweithwyr proffesiynol yn eu newid

Tynnodd sawl gweithiwr proffesiynol sylw at bethau y byddent yn eu newid i wella'r FDAC. Yn yr un modd â'r rhieni, barn gyffredin ymhlith gweithwyr proffesiynol, pan ofynnwyd iddynt beth y byddent yn ei newid, oedd y dylid ehangu'r tîm a'r gwasanaeth i roi mwy o gapasiti iddo weithio gyda rhagor o deuluoedd. Nodwyd y byddai cynyddu'r capasiti yn gyffredinol, gan gynnwys sicrhau bod rhagor o farnwyr ar gael ac wedi'u hyfforddi yn yr FDAC, yn newid cadarnhaol y gellid ei wneud. Roedd un aelod o staff y llys o'r farn mai'r newid pwysicaf fyddai un a fyddai'n ehangu'r cyfle i gymryd rhan yn yr FDAC i ragor o deuluoedd:

> *"Ar ôl bod yn bresennol yn y rhan fwyaf o'r gwrandawiadau rheoli achosion, a gweld yr optimistiaeth a'r gobaith yn ystod y gwrandawiadau cofrestru, gweld y newid er gwell bob pythefnos, a'r penderfyniad yn y gwrandawiadau datrys problemau, yr unig newid y byddwn yn ei wneud yw sicrhau bod yr FDAC ar gael i ragor o deuluoedd yng Nghymru. Mae'r syniad bod y cynllun peilot wedi dod i ben, ac nad yw rhagor o deuluoedd yn mynd i gael y cyfle, yn dorcalonnus. Byddwn wrth fy modd pe gallai'r bobl sy'n gwneud y penderfyniad ynghylch cyllid fod wedi bod yn y seremonïau graddio a gweld y plant sydd wedi cael eu haduno â rhiant sydd wedi rhoi'r gorau i gymryd sylweddau, sydd wedi ymladd i'r eithaf gyda chymorth yr FDAC i fod y rhiant y maent yn ei haeddu. "* – aelod o staff llys yr FDAC

Yn ogystal â'r mater sylfaenol o allu gwasanaethu rhagor o deuluoedd, roedd gweithwyr proffesiynol yn tynnu sylw at fanteision eraill, mwy swyddogaethol, o ran cynyddu'r capasiti. Credai un o'r barnwyr fod *"cael rhagor o bobl ar ddwy ochr y ffens, yn farnwyr ac yn weithwyr proffesiynol yr FDAC"* yn ateb posibl i broblemau a oedd wedi dod i'r amlwg ynghylch rhestru gwrandawiadau. Roedd hyn wedi tarfu tipyn ar bethau ac wedi ychwanegu at y baich gweinyddol o ganlyniad i orfod symud gwrandawiadau ar fyr rybudd.

Soniwyd hefyd fod hyfforddiant FDAC manylach yn elfen weithredu bwysig a ddylai fod yn ofynnol i ryw raddau ar gyfer y grŵp ehangach o randdeiliaid proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd, a hynny er mwyn galluogi gwell dealltwriaeth o'r FDAC.

**Anghysonderau rhwng cynrychiolwyr cyfreithiol a'r FDAC**

Er bod rhai cynrychiolwyr cyfreithiol wedi canmol yr FDAC am y modd y mae'n gallu helpu teuluoedd, a bod aelodau o dîm yr FDAC wedi canmol y ffordd yr oedd rhai cynrychiolwyr cyfreithiol wedi cefnogi cleientiaid trwy'r broses, roedd cynrychiolwyr cyfreithiol hefyd wedi beirniadu agweddau ar yr FDAC, ac roedd yna rwystredigaeth o fewn yr FDAC ynghylch y modd yr oedd rhai cynrychiolwyr cyfreithiol yn gweithredu.

Roedd yna ganfyddiad bod y plant yn cael eu darostwng a bod yn broses yn canolbwyntio ar eu rhiant/rhieni, fel y dangoswyd gan un cynrychiolydd cyfreithiol a ddywedodd, "*weithiau mae'r plentyn yn mynd ar goll ym mhroses yr FDAC; mae'r pwyslais ar y rhieni i raddau helaeth*". Roedd cynrychiolwyr cyfreithiol eraill yn anghytuno â'r hyn yr oedden nhw'n ei ystyried yn ogwydd cadarnhaol yn y llys:

> *"Bron na allwch chi siarad am hynny* [problemau] *yn llysoedd yr FDAC mewn gwirionedd. Mae'n rhaid i chi roi gwedd bositif ar bopeth. Wel, y gwir amdani yw eu bod yno am fod ganddyn nhw anawsterau, ac weithiau mae'n anodd iawn cynnal gwrandawiad a bod yn eiriolwr os nad ydych chi'n cael siarad yn rhydd am, o bosibl, yr elfennau negyddol."* – Cynrychiolydd cyfreithiol un o'r plant

Pan ofynnwyd iddynt beth a greodd y canfyddiad hwn, roeddent o'r farn ei fod yn amlwg yn hyfforddiant yr FDAC, ac yn y modd y mae tîm yr FDAC yn codi llais ar ran y rhieni.

Safbwynt beirniadol arall ymhlith cynrychiolwyr cyfreithiol oedd y teimlent eu bod yn cael eu dieithrio gan broses yr FDAC, a oedd yn gwrthgyferbynnu'n sylweddol ag achosion traddodiadol. Soniodd un o'r cynrychiolwyr cyfreithiol am yr hyn yr oedd yn ei ystyried yn ddiffyg tryloywder yn y llys, lle roedd amlygrwydd tîm yr FDAC a'u perthynas â'r barnwyr wedi creu "*cydbwysedd grym gwahanol iawn"* a lle na chafodd gwybodaeth ei rhannu mor rhwydd:

> "[Mae'r FDAC yn] *dda iawn o ran cefnogi rhieni a chynnig ei wasanaethau, gwasanaethau na fydden nhw'n eu cael fel arall, ac mae'r rhan yna ohono yn hollol wych iddyn nhw. Ond o'n rhan ni y cyfreithwyr, mae'n broses gyfan sy'n mynd rhagddi hebddon ni".* – Cynrychiolydd cyfreithiol

Ar y llaw arall, roedd y barnwyr yn gytûn bod rhai o'r cynrychiolwyr cyfreithiol "*i bob pwrpas…yn tanseilio proses*" yr FDAC trwy ganolbwyntio ar elfennau negyddol a pheidio â chydnabod y cynnydd sy'n cael ei wneud gan rieni. Roeddent o'r farn y dylai cynrychiolwyr cyfreithiol gael rhagor o hyfforddiant a "*ffrwyno eu hiaith*" yn ystod adolygiadau gan gyfreithwyr lle'r oedd y rhieni'n bresennol. Dangosodd un barnwr enghraifft o hyn trwy sôn am gynrychiolydd cyfreithiol a oedd yn gweithredu ar ran Gwarcheidwad Plant:

> *"Pan fydd yn gwneud cyflwyniadau yn un o achosion yr FDAC, weithiau bydda i'n edrych arno ac yn meddwl 'efallai mai eich cleient yw'r gweithiwr proffesiynol a gallai hi fod yn codi pryderon am y rhieni mewn modd addas. Ond bydd yn rhaid iddyn nhw fynd oddi yno a gweithio gyda'i gilydd'. Ac mae hynny'n syfrdanol weithiau. Yr wythnos ddiwethaf roeddwn yn ymdrin ag achos, a hanner ffordd drwodd, ar ôl i ni orfod cymryd y plentyn oddi ar y fam,*

*ac yn ystod y cyflwyniadau gan y Gwarcheidwad, roedd yn rhaid i mi ei hatal…Roedd yn rhaid i mi ei hatal a gohirio'r cyflwyniadau, ac roedd yn rhaid i mi ddweud wrthi fy mod am iddi gymryd cyfarwyddiadau ffurfiol ar y cyflwyniadau hynny am fod gan y fam hawl i wybod ai dyna farn y Gwarcheidwad mewn gwirionedd, o'i gyferbynnu ag ai eiriolwr sydd yma, yn dewis ei geiriau'n annoeth am ei bod yn dweud nad oes yna unrhyw elfennau cadarnhaol yn y ffordd y mae'r fam yn magu'r plentyn, a hynny mewn achos lle roedd hynny'n anghywir. Ac yn ail, mewn achos lle'r oeddem yn cymryd y plentyn oddi ar y rhiant hanner ffordd trwy'r FDAC, a lle roedd y fam yn parhau i fod yn yr FDAC, pam y mae angen y math hwn o iaith, iaith sy'n eithaf ymfflamychol mewn gwirionedd? Ond yn fy marn i, gellid dadlau ei bod yn wers y dylai pob eiriolwr ei dysgu ym mhob achos gofal a theulu. Ond yn yr FDAC yn benodol, mae yna gamddealltwriaeth gwirioneddol ymhlith yr eiriolwyr fod hon yn fath gwahanol o broses. "* – Un o farnwyr yr FDAC

Deilliodd awgrym pendant o drafodaeth â'r barnwyr ynghylch y modd y gellid sicrhau dull gweithredu mwy cyson rhwng cynrychiolwyr cyfreithiol a'r FDAC. Argymhellwyd ganddynt fod cynrychiolwyr cyfreithiol yn cael eu dewis o blith *"panel o fath, o bobl sy'n…deall* [yr FDAC] *yn iawn*".

### Newidiadau i rolau proffesiynol

Awgrymodd rhanddeiliaid proffesiynol a oedd yn ymwneud â'r FDAC, ond a oedd y tu allan i dîm craidd yr FDAC, fod rhai agweddau ar eu rôl neu eu llwyth gwaith wedi newid wrth iddynt weithio yn y model.

Roedd sawl Gwarcheidwad Plant yn teimlo, oherwydd dwyster yr FDAC, fod yna alw cynyddol ar eu hamser, yn enwedig gan fod yna "*ddisgwyliad y byddwch yn mynychu'r gwrandawiadau a'r gwrandawiadau gan unigolion nad ydynt yn gyfreithwyr yn benodol*". Fodd bynnag, nodwyd elfennau cadarnhaol o fod yn fwy o ran o broses yr FDAC nag y byddent mewn achosion gofal safonol. Er enghraifft, awgrymodd un o'r Gwarcheidwaid Plant:

> *"I ni, mae'n ymwneud â sicrhau bod barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn, ynghyd â'r hyn sydd orau iddo, yn cael lle blaenllaw. Ac mae* [yr FDAC] *wir yn caniatáu i ni fod yn rhan o…bopeth a wneir. Ac os oes yna fân addasiadau i wasanaethau neu wasanaethau ychwanegol, dw i'n credu bod gennym fewnbwn da iawn i hynny…rhywbeth na fyddem fel arfer yn cael ymwneud ag ef i'r fath raddau."* – Gwarcheidwad Plant

Wrth fyfyrio ar y broses yn ei chyfanrwydd, dywedodd Gwarcheidwad arall "*ar y llaw arall, mae'n llawer haws mewn gwirionedd am ei bod yn cwtogi ar bethau megis amser darllen ac amser meddwl".* Yn yr un modd, credid bod cwrdd â rhieni'n fwy rheolaidd yn rhoi gwell dirnadaeth i Warcheidwaid o'r y materion yr oeddent yn eu hwynebu a sut yr oeddent yn datblygu, ac yn meithrin dealltwriaeth ddyfnach o achosion trwy gydol y broses. Ymddengys bod buddsoddi amser yn ymgysylltu â rhieni ac yn mynd i adolygiadau gan unigolyn nad yw'n gyfreithiwr yn talu ar ei ganfed yn nes ymlaen, oherwydd "*rydych chi'n cyrraedd eich adroddiad terfynol ac mae gennych bopeth y mae arnoch ei angen*".

Ar y llaw arall, er bod cynrychiolwyr cyfreithiol yn cael adroddiadau'n rheolaidd, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am achosion, ar y cyfan roeddent yn teimlo'n llai o ran o'r achosion nag y byddent mewn achosion gofal safonol, ac roedd eu llwyth gwaith wedi gostwng am eu bod yn cael llai o gyswllt uniongyrchol â'r rhieni. I ategu pwynt a wnaed yn gynharach am deimlo wedi'u hymyleiddio, nododd un o'r cynrychiolwyr cyfreithiol:

*"Dw i'n teimlo fy mod wedi fy nadrymuso'n llwyr yn fy rôl o fod yn gyfreithiwr, a'm bod yn gyfan gwbl y tu allan i'r broses…Mewn achosion gofal* [traddodiadol] *rydych chi'n rhan fawr o'r broses o'r dechrau i'r diwedd, ond mae hyn* ar y llaw arall [rhannau eraill o'r FDAC] *yn mynd rhagddo a dim ond yr adolygiadau gan gyfreithwyr yr ydych chi'n eu gwneud. A dw i'n teimlo ei fod y tu allan i'r hyn y byddem yn ei wneud fel arfer. Mae'n ffordd wahanol iawn, iawn o weithio."* – Cynrychiolydd cyfreithiol

Ategodd un arall ei fod yn teimlo *"wedi ei ynysu oddi wrth y broses gryn dipyn o'r amser"*, er ei fod yn cydnabod bod yr FDAC yn cynnig *"cyfle llawer gwell i'w gleientiaid fynd i'r afael â phryderon hirsefydlog*" nag achosion traddodiadol. Cytunodd tri chynrychiolydd cyfreithiol, a oedd yn cynrychioli plentyn, rhiant, ac Awdurdod Lleol, fod yr FDAC wedi lleihau eu llwyth gwaith yn gyffredinol, ac – fel yr eglurodd un ohonynt – wedi gwneud iddynt deimlo "*nad oedd eu hangen mwyach",* hyd yn oed pan oeddent yn bresennol yn y llys.

Roedd i hyn oblygiadau o ran y math o waith y byddai cynrychiolwyr cyfreithiol yn ei wneud, â'r amser y byddent yn ei dreulio yn cyflawni'r gwaith hwnnw, ac i ba raddau yr oeddent yn teimlo'n rhan ohono. Nododd rhai nad oeddent yn cael eu galw cymaint ag arfer am fod tîm yr FDAC yn cyflawni'r rôl honno neu am fod pethau'n mynd yn dda i'r rhiant:

*"Mewn achosion traddodiadol, mae'r holl faterion hyn yn codi ac yna dydyn nhw byth yn cael eu datrys mewn gwirionedd. Felly, bydda i'n cysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill i geisio cael trefn ar bethau megis cyswllt ac atgyfeiriadau at wasanaethau cymorth, wyddoch chi, gan wneud gwaith dilynol i sicrhau bod gan fy nghleient rwydwaith cymorth rhesymol ar waith gan weithwyr proffesiynol. Yn yr FDAC ar y llaw arall, mae'r FDAC yn cymryd yr awenau i bob pwrpas ac yn trefnu'r holl bethau hynny. Ac os oes yna broblemau, am fod y tîm yn gymaint rhan o bethau, ymdrinnir â nhw yn eithaf cyflym fel arfer, i'r graddau lle na fydd cleient hyd yn oed yn fy ffonio i ddweud wrthyf fod problem wedi dod i'r amlwg, am ei bod wedi'i datrys mor fuan*. " – Cynrychiolydd cyfreithiol

Soniodd aelod o staff llys yr FDAC hefyd am y gwahaniaethau yn ei waith – yn enwedig o ran yr amlder y mae'n gweld teuluoedd yn cael yr adolygiadau bob pythefnos gan unigolyn nad yw'n gyfreithiwr, a gofynion gweinyddol cynyddol rhestru gwrandawiadau ac adolygiadau. Roedd hyn yn rhoi mwy o bwyslais ar drefnu a chadw cofnodion ond roedd i'w weld yn gweithio'n dda.

Nododd y barnwyr fod arnynt angen sgiliau gwahanol yn achosion yr FDAC. Yn rhagweladwy, efallai, roedd siarad yn uniongyrchol â rhieni a threfnu elfennau datrys problemau'r broses yn golygu eu bod yn gwneud mwy o ddefnydd o sgiliau cyfathrebu ac empathi:

*"Os ydych chi'n cynnal achos – dydw i ddim wedi cael y profiad hwnnw* [o'r blaen]*, mae'n debyg mai dyma'r peth mwyaf heriol dw i wedi'i wneud, heb os, yn fy rôl o fod yn farnwr – eistedd hyd braich oddi wrth rywun, a cheisio ei hannog, i bob pwrpas, i ganolbwyntio ar y mater o gyswllt…a'r ffaith y bydd y plant hyn yn dal i fod ei hangen yn ei bywyd hi, yn eu bywydau nhw, ac felly, wyddoch chi, dydyn nhw ddim yn addysgu hynny i chi yn ysgol y barnwyr, ac efallai fod hynny'n rhywbeth y byddwch yn ei feithrin yn ystod blynyddoedd o ymarfer. Ond os nad oeddech chi, fel fi, yn meddu ar hynny mewn gwirionedd, mae'n rhaid i chi ddibynnu ar eich synnwyr empathi cynhenid eich hun i geisio dod drwyddi."* – Un o farnwyr yr FDAC

Fel y mae hyn yn ei awgrymu, a chan adleisio sylwadau tebyg gan y rhieni a drafodwyd uchod, roedd agosrwydd corfforol y barnwr, a oedd yn eistedd yn ymyl y rhieni yn ystafell y llys yn hytrach na thu ôl i'w ddesg, wedi newid y ddynameg a galluogi'r sgyrsiau uniongyrchol hyn i ddigwydd.

Yn olaf, roedd yna rywfaint o dystiolaeth fod y newidiadau hyn yn rolau'r barnwyr yn treiddio i waith arall nad oedd yn rhan o gwmpas yr FDAC. Disgrifiodd un o'r barnwyr y modd y mae'n defnyddio ei brofiad o weithio gyda'r FDAC yn y gwaith ehangach o fod yn farnwr llys teulu:

> *"Dw i'n credu mai'r hyn dw i wedi sylwi arno mewn gwirionedd yw fod fy null o farnu mewn achosion gofal cyffredin wedi newid...Mae'n dibynnu ar y math o achos, ond bellach, mewn achos gofal, ac yn sicr ar ôl y gwrandawiad cyntaf, bydda i bob amser yn siarad yn uniongyrchol â'r rhieni am yr hyn a ddisgwylir ganddynt...Mae gennych chi well ymwybyddiaeth, o bosibl, mewn achosion gofal arferol, o'r mathau o bethau y mae rhieni yn eu hwynebu, a'r ffordd orau i'w galluogi i ymgysylltu a chymryd rhan yn yr achos. "* – Un o farnwyr yr FDAC

# 4. Arwyddion o botensial

I archwilio a amlygodd yr FDAC yng Nghymru arwyddion o botensial, mae'r adran hon yn dadansoddi'r canlyniadau i deuluoedd a oedd yn ymwneud â chynllun peilot Caerdydd a'r Fro.[17]

### Camddefnyddio sylweddau ymhlith rhieni


Roedd data am gamddefnyddio sylweddau ymhlith rhieni ar gael o safbwynt a oedd yn cael ei farnu'n glinigol ac o safbwynt hunangofnodedig. Fodd bynnag, roedd ansawdd a chywirdeb y data yn peri pryder eto. Yn achos saith rhiant a oedd yn ymwneud â chynllun peilot FDAC Caerdydd a'r Fro, roedd yna anghysonderau rhwng y data yr adroddwyd arnynt ynghylch a oedd y rhiant yn camddefnyddio sylweddau, a difrifoldeb ei gamddefnydd (e.e. dywedwyd nad oedd rhai o'r rhieni yn defnyddio, ac eto roedd y newidyn a oedd yn dynodi lefel y difrifoldeb yn gwrth-ddweud hyn). Am fod camddefnyddio sylweddau ymhlith rhieni yn ganlyniad pwysig wrth benderfynu ar arwyddion o botensial ar gyfer FDAC Caerdydd a'r Fro, mae'r data hyn wedi'u trin yn ofalus. Lle roedd anghysonderau'n bodoli, mae'r newidynnau wedi'u hailgodio yn rhai 'aneglur'.

Dangosodd y data fod yna ostyngiad yn nifer cyffredinol y rhieni a oedd yn camddefnyddio sylweddau ar ddiwedd achosion yr FDAC. Ar ddechrau achosion yr FDAC, roedd 83% o'r rhieni (n=29) yn camddefnyddio sylweddau, ac erbyn diwedd yr achosion roedd hyn wedi gostwng i 54% (n=19). Cynyddodd nifer y rhieni nad oeddent yn camddefnyddio sylweddau o 3% (n=1) ar ddechrau achosion yr FDAC, i 37% (n=13) ar ddiwedd yr achosion (gweler Ffigur 2).[18]

[17] Oherwydd talgrynnu, efallai y bydd y canrannau a nodir yn yr adran 'arwyddion o botensial' ychydig yn is na neu ychydig yn uwch na 100%.


[18] Nid oedd yn eglur a oedd 14% (n=5) o'r rhieni yn camddefnyddio sylweddau ar ddechrau'r achosion nac a oedd 6% (n=2) yn camddefnyddio sylweddau ar ddiwedd yr achosion. At hynny, nid oedd yn hysbys p'un a oedd un rhiant yn parhau i gamddefnyddio sylweddau ar ddiwedd yr achosion ai peidio.

### Ffigur 2: Nifer cyffredinol y rhieni a oedd yn camddefnyddio sylweddau




Pennwyd difrifoldeb cyffredinol y camddefnydd o sylweddau ymhlith rhieni gan ddifrifoldeb eu camddefnydd o alcohol ynghyd â difrifoldeb eu camddefnydd o gyffuriau, a dangoswyd bod hyn hefyd yn lleihau yn gyffredinol ar ddiwedd achosion yr FDAC. Rhwng dechrau a diwedd achosion yr FDAC, llwyddodd tua 29% (n=10) o'r rhieni i roi'r gorau'n llwyr i gamddefnyddio sylweddau. Gostyngodd difrifoldeb cyffredinol y camddefnydd o sylweddau yn achos 14% o'r rhieni (n=5), cynyddodd difrifoldeb y camddefnydd o sylweddau yn achos 17% o'r rhieni (n=6), ac ni welwyd unrhyw newid o ran difrifoldeb y camddefnydd o sylweddau yn achos 11% o'r rhieni (n=4). Nid oedd yn eglur a oedd yna newid o ran difrifoldeb y camddefnydd o sylweddau yn achos 20% o'r rhieni (n=7), ac nid oedd yn hysbys a oedd yna newid o ran difrifoldeb y camddefnydd o sylweddau yn achos oddeutu 9% o'r rhieni (n=3) (gweler Ffigur 3).

### Ffigur 3: Y newid o ran difrifoldeb y camddefnydd o sylweddau ymhlith rhieni



Ar ddechrau'r achosion, nid oedd 9% o'r rhieni'n camddefnyddio alcohol; ystyrid bod y camddefnydd o alcohol yn achos 23% o'r rhieni yn isel; ystyrid bod y camddefnydd yn achos 23% o'r rhieni yn ganolig; ystyrid bod y camddefnydd yn achos 31% o'r rhieni yn uchel; ac roedd yn aneglur yn achos 14% o'r rhieni. Mewn cymhariaeth, ar ddiwedd yr achosion, nid oedd 40% o'r rhieni'n camddefnyddio alcohol, ystyrid bod y camddefnydd o alcohol yn achos 3% o'r rhieni yn isel; ystyrid bod y camddefnydd yn achos 17% o'r rhieni yn ganolig; ystyrid bod y camddefnydd yn achos 26% o'r rhieni yn uchel; ac roedd yn aneglur yn achos 6% o'r rhieni. Nid oedd yn hysbys yn achos 9% o'r rhieni (gweler Tabl 10, ac Atodiad 2 i gael diffiniad o'r graddfeydd camddefnydd).

### Tabl 10: Y camddefnydd o alcohol ymhlith rhieni ar ddechrau a diwedd achosion yr FDAC

| Cyfnod | Difrifoldeb y camddefnydd o alcohol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dim | Isel | Canolig | Uchel | Aneglur | Anhysbys |
| **Dechrau** | 3 | 8 | 8 | 11 | 5 | 0 |
| **Diwedd** | 14 | 1 | 6 | 9 | 2 | 3 |

Rhwng dechrau a diwedd achosion yr FDAC, llwyddodd 26% o'r rhieni i roi'r gorau'n llwyr i gamddefnyddio alcohol. Gostyngodd difrifoldeb cyffredinol y camddefnydd o alcohol yn achos 6% o'r rhieni, a pharhaodd 6% o'r rhieni i beidio â chamddefnyddio alcohol. Ar y llaw arall, yn ystod achosion cynyddodd difrifoldeb y camddefnydd o alcohol yn achos 17% o'r rhieni, ac ni newidiodd difrifoldeb y camddefnydd o alcohol yn achos 17% arall o'r rhieni. Yn achos rhai o'r rhieni, nid oedd newidiadau o ran difrifoldeb eu camddefnydd o alcohol yn eglur (20%), neu nid oedd yn hysbys (9%) (gweler Tabl 11).

### Tabl 11: Y newid cyffredinol o ran y camddefnydd o alcohol ymhlith rhieni

| Y newid o ran y camddefnydd o alcohol | Nifer y rhieni |
|---|---|
| **Wedi rhoi'r gorau i gamddefnyddio** | 9 |
| **Llai o gamddefnyddio** | 2 |
| **Mwy o gamddefnyddio** | 6 |
| **Dim newid o ran y camddefnydd** | 6 |
| **Yn parhau i beidio â chamddefnyddio alcohol** | 2 |
| **Y newid o ran y camddefnydd o alcohol yn aneglur** | 7 |
| **Y newid o ran y camddefnydd o alcohol yn anhysbys** | 3 |

Ar ddechrau'r achosion, cofnodwyd nad oedd 6% o'r rhieni'n camddefnyddio cyffuriau; ystyrid bod y camddefnydd o gyffuriau yn achos 6% o'r rhieni yn isel; ystyrid bod y camddefnydd yn achos 23% o'r rhieni yn ganolig; ystyrid bod y camddefnydd yn achos 51% o'r rhieni yn uchel; ac roedd yn aneglur yn achos 14% o'r rhieni. Mewn cymhariaeth, ar ddiwedd yr achosion, nid oedd 49% o'r rhieni'n camddefnyddio cyffuriau; ystyrid bod y camddefnydd o gyffuriau yn achos 3% o'r rhieni yn isel; ystyrid bod y camddefnydd yn achos 34% o'r rhieni yn uchel ac roedd yn aneglur yn achos 6% o'r rhieni. Nid oedd yn hysbys yn achos 9% o'r rhieni (gweler Tabl 12, ac Atodiad 2 i gael diffiniad o raddfeydd y camddefnydd).

### Tabl 12: Y camddefnydd o gyffuriau ymhlith rhieni ar ddechrau a diwedd achosion yr FDAC

| Cyfnod | Difrifoldeb y camddefnydd o gyffuriau | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dim | Isel | Canolig | Uchel | Aneglur | Anhysbys |
| Dechrau | 2 | 2 | 8 | 18 | 5 | 0 |
| Diwedd | 17 | 1 | 0 | 12 | 2 | 3 |

Yn ôl Tabl 13 ymddengys bod y rhieni hyd yn oed yn fwy llwyddiannus o ran lleihau eu camddefnydd o gyffuriau. Rhwng dechrau a diwedd achosion yr FDAC, llwyddodd 34% o'r rhieni i roi'r gorau'n llwyr i gamddefnyddio cyffuriau. Gostyngodd difrifoldeb cyffredinol y camddefnydd o gyffuriau yn achos 3% o'r rhieni; cynyddodd difrifoldeb y camddefnydd o gyffuriau yn achos 9% o'r rhieni; ni welwyd unrhyw newid o ran difrifoldeb y camddefnydd o gyffuriau yn achos 23% o'r rhieni; a pharhaodd 3% o'r rhieni i beidio â chamddefnyddio cyffuriau. Nid oedd yn eglur a oedd yna newid o ran difrifoldeb y camddefnydd o gyffuriau yn achos 20% o'r rhieni, ac nid oedd yn hysbys a oedd yna newid o ran difrifoldeb y camddefnydd o gyffuriau yn achos 9% o'r rhieni.


### Tabl 13: Y newid cyffredinol o ran y camddefnydd o gyffuriau ymhlith rhieni

| Y newid o ran y camddefnydd o gyffuriau | Nifer y rhieni |
|---|---|
| Wedi rhoi'r gorau i gamddefnyddio | 12 |
| Llai o gamddefnyddio | 1 |
| Mwy o gamddefnyddio | 3 |
| Dim newid o ran y camddefnydd | 8 |
| Yn parhau i beidio â chamddefnyddio cyffuriau | 1 |
| Y newid o ran y camddefnydd o gyffuriau yn aneglur | 7 |
| Y newid o ran y camddefnydd o gyffuriau yn anhysbys | 3 |

Hunangofnodwyd gan rieni eu bod wedi camddefnyddio 19 o sylweddau a gamddefnyddir yn aml, ac adroddwyd mewn modd penagored am sylweddau eraill a gamddefnyddiwyd yn ystod y 90 diwrnod diwethaf. Mae Ffigur 4 yn dangos mai alcohol, canabis a chocên oedd y sylweddau mwyaf cyffredin a gamddefnyddiwyd gan rieni ar ddechrau a diwedd achosion yr FDAC yn ystod y cynllun peilot[19]. Gostyngodd nifer y rhieni a oedd yn camddefnyddio'r sylweddau hyn ar ddiwedd achosion yr FDAC; roedd 71% o'r rhieni (n=25) yn camddefnyddio alcohol ar ddechrau achosion yr FDAC o gymharu â 49% (n=17) ar ddiwedd achosion yr FDAC; roedd 54% (n=19) yn camddefnyddio canabis ar y dechrau o gymharu ag 20% (n=7) ar y diwedd; ac roedd 46% (n=16) yn camddefnyddio cocên ar y dechrau o gymharu â 34% (n=12) ar y diwedd.

[19] Dim ond y sylweddau y nododd y rhieni eu bod wedi'u defnyddio yn ystod y 90 diwrnod blaenorol y mae'r graff yn ei gynnwys.

Ffigur 4: Y sylweddau yn ôl hunangofnod y rhieni yr oeddent wedi'u camddefnyddio yn ystod y 90 diwrnod blaenorol




Defnyddiodd y rhieni rhwng un a chwe sylwedd yn ystod y 90 diwrnod cyn dechrau achosion yr FDAC ac yn ystod y 90 diwrnod cyn diwedd achosion yr FDAC. Fodd bynnag, gostyngodd nifer cyfartalog y sylweddau a gamddefnyddiwyd gan rieni i rhwng un a dau, lle roedd rhwng dau a thri cyn hynny.


## Canlyniadau achosion

Roedd data canlyniadau am drefniadau byw plant ar ddiwedd achosion yr FDAC yn hysbys yn achos 24 o'r 33 o blant a oedd yn ymwneud â chynllun peilot FDAC Caerdydd a'r Fro ar yr adeg y daeth y cynllun peilot i ben (gweler Tabl 14). Mewn dau achos (achos 3 ac achos 11) nid oedd y data a gafodd eu hadrodd am drefniadau byw y plant ar ddiwedd yr achos yn gwneud synnwyr yng nghyd-destun yr hyn a adroddwyd amdanynt ar ddechrau'r achos. Yn yr un modd â'r data am gamddefnyddio sylweddau a nodir uchod, rhoddir cryn bwys ar drefniadau byw ar ddiwedd achosion yr FDAC o ran pennu arwyddion o botensial ar gyfer FDAC Caerdydd a'r Fro. Felly, rhoddwyd yr un dull gofalus ar waith wrth ymdrin â'r data hyn, a defnyddiwyd categori 'aneglur' lle roedd yn ymddangos nad oedd y data'n gywir.

O ran y 22 o blant sy'n weddill ac yr oedd eu trefniadau byw yn hysbys, roedd 32% o'r blant (n=7) yng ngofal un rhiant neu'r ddau riant ar ddiwedd achosion yr FDAC, mwy na dwbl nifer y plant ar ddechrau achosion yr FDAC (n=3, 14%). At hynny, roedd 36% o'r plant (n=8) yng ngofal aelod o'r teulu nad yw'n rhiant ar ddiwedd achosion yr FDAC, o gymharu ag oddeutu 55% (n=12) ar ddechrau'r achosion. Roedd oddeutu 14% o'r plant (n=3) yng ngofal ffrind i'r teulu neu unigolyn arall nad yw'n aelod o'r teulu ar ddiwedd achosion yr FDAC, roedd 9% (n=2) mewn gofal maeth, o

gymharu â 32% (n=7) ar ddechrau'r achosion, ac roedd 9% (n=2) mewn lle gofal dros dro hyd nes y byddent yn cael eu mabwysiadu (gweler Ffigur 5).

### Ffigur 5: Trefniadau byw y plentyn




O ran y saith plentyn a oedd yng ngofal un rhiant neu'r ddau riant ar ddiwedd achosion yr FDAC, dim ond un a oedd wedi bod yng ngofal ei riant ar ddechrau'r achos. Roedd pedwar ohonynt wedi bod yng ngofal aelod o'r teulu nad yw’n rhiant, ac roedd dau ohonynt mewn gofal maeth. O ran y tri phlentyn a oedd yng ngofal rhiant ar ddechrau achosion yr FDAC, arhosodd un yng ngofal ei riant, a rhoddwyd dau yng ngofal ffrind i’r teulu neu unigolyn arall nad yw'n aelod o'r teulu. Er bod yr un nifer o blant yn byw yn eu huned deuluol (naill ai'n byw gyda rhieni neu aelodau o'r teulu ehangach) ar ddechrau ac ar ddiwedd achosion yr FDAC (n=15, 68%), roedd mwy o'r plant hyn yng ngofal un rhiant neu'r ddau riant ar ddiwedd achosion yr FDAC.

Roedd yna ddata canlyniadau hefyd ar gael am y gorchmynion a wnaed yn y gwrandawiad terfynol yn achos 24 o'r 33 o blant a oedd yn ymwneud ag FDAC Caerdydd a’r Fro ar yr adeg y daeth y cynllun peilot i ben. Ar ddechrau achosion yr FDAC, gwnaed tua 71% o’r plant (n=17) yn destun gorchymyn gofal interim, roedd tua 17% (n=4) yn destun Un Cyfnod o Lety o dan Adran 76 o Ddeddf 2014, roedd 4% (n=1) yn destun gorchymyn goruchwylio interim, roedd 4% (n=1) yn cael eu lletya o dan Adran 38(6) o Ddeddf Plant 1989 gyda theidiau a neiniau ar ochr y fam, ac roedd yna un plentyn (4%) na wnaed yn destun unrhyw orchymyn. Yn y gwrandawiad terfynol, gwnaed ychydig o dan hanner y plant (n=11, 46%) yn destun gorchymyn gofal, roedd 33% (n=8) yn destun gorchymyn goruchwylio (roedd tri o'r plant hyn hefyd yn destun gorchymyn trefniant plentyn), roedd tua 13% (n=3) yn destun gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig, roedd 4% (n=1) yn destun gorchymyn lleoli, ac ni wnaed 4% (n=1) yn destun unrhyw orchymyn.

## Tabl 14: Gorchymyn a threfniadau byw y plentyn ar ddechrau ac ar ddiwedd achosion yr FDAC

| Achos | Plentyn | Trefniadau byw | | Gorchymyn | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Ar ddechrau'r achos | Yn y gwrandawiad terfynol | Ar ddechrau'r achos | Yn y gwrandawiad terfynol |
| **Achos 1** | Plentyn 1 | Mewn gofal maeth | Gydag aelod o'r teulu nad yw'n rhiant | Gorchymyn Gofal Interim | Gorchymyn Gofal |
| **Achos 2** | Plentyn 1 | Mewn gofal maeth | Gyda rhiant arall | Gorchymyn Gofal Interim | Gorchymyn Goruchwylio |
| **Achos 3** | Plentyn 1 | Gydag aelod o'r teulu nad yw'n rhiant | Y trefniadau byw yn aneglur | Adran 38(6) o Ddeddf Plant 1989 gyda'r nain a'r taid ar ochr y fam | Gorchymyn Goruchwylio |
| **Achos 4** | Plentyn 1 | Gydag aelod o'r teulu nad yw'n rhiant | Mewn gofal maeth | Un Cyfnod o Lety o dan Adran 76 o Ddeddf 2014 | Gorchymyn Gofal |
| | Plentyn 2 | Gydag aelod o'r teulu nad yw'n rhiant | Mewn gofal maeth | Un Cyfnod o Lety o dan Adran 76 o Ddeddf 2014 | Gorchymyn Gofal |
| **Achos 5** | Plentyn 1 | Mewn gofal maeth | Mewn lleoliad gofal dros dro hyd nes y bydd yn cael ei fabwysiadu | Gorchymyn Gofal Interim | Gorchymyn Lleoli |
| **Achos 7** | Plentyn 1 | Mewn gofal maeth | Gydag aelod o'r teulu nad yw'n rhiant | Gorchymyn Gofal Interim | Gorchymyn Gofal |
| **Achos 8** | Plentyn 1 | Gyda rhiant a oedd yn gofalu amdano cyn yr achos | Gyda rhiant a oedd yn gofalu amdano cyn yr achos | Dim gorchymyn | Gorchymyn Goruchwylio |
| **Achos 9** | Plentyn 1 | Gydag aelod o'r teulu nad yw'n rhiant | Mewn gofal a rennir | Gorchymyn Gofal Interim | Gorchymyn Trefniant Plentyn a Gorchymyn Goruchwylio |
| | Plentyn 2 | Gydag aelod o'r teulu nad yw'n rhiant | Mewn gofal a rennir | Gorchymyn Gofal Interim | Gorchymyn Trefniant Plentyn a Gorchymyn Goruchwylio |
| | Plentyn 3 | Gydag aelod o'r teulu nad yw'n rhiant | Mewn gofal a rennir | Gorchymyn Gofal Interim | Gorchymyn Trefniant Plentyn a Gorchymyn Goruchwylio |
| **Achos 10** | Plentyn 1 | Mewn gofal maeth | Gydag aelod o'r teulu nad yw'n rhiant | Gorchymyn Gofal Interim | Gorchymyn Gofal |
| **Achos 11** | Plentyn 1 | Mewn gofal maeth | Y trefniadau byw yn aneglur | Gorchymyn Gofal Interim | Gorchymyn Gofal |
| **Achos 12** | Plentyn 1 | Mewn gofal maeth | Gyda'r ddau riant yn y cartref | Gorchymyn Gofal Interim | Gorchymyn Goruchwylio |
| **Achos 16** | Plentyn 1 | Gydag aelod o'r teulu nad yw'n rhiant | Gydag aelod o'r teulu nad yw'n rhiant | Gorchymyn Gofal Interim | Gorchymyn Gofal |
| | Plentyn 2 | Gydag aelod o'r teulu nad yw'n rhiant | Gydag aelod o'r teulu nad yw'n rhiant | Gorchymyn Gofal Interim | Gorchymyn Gofal |
| **Achos 17** | Plentyn 1 | Gydag aelod o'r teulu nad yw'n rhiant | Gydag aelod o'r teulu nad yw'n rhiant | Gorchymyn Gofal Interim | Gorchymyn Gofal |
| | Plentyn 2 | Gydag aelod o'r teulu nad yw'n rhiant | Gydag aelod o'r teulu nad yw'n rhiant | Gorchymyn Gofal Interim | Gorchymyn Gofal |
| **Achos 18** | Plentyn 1 | Gyda rhiant a oedd yn gofalu amdano cyn yr achos | Gyda ffrind i'r teulu neu unigolyn arall nad yw'n aelod o'r teulu | Gorchymyn Gofal Interim | Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig |
| | Plentyn 2 | Gyda rhiant a oedd yn gofalu amdano cyn yr achos | Gyda ffrind i'r teulu neu unigolyn arall nad yw'n aelod o'r teulu | Gorchymyn Gofal Interim | Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Achos 21** | Plentyn 1 | Mewn gofal maeth | Mewn lleoliad gofal dros dro hyd nes y bydd yn cael ei fabwysiadu | Un Cyfnod o Lety o dan Adran 76 o Ddeddf 2014 | Gorchymyn Gofal |
| **Achos 22** | Plentyn 1 | Gydag aelod o'r teulu nad yw'n rhiant | Gydag aelod o'r teulu nad yw'n rhiant | Un Cyfnod o Lety o dan Adran 76 o Ddeddf 2014 | Gorchymyn Goruchwylio |
| **Achos 26** | Plentyn 1 | Mewn gofal maeth | Anhysbys | Gorchymyn Gofal Interim | Anhysbys |
| | Plentyn 2 | Mewn gofal maeth | Anhysbys | Gorchymyn Gofal Interim | Anhysbys |
| | Plentyn 3 | Mewn gofal maeth | Anhysbys | Gorchymyn Gofal Interim | Anhysbys |
| | Plentyn 4 | Mewn gofal maeth | Anhysbys | Gorchymyn Gofal Interim | Anhysbys |
| **Achos 30** | Plentyn 1 | Gydag aelod o'r teulu nad yw'n rhiant | Gyda rhiant arall | Gorchymyn Goruchwylio Dros Dro | Dim gorchymyn |
| **Achos 33** | Plentyn 1 | Gydag aelod o'r teulu nad yw'n rhiant | Gyda ffrind i'r teulu neu unigolyn arall nad yw'n aelod o'r teulu | Gorchymyn Gofal Interim | Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig |
| **Achos 34** | Plentyn 1 | Mewn gofal maeth | Anhysbys | Gorchymyn Gofal Interim | Anhysbys |
| **Achos 35** | Plentyn 1 | Mewn gofal maeth | Anhysbys | Gorchymyn Gofal Interim | Anhysbys |
| | Plentyn 2 | Mewn gofal maeth | Anhysbys | Gorchymyn Gofal Interim | Anhysbys |
| | Plentyn 3 | Mewn gofal maeth | Anhysbys | Gorchymyn Gofal Interim | Anhysbys |
| | Plentyn 4 | Mewn gofal maeth | Anhysbys | Gorchymyn Gofal Interim | Anhysbys |

Mae'n werth nodi hefyd na heriwyd unrhyw wrandawiadau terfynol (sef pan na all y partïon sy'n ymwneud ag achos ddod i gytundeb ynghylch y cynllun gofal a'r cynllun lleoli, sef rhieni a'r awdurdod lleol yn yr enghraifft hon) yn ystod cyfnod peilot FDAC Caerdydd a'r Fro. Mae hyn yn awgrymu, hyd yn oed os canlyniad yr achos oedd i'r plentyn gael ei gymryd oddi ar y rhiant/rhieni yn barhaol, nad oedd y rhieni'n teimlo'n ddigon cryf fod hwn yn gynllun anghywir ac y dylent fynd ar drywydd her gyfreithiol.

### Canlyniadau eraill:

Mewn gwerthusiadau blaenorol o'r FDAC, ystyrid mai'r cyfraddau aduno rhwng plant a'u rhieni oedd y prif fetrig y dylid barnu effeithiolrwydd yr FDAC yn unol ag ef. Mae'r astudiaeth gyfredol yn awgrymu bod nifer o ganlyniadau eraill yn bwysig, na fydd aduno, o bosibl, yn flaenoriaeth i rai rhanddeiliaid, ac y gallai canolbwyntio ar aduno fod yn broblemus. Trwy gynnal y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws yng ngham 2 a 3 daeth yn amlwg bod barnwyr a thîm yr FDAC, ynghyd â rhai o'r gweithwyr cymdeithasol, o'r farn bod y ffocws ar aduno yn paratoi'r rhieni a'r rhanddeiliaid proffesiynol i fethu.

> *"Dw i'n credu bod angen i ni fod yn ofalus iawn* [ynghylch prif ganlyniad yr FDAC] *nad yw'n ymwneud ag aduno, achos dw i'n credu ein bod yn paratoi'r rhan fwyaf o bobl i fethu yn y pen draw, yn ogystal â pharatoi'r staff i fethu hefyd. A dw i'n credu bod y cynllun ymyrryd mor amlweddog, a dim byd ynddo yn ein cyfyngu, yn cyfateb i aduno; mae'n ymwneud â bod yn rhan o becyn. Mae fel darnau gwahanol o'r pos."* – Aelod o dîm yr FDAC

O'r 54 o gyfranogwyr a gymerodd ran yn y gwerthusiad hwn, dim ond dau riant ac un Gwarcheidwad Plant a fynegodd yn benodol eu bod yn teimlo mai aduno oedd canlyniad pwysicaf achosion yr

FDAC. Mae Tabl 15 yn crynhoi canlyniadau eraill a nodwyd gan gyfranogwyr yn ganlyniadau pwysicaf yr FDAC. Disgrifiwyd y canlyniadau hyn yn aml yn rhai 'meddalach' nag aduno, ond yn ddangosyddion gwell o ran a oedd achosion yr FDAC yn 'llwyddiannus' i'r rhieni a'u teuluoedd.

Tabl 15: Canlyniadau ychwanegol

| Y Cyfranogwr | Y Canlyniad |
|---|---|
| Gweithiwr cymdeithasol | Unrhyw gyfnod o ymatal neu ostyngiad yn y camddefnydd o sylweddau yn achos y rhieni |
| Rhiant, barnwr | Mae'r rhieni'n profi newid cynaliadwy o ran eu camddefnydd o sylweddau |
| Rhiant, barnwr, gweithiwr cymdeithasol, gwarcheidwad | Mae'r rhieni'n cael gwell perthnasoedd â gweithwyr cymdeithasol, y system Gofal Cymdeithasol Plant, awdurdod a gwasanaethau, ac yn ymddiried ynddynt fwy |
| Rhiant, staff llys yr FDAC, barnwr, cynrychiolydd cyfreithiol | Mae'r rhieni'n mynd i'r afael ag ystod eang o anghenion yn eu bywyd (e.e. anghenion meddygol, tai, iechyd meddwl) |
| Rhiant | Mae'r rhieni cael rhagor o gyswllt â'u plentyn/plant neu'n gallu parhau i fod yn eu bywyd |
| Tîm yr FDAC | Mae'r rhieni'n profi perthnasoedd diogel, therapiwtig am y tro cyntaf yn eu bywyd |
| Tîm yr FDAC | Mae cynllun ymyrryd yr FDAC wedi'i gyflawni |
| Barnwr | Mae'r rhieni'n gallu gofalu am eu plentyn (plant) yn well hyd yn oed os nad ydynt wedi'u haduno |
| Gweithiwr cymdeithasol, staff llys yr FDAC, barnwr, cynrychiolydd cyfreithiol, rhiant | Mae'r plant yn cael gofal da mewn lleoliad diogel a sefydlog |
| Gweithiwr cymdeithasol, rhiant | Mae teuluoedd yn cael mwy o gymorth dwys nag erioed o'r blaen |
| Gwarcheidwad, barnwr, rhiant | Llai o wrandawiadau terfynol yn cael eu herio |
| Gweithiwr cymdeithasol | Gwella diogelwch y rhiant trwy leihau'r defnydd o sylweddau |
| Barnwr, gweithiwr cymdeithasol | Mae'r plant yn aros o fewn y teulu ehangach |
| Staff llys yr FDAC | Perthnasoedd teuluol gwell |

Roedd rhai o'r canlyniadau a drafodwyd wedi ymdreiddio y tu hwnt i achosion yr FDAC a'r teuluoedd a oedd yn ymwneud â nhw. Roedd rhai o'r enghreifftiau'n cynnwys buddion o ran iechyd a throseddu, ynghyd â buddion economaidd, i rieni a oedd yn llwyddo i aros yn sobr yn yr FDAC, gweithwyr cymdeithasol yn meithrin gwell dealltwriaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael i deuluoedd am fod tîm yr FDAC wedi rhannu eu harbenigedd, a barnwyr yn ystyried eu gwaith yn fwy gwerth chweil oherwydd ymdeimlad o allu rhoi'r cyfle gorau i deuluoedd oresgyn anawsterau. Disgrifiwyd y ddau olaf yn rhai a oedd yn treiddio i achosion gofal safonol, lle byddai gweithwyr proffesiynol yn defnyddio'r hyn yr oeddent wedi'i ddysgu yn achosion yr FDAC ac yn eu cymhwyso i gefnogi neu ymgysylltu â rhieni yn eu gwaith ehangach.

# 5. Y gallu i ehangu, a pharodrwydd ar gyfer gwerthusiadau pellach

Gan adeiladu ar ganfyddiadau ynghylch dichonoldeb a photensial yr FDAC yng nghyd-destun Cymru, mae'r adran hon yn canolbwyntio ar yr hyn a allai fod nesaf i'r FDAC yng Nghymru. Mae'n dechrau gyda damcaniaethau ynghylch y rhaglen sy'n seiliedig ar ddata ansoddol ac sy'n cynnig disgrifiadau o'r modd y credir bod elfennau o gynllun peilot Caerdydd a'r Fro yn creu canlyniadau


i'r teuluoedd sy'n ymwneud ag achosion yr FDAC. Mae damcaniaethau fel y rhain ynghylch y rhaglen wedi'u cynllunio i gefnogi'r broses o weithredu, ehangu a gwerthuso ymhellach, a hynny trwy gynhyrchu gwybodaeth drosglwyddadwy am elfennau, adnoddau a ffyrdd allweddol yr FDAC o weithio.

### Damcaniaethau ynghylch y rhaglen

Mae'r FDAC yn cynnwys sawl elfen, a thrwy gydol y gwerthusiad daeth yn amlwg y gall pob elfen, yn y cyd-destunau cywir, greu canlyniadau yn ei ffordd ei hun. Fodd bynnag, oherwydd maint a chyfoeth y data a gafwyd, ni fu'n bosibl dadansoddi holl elfennau'r FDAC nac archwilio pob cadwyn achosiaeth cyd-destun-mecanwaith-canlyniad yng nghwmpas y gwerthusiad hwn. Yn lle hynny, rhoddwyd blaenoriaeth i bedair o elfennau'r FDAC sydd fwyaf gwahanol i achosion gofal safonol ac a briodolwyd yn aml yn rhai a oedd yn hanfodol i sicrhau canlyniadau llwyddiannus. Nodwyd y rhain fel a ganlyn:

1. Dull therapiwtig o ddatrys problemau
2. Profion wythnosol ar gyfer camddefnyddio sylweddau
3. Adolygiadau bob pythefnos gan unigolyn nad yw'n gyfreithiwr, ynghyd â monitro barnwrol cyson
4. Tîm integredig, cydweithredol, amlddisgyblaethol

Mae'r pedair set ganlynol o ddamcaniaethau ynghylch y rhaglen yn seiliedig ar yr elfennau uchod. O fewn yr elfennau hyn, mae'r damcaniaethau a oedd fwyaf clir o ran mynegi'r honiad achosol, ac a oedd fwyaf mirain o ran eu cwmpas, wedi cael eu blaenoriaethu, eu disgrifio, a'u mapio'n weledol. Dylid defnyddio'r allwedd isod ar gyfer mapiau gweledol y damcaniaethau ynghylch y rhaglen a gyflwynir yn yr adran hon.




Mae'n bwysig nodi bod y damcaniaethau ynghylch y rhaglen yn seiliedig ar nifer o safbwyntiau (e.e. aelodau o dîm yr FDAC, barnwyr, rhieni, rhanddeiliaid proffesiynol eraill, ac ymchwilwyr) ynghylch y modd y mae'r FDAC yn gweithio, yn hytrach nag ar dystiolaeth gymharol ynghylch *p'un a yw'n* gweithio *ai peidio*. Felly nid yw'n cymryd lle gwerthusiad o'r effaith sy'n cynnwys cymhariaeth wrthffeithiol. Am fod gwaith yr FDAC yn golygu rhoi cymorth unigol i rieni a theuluoedd ag anghenion cymhleth, bydd yna wahaniaethau cyd-destunol bob amser o ran y modd y cyflawnir canlyniadau penodol, neu p'un a ydynt yn cael eu cyflawni, ac ni ellir cipio pob gwedd bosibl. Yn lle hynny, mae'r damcaniaethau ynghylch y rhaglen yn cynnig awgrym o batrymau lled-rhagweladwy o ran y modd y damcaniaethwyd y byddai'r FDAC yn gweithio yn achos y mwyafrif o deuluoedd y cynllun peilot, y rhan fwyaf o'r amser.

Mae yna fwlch sylweddol yn y damcaniaethau ynghylch y rhaglen, sef dealltwriaeth fanwl o'r modd y mae ffactorau cyd-destunol yn galluogi neu'n atal y broses o ysgogi mecanweithiau y credid bod y canlyniadau'n cael eu cyflawni trwyddynt. Roedd yna gryn amrywiad a diffyg eglurder yn y ffactorau cyd-destunol, yn enwedig y rhai a oedd yn ymwneud â'r teuluoedd a oedd yn defnyddio'r FDAC. Efallai fod hyn yn adlewyrchu cymhlethdod ymyriadau cymdeithasol sy'n gweithio gyda phobl

ag anghenion cymhleth megis camddefnyddio sylweddau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn syndod o ystyried y farn gyffredin ymhlith aelodau tîm yr FDAC, sef ei bod yn anodd pennu ffactorau sy'n dynodi’r rhieni sydd fwyaf tebygol o 'lwyddo' yn yr FDAC.

### Dull therapiwtig o ddatrys problemau

Nodwyd pum cadwyn achosol rhwng elfen dull therapiwtig o ddatrys problemau yr FDAC a’r canlyniadau a nodwyd (gweler Ffigur 6). Yn gyd-destunol, er mwyn ysgogi pob un o’r pum cadwyn achosol, mae'n bwysig bod gan dîm yr FDAC yr amser a'r capasiti (yn feddyliol ac yn ymarferol) i gynnig cefnogaeth gyson i rieni. Mae hyn yn seiliedig yn bennaf ar faint y tîm a’r llwyth achosion, sy'n cael eu llywio gan gyllid. Nodwyd dau ffactor cyd-destunol pwysig arall, y ddau ohonynt yn berthnasol i bob un o bedair elfen yr FDAC. Y ffactor cyntaf yw cymhlethdod anghenion y rhieni. Yn hynny o beth, ni all lefel cymhlethdod yr anghenion, na’u maint, fod mor ddifrifol fel eu bod yn effeithio ar allu’r rhieni i ymgysylltu â’r FDAC ac ymrwymo i'r broses, neu ar eu gallu i newid. Yr ail ffactor yw fod cymhelliant y rhieni dros gymryd rhan yn yr FDAC, ac aros yn y cynllun, yn un cynhenid yn hytrach nag anghynhenid. Mae'n ymddangos bod sawl ffactor arall yn dylanwadu ar hyn, megis lleoliad y plant ar ddechrau achosion yr FDAC, ac a yw rhieni'n meddwl bod eu camddefnydd o sylweddau yn broblem.

Cadwynau Achosol 1, 2, 3 a 4: Pan fydd rhieni'n ymuno â’r FDAC, mae yna aelod o dîm yr FDAC yn cael ei neilltuo iddynt yn rôl gweithiwr allweddol, ynghyd ag un o farnwyr yr FDAC, ac maent yn gweithio gyda nhw yn ystod cyfnod eu hachosion yn yr FDAC. Mae'r barnwr a'r gweithiwr allweddol yn rhoi cymorth therapiwtig i rieni ac yn arddel ymagwedd at weithio gyda’r rhieni sy'n ystyriol o drawma ac yn datrys problemau. Mae enghreifftiau o sut olwg sydd ar hyn yn ymarferol yn cynnwys y canlynol:


- gwrando ar y rhieni heb eu barnu
- siarad â’r rhieni mewn iaith y gallant ei deall
- atgyfnerthu cynnydd cadarnhaol
- cynnig anogaeth pan fydd y rhieni'n wynebu heriau
- canolbwyntio ar gryfderau’r rhieni a'r adnoddau sydd ar gael iddynt wrth eu dwyn i gyfrif am eu dewisiadau a'u hymddygiad
- dangos diddordeb ym mywydau’r rhieni
- cynnwys eiliadau ysgafnach o hiwmor yn eu rhyngweithiadau
- eirioli dros y rhieni
- gan ategu gallu’r rhieni i gyflawni canlyniadau llwyddiannus yn yr FDAC
- caniatáu hyblygrwydd o ran y modd y maent yn gweithio gyda’r rhieni, a’r nodau y maent yn gweithio tuag atynt
- chydnabod, er bod y rhieni'n ymddangos yn yr FDAC yn rhan o achosion gofal, eu bod yn dal i fod yn fodau dynol

Mae hyn yn galluogi’r rhieni i deimlo bod gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda nhw yn hytrach nag yn eu herbyn, eu bod yn cael eu grymuso i ysgwyddo’r cyfrifoldeb am eu gorffennol a newid eu camddefnydd o sylweddau, i fod yn obeithiol y gallant fynd i'r afael â'u camddefnydd o sylweddau, a rhwystrau eraill i aduno, yn llwyddiannus, a'u bod yn haeddu cefnogaeth a bywyd gwell heb gamddefnyddio sylweddau. Mae hyn yn arwain at gynnydd ym mharodrwydd y rhieni i gymryd rhan yn yr FDAC a'r gefnogaeth a'r gwasanaethau y mae'n eu cynnig, sy'n cynnwys bod yn agored ac yn onest am eu gorffennol a'u camddefnydd o sylweddau.

Cadwyn achosol 5: Mae cael gweithiwr allweddol sy'n rhoi cymorth therapiwtig sy'n datrys problemau i rieni yn hanfodol ar gyfer caniatáu i'r rhieni feithrin perthynas ddiogel o ymddiriedaeth a pharch y naill at y llall â'u gweithiwr allweddol a thîm yr FDAC. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn arwain at deimlad ymhlith y rhieni eu bod yn gallu datgelu eu gwendidau i'r gweithiwr allweddol/dîm yr FDAC, a rhannu gwybodaeth yn agored ac yn onest am eu hanes, eu brwydrau a'u camddefnydd o sylweddau. Mae'n galluogi tîm yr FDAC i gael gwell dealltwriaeth o anghenion y rhieni a'u gallu i newid, ac felly gall deilwra'r gefnogaeth y mae'n ei chynnig yn well. Ystyrid bod gallu'r rhieni i feithrin y berthynas hon â'u gweithiwr allweddol yn hanfodol ar gyfer galluogi'r holl waith arall yn yr FDAC.

Er bod dull therapiwtig o ddatrys problemau yn cael ei ddefnyddio trwy gydol achosion yr FDAC, ystyrir bod y canlyniadau y mae'n eu cynhyrchu, yn enwedig parodrwydd y rhieni i gymryd rhan yn yr FDAC, yn rhagflaenwyr hanfodol a ddaw'n ffactorau cyd-destunol o ran ysgogi cadwynau achosol sy'n gysylltiedig â'r tair elfen arall.

## Ffigur 6: Damcaniaethau ynghylch y rhaglen mewn perthynas ag ymagwedd therapiwtig o ddatrys problemau




### Profion wythnosol ar gyfer camddefnyddio sylweddau


Nodwyd tair cadwyn achosol rhwng elfen profion wythnosol ar gyfer camddefnyddio sylweddau yr FDAC a'r canlyniadau a nodwyd (gweler Ffigur 7).

Cadwyn achosol 1: Yn ystod y profion wythnosol ar gyfer camddefnyddio sylweddau, rhoddir cyfle i'r rhieni gymryd rhan weithredol yn y broses brofi. Er enghraifft, gallant ddewis eu pot prawf eu hunain ac fe'u haddysgir gan dîm yr FDAC i ddarllen canlyniadau'r profion. Mae hyn yn arwain at deimlad ymhlith y rhieni fod y broses brofi yn yr FDAC yn fwy tryloyw nag mewn achosion gofal safonol, ac y gellir ymddiried yn nhîm yr FDAC a'u bod yn ceisio eu cynorthwyo. Mae hyn yn helpu i ryw raddau i adfer ymddiriedaeth a ffydd y rhieni mewn awdurdod.

Cadwyn achosol 2: Mae rhieni'n cael tystiolaeth ar unwaith ac yn rheolaidd ar ffurf canlyniadau profion, sy'n dangos iddyn nhw ac i'r gweithwyr proffesiynol unrhyw gynnydd y maent yn ei wneud ac yn ei gynnal o ran eu camddefnydd o sylweddau. Mae gweld tystiolaeth o gynnydd bob wythnos yn cynyddu gobaith a hunanhyder y rhieni y gallant oresgyn eu camddefnydd o sylweddau a chael eu haduno â'u plentyn/plant. Mae'n ymddangos bod hyn yn wir hyd yn oed os yw eu prawf yn bositif ar gyfer sylweddau ond bod eu patrymau camddefnydd yn newid neu'n lleihau, e.e. profi'n bositif am un sylwedd yn hytrach na dau. Mae gweld cynnydd wythnosol hefyd yn cynyddu cymhelliant y rhieni i barhau i fynd i'r afael â'u camddefnydd o sylweddau, ac yn rhoi rhywbeth iddynt weithio tuag ato.

Cadwyn achosol 3: Trwy gael eu profi bob wythnos, mae'r rhieni hefyd yn cael eu canmol a'u hatgyfnerthu'n rheolaidd am leihau eu camddefnydd o sylweddau neu am ganlyniadau prawf sy'n negyddol. Yn yr un modd â thystiolaeth reolaidd, mae hyn yn cynyddu gobaith, hunanhyder a chymhelliant y rhieni. Mae'r teimladau cynyddol o obaith, hunanhyder a chymhelliant yn creu dolen adborth, lle mae lleihau neu roi'r gorau i'r camddefnydd o sylweddau yn cynyddu gallu'r rhieni i leihau rhwystrau eraill i aduno â'u plant, elfen sydd, yn ei thro, yn bwydo'n ôl i'w gallu i leihau neu roi'r gorau i'w camddefnydd o sylweddau. Ar ôl i'r rhieni fynd i'r afael mewn modd boddhaol â'u camddefnydd o sylweddau, ynghyd â rhwystrau eraill i aduno, yna gellir eu haduno â'u plentyn/plant.

## Ffigur 7: Damcaniaethau ynghylch y rhaglen mewn perthynas â phrofion wythnosol ar gyfer camddefnyddio sylweddau



### Adolygiadau bob pythefnos gan unigolyn nad yw'n gyfreithiwr, ynghyd â monitro barnwrol cyson

Mae Ffigur 8 yn dangos y naw cadwyn achosol a nodwyd rhwng elfen yr adolygiadau bob pythefnos gan unigolyn nad yw'n gyfreithiwr, ynghyd â monitro barnwrol cyson yr FDAC, a chanlyniadau a nodwyd. Ffactor cyd-destunol pwysig yn achos cadwynau achosol 1, 2, 3, 4, 6, 7, 8, a 9 yw fod Awdurdodau Lleol wedi ymrwymo i'r FDAC, ac felly mae gweithwyr proffesiynol yn amlygu ymrwymiad i bresenoldeb rheolaidd yn yr adolygiadau gan unigolyn nad yw'n gyfreithiwr ac yn defnyddio ieithwedd sy'n gyson â model yr FDAC.

Cadwyn achosol 1: Mae adolygiadau bob pythefnos gan unigolyn nad yw'n gyfreithiwr yn darparu fforwm i'r barnwr a'r gweithwyr proffesiynol sy'n berthnasol i'r cynllun gofal ddatrys problemau gyda'r rhieni. Mae hyn yn cynnwys gosod nodau clir, dirprwyo tasgau a chyfrifoldeb, a phennu cyfeiriad ar gyfer y pythefnos canlynol, elfennau sy'n creu ymdeimladau o atebolrwydd a pherchnogaeth dros ganlyniadau, a hynny i'r rhieni a'r gweithwyr proffesiynol. Yn y byrdymor, mae'r rhieni'n ystyried y barnwr a'r achos yn decach am fod pawb yn cael eu dwyn i gyfrif gan y barnwr. Yn y tymor hirach, mae hyn yn golygu mwy o ymddiriedaeth mewn gwasanaethau cymdeithasol ac awdurdod, yn ogystal â llai o wrandawiadau terfynol yn cael eu herio, a hynny am fod y rhieni'n fwy parod i dderbyn y canlyniadau terfynol pan fyddant yn teimlo eu bod wedi cael cyfle teg i newid.

Cadwynau achosol 2, 3 a 4: Mae pawb sy'n berthnasol i'r cynllun gofal yn cael cyfle i siarad yn yr adolygiadau gan unigolyn nad yw'n gyfreithiwr ac i roi diweddariadau rheolaidd i'r barnwr. Mae hyn yn galluogi'r rhieni i deimlo bod ganddynt lais, mwy o alluedd, a'u bod yn cymryd rhan weithredol yn eu hachosion. Mae'n eu galluogi i feithrin dealltwriaeth o'r hyn a ddisgwylir ganddynt neu sy'n ofynnol ganddynt i gael eu haduno â'u plentyn/plant. Fel y disgrifir yng nghadwyn achosol 1, mae'r rhieni wedyn yn ystyried y barnwr a'r achos yn decach. At hynny, mae hefyd yn cynyddu hunanhyder a chymhelliant y rhieni i fynd i'r afael â'u camddefnydd o sylweddau a rhwystrau eraill i aduno. Fel y disgrifiwyd eisoes yng nghadwyn achosol 3, sef "profion wythnosol ar gyfer camddefnyddio sylweddau," mae'r teimladau cynyddol o hunanhyder a chymhelliant yn creu dolen adborth, lle mae lleihau neu roi'r gorau i'r camddefnydd o sylweddau yn cynyddu gallu'r rhieni i leihau rhwystrau eraill i aduno â'u plant, elfen sydd, yn ei thro, yn bwydo'n ôl i allu'r rhieni i leihau neu roi'r gorau i'w camddefnydd o sylweddau. Ar ôl i'r rhieni fynd i'r afael mewn modd boddhaol â'u camddefnydd o sylweddau, ynghyd â rhwystrau eraill i aduno,yna gellir eu haduno â'u plentyn/plant.


Cadwyn achosol 5: Mae'r barnwyr yn rhoi negeseuon clir a chyson i'r rhieni ym mhob adolygiad gan unigolyn nad yw'n gyfreithiwr ynghylch yr hyn y mae angen iddynt fod yn gweithio arno trwy gydol yr achosion i gael eu haduno â'u plentyn/plant. Mae hyn yn cynnwys diweddariadau rheolaidd ar yr hyn y mae'r rhieni'n ei wneud yn dda a'r hyn sy'n gofyn am ragor o waith. Bob tro y bydd y rhieni'n gweld eu barnwr FDAC, ailadroddir y neges hon, a chaiff rhieni eu hatgoffa o'r canlyniadau posibl os na fyddant yn cydymffurfio. Trwy wneud hyn, mae'r rhieni'n meithrin dealltwriaeth o'r newidiadau a ddisgwylir ganddynt neu sy'n ofynnol ganddynt, ac o'r canlyniad posibl os na fyddant yn gwneud newidiadau, sef elfennau sy'n cynyddu cymhelliant y rhieni i fynd i'r afael â'u camddefnydd o sylweddau a rhwystrau eraill i aduno (gweler cadwynau achosol 2, 3 a 4).

Cadwynau achosol 6, 7 ac 8: Mae'r rhieni'n cwrdd yn rheolaidd â'r un barnwr mewn man llai gwrthwynebol, e.e. mae pawb yn y llys yn eistedd ar yr un lefel ac mae'r barnwr yng nghôl y llys; mae'r barnwr yn canolbwyntio'n bennaf ar siarad yn uniongyrchol â'r rhieni, ac nid yw cwestiynau a sgyrsiau yn ymwneud â'r achos yn unig. Mae bod yn ganolbwynt sylw'r barnwr yn gwneud i'r rhieni deimlo'n bwysig a bod rhywun yn gwrando arnynt ac yn eu parchu, elfennau sydd, yn eu tro yn cynyddu eu cymhelliant i fynd i'r afael â'u camddefnydd o sylweddau a rhwystrau eraill i aduno, fel

y disgrifir uchod yng nghadwynau achosol 2, 3 a 4. Mae'r awyrgylch hamddenol yn helpu rhieni i deimlo'n fwy cyfforddus yn y llys, ac i ddechrau meithrin perthynas â'r barnwr, gan eu galluogi i fod yn agored a rhannu gwybodaeth mewn modd gonest. Mae hyn yn caniatáu i farnwyr a gweithwyr proffesiynol ddod i adnabod y rhieni ar lefel bersonol (heb i'r wybodaeth gael ei hidlo trwy gyfreithwyr) ac yn rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o anghenion y rhieni fel y gallant deilwra'r gefnogaeth iddynt yn well. Mae hyn yn arwain at y ddolen adborth a drafodwyd yn flaenorol yng nghadwynau achosol 2, 3 a 4.

<u>Cadwyn achosol 9</u>: Rhoddir cyfleoedd rheolaidd hefyd i'r rhieni ryngweithio'n anffurfiol â rhanddeiliaid proffesiynol eraill yn y llys cyn mynd i'w hadolygiad gan unigolyn nad yw'n gyfreithiwr. Mae'r rhieni a'r gweithwyr proffesiynol yn dechrau meithrin perthnasoedd yn araf, sy'n arwain at ganlyniad aduno ar yr un llwybr ag a ddisgrifir uchod yng nghadwynau achosol 6, 7 ac 8.

## Ffigur 8: Damcaniaethau ynghylch y rhaglen mewn perthynas ag adolygiadau bob pythefnos gan unigolyn nad yw’n gyfreithiwr, ynghyd â monitro barnwrol cyson



**Tîm integredig, cydweithredol, amlddisgyblaethol**

Nodwyd naw cadwyn achosol hefyd rhwng elfen tîm integredig, cydweithredol, amlddisgyblaethol yr FDAC a'r canlyniadau a nodwyd (gweler Ffigur 9). Yn gyd-destunol, fel y gwelir gyda'r cadwynau achosol mewn 'dull therapiwtig o ddatrys problemau', i ysgogi'r cadwynau achosol hyn mae'n bwysig bod gan dîm yr FDAC yr amser a'r gallu i gynnig cefnogaeth gyson i'r rhieni. Ffactor cyd-destunol arall sy'n bwysig o ran ysgogi cadwynau achosol 1 a 2 yw hyd y rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau lleol. Mae angen i'r rhain fod yn ddigon byr fel y gall y rhieni ddefnyddio'r gwasanaeth o fewn amserlenni achosion yr FDAC.

<u>Cadwynau achosol 1 a 2:</u> Mae gweithwyr allweddol yn nodi ac yn cydgysylltu mynediad y rhieni at wasanaethau/asiantaethau ar gyfer camddefnyddio sylweddau ac unrhyw anghenion ychwanegol eraill a all fod ganddynt. Trwy wneud hyn, mae'r wybodaeth sydd gan y rhieni am y gwasanaethau/cymorth sydd ar gael iddynt yn yr ardal leol yn cynyddu, ynghyd â hyder o ran sut i gael mynediad atynt. Mae'r ffaith bod y rhieni'n cael mynediad at ragor o gymorth ar gyfer ystod o anghenion hefyd yn rhoi cipolwg iddynt ar fanteision cael gwasanaethau cymorth. Mae'r ddau beth yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd y rhieni'n estyn allan at wasanaethau pan fydd arnynt eu hangen, a hynny yn ystod achosion ac yn y dyfodol. Yn y pen draw, mae'r gwasanaethau'n eu helpu i leihau eu camddefnydd o sylweddau a/neu rwystrau eraill i aduno.

<u>Cadwynau achosol 3 a 4</u>: Mae tîm yr FDAC yn cyfathrebu â'r rhieni ac yn darparu diweddariadau iddynt mewn modd tryloyw ac eglur trwy gydol yr achosion (ar lafar a thrwy ddarparu adroddiadau). Mae gwybodaeth megis sut y mae eu hachos yn mynd rhagddo, beth a fydd yn digwydd mewn gwrandawiadau penodol, beth a fydd y canlyniadau posibl, ac ati, yn helpu'r rhieni i deimlo dan lai o straen ac yn llai pryderus ynghylch achosion, a hynny am eu bod yn deall beth sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni, yr hyn a ddisgwylir ganddynt, a pha argymhellion sy'n cael eu gwneud. Felly, mae'r rhieni'n llai tebygol o deimlo bod angen iddynt ddefnyddio sylweddau fel strategaeth ymdopi. Mae'r cyfathrebu tryloyw hefyd yn bwysig o ran helpu'r rhieni i deimlo eu bod yn gallu eu paratoi eu hunain ar gyfer pob canlyniad posibl neu i ddygymod â hynny. Yn y tymor hirach, mae hyn yn golygu bod llai o wrandawiadau terfynol yn cael eu herio am fod y rhieni'n fwy parod i dderbyn y canlyniadau terfynol.


<u>Cadwynau achosol 5, 6, 7, 8 a 9</u>: Mae gan y rhieni nifer o sesiynau â'r gweithiwr allweddol bob wythnos, lle mae eu gweithiwr allweddol yn darparu cymorth/gwasanaethau cofleidiol, holistaidd, unigol sydd â'r nod o fynd i'r afael â chynllun ymyrryd y rhiant. Mae ffocws y sesiynau hyn yn cwmpasu ystod ehangach o feysydd, er ei bod yn werth nodi tri ohonynt yn benodol:

Yn gyntaf, mae cymorth i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, ac ymatal rhag eu cymryd, yn aml yn cynnwys gwybodaeth am effeithiau camddefnyddio sylweddau, yr effaith y gall hynny ei chael ar blant, cipolwg ar y rhesymau pam y mae pobl yn camddefnyddio sylweddau, sut i roi'r gorau iddynt mewn modd cynaliadwy, a strategaethau ymdopi amgen i'w defnyddio yn lle sylweddau. Nid yn unig y mae hyn yn cynyddu hunanhyder a chymhelliant y rhieni i fynd i'r afael â'u camddefnydd o sylweddau a rhwystrau eraill i aduno, fel y disgrifir mewn elfennau blaenorol, ond mae hefyd yn arwain rhieni i hunanarchwilio eu camddefnydd o sylweddau, eu hymddygiad a'r hyn sydd wedi digwydd yn eu bywyd ac wedi arwain at y foment hon. Yn yr un modd â chymhelliant a hyder cynyddol, gall hyn helpu'r rhieni i leihau neu roi'r gorau i gamddefnyddio sylweddau, gan gynyddu eu gallu i leihau rhwystrau eraill i aduno â'u plant, ac i'r gwrthwyneb.

Yn ail, trwy gymorth ar gyfer iechyd meddwl, delio â thrawma yn y gorffennol yn benodol, mae’r rhieni'n dysgu eu blaenoriaethu eu hunain a sicrhau eu bod yn gofalu am eu llesiant. Y rheswm am hyn yw fod hynny'n bwysig ynddo'i hun, ond hefyd am ei fod yn eu galluogi i fod yn rhieni gwell. Mae hyn yn arwain at gynnydd yng nghymhelliant y rhieni i fynd i'r afael â'u camddefnydd o sylweddau a rhwystrau eraill i aduno, sy'n arwain at ganlyniadau tebyg i'r hyn a drafodwyd yn flaenorol.

Yn drydydd, mae gweithwyr allweddol yn darparu cefnogaeth o ran cryfhau perthnasoedd. Weithiau mae hyn ar ffurf modelu sut i siarad â gweithwyr proffesiynol eraill, darparu adnoddau am fathau o gyfathrebu, helpu rhieni i ymarfer gosod ffiniau, addysgu pwysigrwydd cael perthnasoedd iach, ac addysg am fagu plant. Trwy helpu’r rhieni i ddysgu'r sgiliau hyn, gall y rhieni wedyn feithrin a gwella perthnasoedd eraill, yn enwedig â'u barnwr, eu teulu, eu gweithwyr cymdeithasol a’u plant. Mae hyn yn cynyddu neu'n ehangu systemau cymorth y rhieni yn ystod ac ar ôl yr achosion ac yn enwedig o ran perthnasoedd â gweithwyr proffesiynol, ac yn cynyddu'r ymdeimlad o ymddiriedaeth sydd gan y rhieni tuag at wasanaethau plant ac awdurdod.

## Ffigur 9: Damcaniaethau ynghylch y rhaglen mewn perthynas â thîm integredig, cydweithredol, amlddisgyblaethol



### Cynaliadwyedd a chyllid

Amlygodd yr adolygiad polisi yn yr adroddiad gwerthuso interim broblem cyllido o ran darparu'r FDAC mewn modd cynaliadwy yn Lloegr. Dangosodd ganlyniadau trafferthus yr ansicrwydd ynghylch cyllid, a arweiniodd at rai o safleoedd yr FDAC yn rhoi'r gorau i weithredu. Roedd yna ansicrwydd tebyg yn achos cynllun peilot Caerdydd a'r Fro. Gan adlewyrchu canfyddiadau'r adroddiad interim, cyllid oedd y ffactor mwyaf hanfodol i randdeiliaid proffesiynol a oedd yn rhan o gynllun peilot FDAC Caerdydd a'r Fro wrth ystyried cynaliadwyedd yr FDAC. Mae gan hyn oblygiadau clir ar gyfer unrhyw weithredu a gwerthuso yn y dyfodol mewn perthynas a'r FDAC yng Nghymru.

Ymddengys bod y posibilrwydd y gallai'r cynllun peilot ddod i ben wedi taflu cysgod hir, a disgrifiwyd misoedd olaf y cynllun peilot gan aelodau o dîm yr FDAC yn "*adeg anodd*" lle roedd yna "*ddiffyg eglurder ynghylch sut olwg fydd ar y diweddglo hwnnw*", a oedd yn amharu ar waith y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Ategwyd hyn gan y barnwyr, a dywedodd un ohonynt, "*ar yr adeg benodol honno…roedd y mater o gyllid yn amwys ar y gorau*". Roedd yna deimlad cyffredinol ymhlith barnwyr a thîm yr FDAC y dylai'r cynllun peilot barhau am gyfnod hirach, a mynegwyd rhwystredigaeth trwy gydol y cyfnod pan nad oedd dyfodol cynllun peilot Caerdydd a'r Fro yn hysbys. Roedd i'r amwysedd hwn oblygiadau sylweddol i deuluoedd ac i randdeiliaid proffesiynol.

<u>Goblygiadau i deuluoedd</u>

Oherwydd amserlen yr ymyriad, bu'n rhaid i dîm yr FDAC roi'r gorau i dderbyn teuluoedd newydd yn llawer cynt na'r adeg pan ddaeth y cynllun peilot i ben. Er bod y rhai a oedd yn rheoli'r broses o dderbyn teuluoedd yn ymwybodol o amserlen y cynllun peilot a'r dyddiad tebygol y byddai'n dod i ben, cafodd rhai o'r teuluoedd negeseuon cymysg gan yr Awdurdodau Lleol. Cynhaliwyd asesiadau gan yr Awdurdodau Lleol a ddangosodd fod rhai o'r teuluoedd yn addas ar gyfer yr FDAC, cyn cael gwybod nad oedd yn bosibl iddynt dderbyn y lle oherwydd y tebygolrwydd y byddai'r gwasanaeth yn dod i ben cyn y byddent yn cyrraedd diwedd y broses. Gan fyfyrio ar hyn, roedd un o'r barnwyr yn teimlo fod yna ymdeimlad o anghyfiawnder, ymdeimlad a'i hysgogodd i annog yr Awdurdod Lleol (yn llwyddiannus) i helpu'r teulu y tu allan i broses yr FDAC. Esboniodd y barnwr:

> *"Mynegais yn glir nad oeddwn yn disgwyl i'r awdurdod lleol gynnig lle iddyn nhw yn yr FDAC – byddai hynny'n amhosibl, ond* [fy nymuniad oedd] *gofyn i'r awdurdod lleol ddarparu ychydig yn rhagor o wasanaethau nag y bydden nhw'n ei wneud fel arfer. Oherwydd roeddwn i'n teimlo bod yna* [ymdeimlad o] *greulondeb ynghylch cynnig y gwasanaeth hwn i deulu, wedyn* [maen nhw'n] *pasio'r prawf cyntaf, ac yn sydyn rydyn ni'n dweud 'mewn gwirionedd, ni allwn ni ddarparu'r gwasanaeth – rydyn ni'n tynnu'r cynnig yn ôl'…Felly, ar y dechrau, roedd yr awdurdod lleol yn dweud, 'wel, os nad ydyn nhw'n mynd i gael lle yn yr FDAC, dydyn ni ddim yn mynd i wneud unrhyw asesiadau pellach, oherwydd rydyn ni eisoes wedi'u hasesu nhw ac mae'n negyddol'…Ond roeddwn i'n teimlo na allai hynny fod yn iawn i deulu a oedd wedi cael cynnig lle yn yr FDAC ac nad oedd yn gallu derbyn y cynnig, a hynny heb fod unrhyw fai arnyn nhw. Doeddwn i ddim yn gweld sut y gallai fod yna unrhyw elfen o degwch mewn dweud, 'wel, os na allwch chi gael yr asesiad arbennig hwnnw sy'n hynod o dda ac wedi'i gynllunio i'ch helpu chi i wneud newidiadau', ac yna ddweud yn sydyn, 'wel, dydyn ni ddim yn mynd i wneud dim gyda chi. Mae canlyniad hyn yn golygu bod eich plant yn mynd i gael eu mabwysiadu'".* – Un o farnwyr yr FDAC

Gan fod yn ymwybodol o'r modd y gallai'r teulu ddehongli'r penderfyniad hwn, a chydag ystyriaeth ehangach o sut y gellid sicrhau cyfiawnder trwy gyfrwng y broses, aeth ymlaen i ychwanegu:

*"Oherwydd trwy gymryd y safiad hwnnw, yr hyn maen nhw'n ei ddweud wrth y rhieni yw, wel, na, does dim byd yn mynd i newid oherwydd dydyn ni ddim yn mynd i wneud unrhyw beth mewn gwirionedd. Felly pan ddywedais nad oeddwn yn bwriadu mynd i lawr y llwybr hwnnw ac nad oedd unrhyw fath o gyfiawnder o gwbl i'w weld ynghlwm wrth hynny, a phan ddywedais nad oeddwn am weld yr FDAC yn cael ei ailadrodd, a'm bod am i chi feddwl nid yn unig am asesu'r teulu, ond am y modd y gallwch chi ei helpu i newid…gwneud rhywfaint o waith uniongyrchol gydag aelodau'r teulu, sefydlu pethau, nid dim ond rhyw ddweud, 'Ewch i'r gwasanaethau cymorth ar gyfer alcohol', gan eu helpu'n go iawn i ymgysylltu â hynny."* – Un o farnwyr yr FDAC

Roedd yr effaith ar deuluoedd a oedd eisoes o fewn achos yr FDAC hefyd yn andwyol, yn enwedig y rhai a fyddai fel arall wedi gweld achos yn cael ei estyn lle roedd aduno'n ymddangos yn debygol. Fel yr eglurodd un o'r barnwyr, i bob pwrpas roedd y bygythiad bod y cynllun peilot yn dod i ben yn dileu – neu'n cwtogi'n sylweddol – yr opsiwn o gael estyniadau i achosion:

*"Mae gen i achos lle mae hi bron yn sicr – dydw i ddim wedi cael yr adroddiad terfynol eto – y byddan nhw'n argymell estyniad. Yn amlwg, ni all hynny bellach fod yn estyniad i'r achos gyda chyfranogiad parhaus tîm yr FDAC. Felly beth mae hynny'n ei olygu wedyn o ran y fam honno, sydd wedi gwneud camau mor enfawr? Beth mae'r awdurdod lleol yn mynd i'w ddweud y mae angen iddo ddigwydd 'nawr? Ydyn nhw'n mynd i allu ailadrodd rhai o'r gwasanaethau hynny, os o gwbl? Dyna beth fydda i'n ei ofyn iddyn nhw, ond fydd dim sicrwydd. Ac felly mae'n taflu teuluoedd unigol i ganol anhrefn. Ac ni roddir unrhyw ystyriaeth iddynt. Mae'n eithaf ffiaidd yn hynny o beth, ac mae'n ffordd eithaf annynol o ddelio â phobl."* – Un o farnwyr yr FDAC

Mewn rhai achosion, rhoddwyd estyniadau ond am amserlen fyrrach na'r hyn a fyddai wedi bod yn wir pe na bai'r cynllun peilot wedi dod i ben pan wnaeth, a mynegwyd pryderon y gallai hyn olygu bod rhieni mewn sefyllfa fwy bregus. Arweiniodd y pwysau ar adnoddau ar y pryd at farnwr arall yn rhannu'r ffaith bod tîm yr FDAC wedi gorfod dweud, i bob diben, "*allwn ni ddim rhoi'r hyn y bydden ni fel arfer wedi ei roi i deuluoedd, hyd yn oed wrth ddod i ddiwedd y broses asesu hon, a hynny am fod yn rhaid i ni gau pen y mwdwl ar bopeth i bob pwrpas".*

<u>Goblygiadau i weithwyr proffesiynol</u>

Roedd i'r amwysedd ynghylch cyllid tuag at ddiwedd y cynllun peilot oblygiadau i weithwyr proffesiynol hefyd. Roedd y rhagolygon o fod yn ddi-waith yn golygu bod cadw staff yn nhîm yr FDAC yng nghamau olaf y cynllun peilot yn anodd, a hynny am fod aelodau'r tîm, yn ddealladwy, yn chwilio am gyflogaeth amgen rhag ofn na châi'r cynllun peilot ei estyn. Roedd hyn yn sail i'r pryderon a leisiwyd gan un barnwr ynghylch "*colli'r tîm*" pe bai gwerthusiad cadarnhaol yn argymell bod yr FDAC yn parhau neu'n cael ei ehangu. Ymhelaethodd y barnwr ar hyn pan nad oedd penderfyniad ar ariannu estyniad wedi ei leisio eto. Eglurodd y problemau y byddid yn dod wyneb yn wyneb â nhw hyd yn oed pe bai penderfyniad hwyr yn galluogi'r cynllun peilot i barhau:

*"Mae yna risg go iawn y bydd y tîm yn chwalu naill ai cyn i'r FDAC ddod i ben, oherwydd bod yr aelodau'n poeni am y peth ac yn dechrau chwilio am swydd arall ac yn mynd amdani. Mae yna bryder, os bydd yn rhaid i ni gau'r drysau'n llwyr a bod yna fwlch o fis neu ddau, y bydd y cyllid yn dod ar gael yn sydyn, a phawb felly'n dathlu. Wel, byddwn wedi colli'r tîm ac felly bydd yn rhaid i ni ei adeiladu eto* [o ddim]. *Roeddwn wedi rhagweld – wedi gobeithio – y gallen ni efallai ddefnyddio'r arbenigedd a feithrinwyd yn ein tîm i estyn*

*allan i feysydd eraill am fod gennym eisoes dîm sefydledig yng Nghymru, tîm y gallai timau wedyn ddysgu oddi wrtho. Ac os bydd ein tîm yn diflannu, yna fydd gennym ni neb."* – Un o farnwyr yr FDAC

Ategwyd hyn gan un o'r cynrychiolwyr cyfreithiol, a leisiodd bryderon am ddarparu fersiwn ehangach o'r FDAC. Teimlai fod gan yr FDAC allu derbyniol iawn i roi adnoddau i ddatrys problemau teuluol, ond dywedodd fod cynaliadwyedd hyn oll yn *"un o'r pethau rwy'n poeni amdano yn y tymor hwy, o wybod sut mae gweddill y byd yn gweithredu ar adnoddau cyfyngedig".*

Ar lefel o ddydd i ddydd, roedd y posibilrwydd y byddai'r cynllun peilot yn dod i ben ac amwysedd ynghylch cyllid yn y dyfodol hefyd yn effeithio ar forâl staff ac yn newid dynameg y tîm. Heb unrhyw deuluoedd newydd i weithio gyda nhw, mynegodd aelod o dîm yr FDAC fod yna deimlad yn bodoli "*ei fod e i gyd yn dod i ben, yn hytrach na rhai yn gorffen, rhai yn dechrau",* a mynegwyd siom gan farnwr fod "*yr hyn y gallem ei gynnig i deuluoedd, yr ydym i gyd yn meddwl sy'n elfen gadarnhaol iawn a gwahanol, wedi cael ei warafun i ni a'i warafun iddyn nhw".*

Roedd consensws ymhlith y gweithwyr proffesiynol a gymerodd ran yn y gwerthusiad nad oedd diwedd y cynllun peilot wedi cael ei drin yn dda, ac roedd rhai yn feirniadol iawn o'r penderfyniad i ddod â'r cynllun peilot i ben. Bu i'r modd y cafodd y penderfyniad i beidio ag estyn y cynllun peilot ei gyfleu i weithwyr proffesiynol gael arfarniad tebyg, lle y'i disgrifiwyd fel *"llanast llwyr"* a *"gwarth llwyr"* gan un o farnwyr yr FDAC. Er bod un cyfathrebiad gan uwch-reolwr wedi disgrifio'r cynllun peilot yn dod i "ddiweddglo naturiol oherwydd cyllid", roedd yn amlwg yn y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws bod y rhai a oedd yn rhan o'r cynllun peilot yn teimlo bod y terfynu yn bopeth ond naturiol.

## Parodrwydd ar gyfer gwerthuso pellach

Fel y dengys y setiau o ddamcaniaethau ynghylch y rhaglen, mae'r astudiaeth hon wedi esgor ar ddealltwriaeth llawer mwy manwl nag a fodolai cyn hyn o'r modd y mae'r FDAC yn gweithio. Dyma hefyd gipolwg cyntaf ar y modd y mae'n gweithio yng Nghymru, sy'n bwysig nid yn unig i'r rhai sy'n ceisio comisiynu neu weithredu'r FDAC mewn mannau eraill – boed hynny mewn rhannau eraill o Gymru neu rywle arall yn y DU, mae hefyd yn wybodaeth hanfodol y gellir ei defnyddio i gynorthwyo ymdrechion i werthuso'r FDAC yn fwy trylwyr. Ar ben hynny, mae hefyd yn gipolwg dadlennol ar yr ystod o ganlyniadau yr ymddengys y gall yr FDAC eu cyflawni ar gyfer teuluoedd. Yn amlwg, roedd gwaith cynllun peilot FDAC Caerdydd a'r Fro yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag ystod ehangach o broblemau a nodau nag y byddai llenyddiaeth flaenorol ar y model yn ei awgrymu.

Gan fod hwn yn ymyriad cymhleth, mae gwerthusiad mwy yn ofynnol i bennu i ba raddau y mae'r gweithredu'n dod yn agos at y damcaniaethau hyn. Bydd angen i unrhyw astudiaethau o'r fath ystyried pa ganlyniadau sydd bwysicaf a sut y dylid eu mesur. Er ei bod yn arferol i astudiaethau crynodol ddewis nifer bach o ganlyniadau o ddiddordeb, ac un 'prif' ganlyniad sydd o'r pwys mwyaf, mae canfyddiadau'r gwerthusiad hwn yn awgrymu nad yw hyn o reidrwydd yn syml.

Mae rôl cyfiawnder gweithdrefnol fel canlyniad pwysig i'r FDAC hefyd yn achosi problem o ran mesur canlyniadau. Gwnaed rhywfaint o waith mewn meysydd eraill o ran cysyniadu a mesur cyfiawnder gweithdrefnol, ond yn ôl gwybodaeth yr ymchwilwyr, nid yw hyn wedi'i gymhwyso eto i'r FDAC (gweler, er enghraifft, Scarpello a Jones, 1996; Gau, 2014). Dylai astudiaethau yn y dyfodol ystyried sut i ymgorffori'r cysyniad hwn mewn astudiaethau gwerthuso'r FDAC.

# Trafodaeth

Nid oedd yr astudiaeth hon yn werthusiad o effaith, ac nid oedd chwaith yn cynnwys dadansoddiad economaidd[20]. Er y byddai'r ddau yn addysgiadol ac y dylent fod yn rhan o unrhyw werthusiad FDAC yng Nghymru yn y dyfodol, roeddent y tu hwnt i gwmpas a chyllid y gwerthusiad hwn. Mae'r math o astudiaeth a gynhaliwyd yn fwy priodol ar gyfer cam datblygu'r FDAC yng Nghymru, a hynny am ei bod yn canolbwyntio ar weithredu cynllun peilot Caerdydd a'r Fro, y modd y cafodd ei roi ar waith, y modd y cafodd ei brofi yn y cyd-destun hwn, unrhyw dystiolaeth ddangosol o effaith, a pha mor addas ydyw ar gyfer ei gyflwyno a'i werthuso'n ehangach.

Archwiliodd y gwerthusiad sawl agwedd ar gynllun peilot FDAC Caerdydd a'r Fro, craffodd ar safbwyntiau a phrofiadau ystod eang o bobl a oedd ynghlwm wrtho, a datblygodd ddamcaniaethau ynghylch sut y cynhyrchodd yr FDAC ganlyniadau ar ei ffurf gyntaf yng Nghymru. Ynghyd â'r adroddiad interim, mae'r canfyddiadau'n amlygu sawl mater polisi perthnasol sy'n haeddu trafodaeth bellach.

### Gweithredu'r FDAC yng Nghymru

Mae'r astudiaeth wedi dangos ei bod yn bosibl sefydlu gwasanaeth FDAC yng Nghymru, a bod y ddarpariaeth a gynigiwyd i deuluoedd yn gyson yn fras â'r model sefydledig, gyda rhywfaint o amrywiad lleol sydd wedi dod i'w ddisgwyl o ran FDACs yn y DU. Mae hwn yn gyflawniad pwysig, yn un a ddaeth i fod yn sgil cydweithrediad sawl rhanddeiliad. Roedd yn ymddangos bod ethos clir dull yr FDAC wedi ysgogi'r rhai a oedd â'r dasg o'i gyflenwi, ac wedi eu helpu i ddarparu gwasanaeth i deuluoedd a oedd yn hynod o wahanol i'r hyn y byddent wedi'i gael trwy achosion gofal safonol. Golygodd problemau o ran atgyfeirio a derbyn, ynghyd â rhywfaint o ddryswch ynghylch y meini prawf a'r broses o wneud penderfyniadau wrth ddrws ffrynt y gwasanaeth, fod llai o deuluoedd na'r disgwyl wedi ei brofi.

Un agwedd anffodus ar y cynllun peilot oedd y diffyg cysondeb rhwng amserlenni'r cynllun peilot a'r gwerthusiad hwn. Heb os, bydd cau'r peilot cyn diwedd y gwerthusiad yn creu heriau i'r rhai a fydd yn gyfrifol am ei ailsefydlu, os gwneir penderfyniad i barhau neu ehangu'r FDAC yng Nghymru. Gallai'r wybodaeth, y profiad, y seilwaith a'r prosesau a ddatblygwyd gan gynllun peilot Caerdydd a'r Fro yn ystod y cyfnod o'i roi ar waith fod wedi cael eu defnyddio i lywio a chefnogi safleoedd eraill. Mae angen amser i ymyriadau cymhleth ymsefydlu ac ni ellir eu 'troi ymlaen a'u diffodd' yn hawdd. O ganlyniad, bydd angen rhagor o waith i ailsefydlu'r FDAC yng Nghymru neu i sicrhau llwyddiant unrhyw ehangu ar yr FDAC. Bydd yn ofynnol deall a mynd i'r afael â nifer o ffactorau gweithredu a chyd-destunol, megis y rhai a nodir yn yr adroddiad hwn (gweler adran 2 Canfyddiadau, Ffactorau gweithredu). Bydd angen rhagor o waith hefyd i ddeall goblygiadau a heriau ehangu safleoedd yr FDAC i gefnogi nifer mwy o awdurdodau lleol, y modd y bydd yn gweithredu mewn rhanbarthau gwahanol (yn enwedig ardaloedd gwledig), a sut y bydd yn rhyngweithio â gwasanaethau sy'n bodoli eisoes, megis y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd a darpariaethau dwys eraill i deuluoedd.

[20] Er nad yw'r astudiaeth bresennol yn darparu amcangyfrifon o gostau na chosteffeithiolrwydd, mae yna rywfaint o dystiolaeth yn bodoli fod yr FDAC yn costio llawer llai nag achosion gofal safonol ac yn cynhyrchu arbedion ar unwaith ac yn y tymor hwy (Bowen, 2021; Whitehead a Reeder, 2016).

## Canlyniadau a thystiolaeth o addewid

Mae'r astudiaeth yn cynnig rhywfaint o ddirnadaeth o ran a yw’r FDAC yn effeithiol, er ei bod yn dibynnu ar ddyluniad sylfaenol cyn ac ar ôl nad oes iddo gymhariaeth wrthffeithiol. Er nad oedd rhywfaint o’r dadansoddi’n bosibl oherwydd diffyg cyflawnrwydd y data/symiau mawr o ddata anhysbys a gwrthgyferbyniol, dangosodd y data a oedd ar gael ostyngiadau nodedig yn y lefelau camddefnyddio sylweddau ymhlith y rhieni o gymharu dechrau a diwedd achosion. Yn yr un modd, ac yn elfen sy’n debygol o fod yn gysylltiedig â'r newidiadau cadarnhaol hyn, roedd nifer y plant a gafodd eu lleoli gyda’u rhieni ar ddiwedd achosion yn fwy na dwbl y nifer ar y dechrau.

Er na ellir gwarantu ar hyn o bryd mai’r FDAC sy'n achosi'r newidiadau, mae'r canlyniadau hyn, ynghyd ag adborth cadarnhaol iawn gan rieni ac adborth cadarnhaol yn gyffredinol gan randdeiliaid proffesiynol, o leiaf yn cefnogi'r ddadl y dylid archwilio’r FDAC ymhellach yng Nghymru. Mae hefyd yn lleddfu unrhyw bryderon posibl y gallai'r ymyriad gael effaith negyddol. Mae angen data hydredol i ymchwilio ymhellach i ganlyniadau tymor hwy yr FDAC, megis a yw'r plant yn rhan o achosion pellach yn y dyfodol.

Ers sefydlu'r model yn Llundain, mae aduno wedi cael ei ystyried yn ganlyniad allweddol i’r FDAC. Mae hon yn enghraifft glasurol o ganlyniad 'caled' gan ei fod yn bwysig ac yn un y gellir ei fesur yn wrthrychol (Grey et al., 2018; Young, n.d.). Gan ei fod yn benderfyniad terfynol ynghylch sefydlogrwydd i'r plentyn, ac iddo oblygiadau cyllidol sylweddol i'r wladwriaeth, mae'n hawdd deall pam y mae aduno wedi bod yn brif ganlyniad o ddiddordeb i’r FDAC. Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad presennol yn rhoi darlun mwy cymhleth. Mae'n awgrymu bod aduno yn un o nifer o ganlyniadau pwysig y mae’r FDAC yn gweithio tuag atynt ac nad yw o reidrwydd yn cael ei ystyried fel yr un pwysicaf gan rieni neu randdeiliaid proffesiynol. Yn aml, canlyniadau megis gwella perthnasoedd teuluol, lleihau’r camddefnydd o alcohol a sylweddau, a dod o hyd i opsiynau amgen a diogel i blant breswylio yn eu teuluoedd biolegol oedd prif ffocws tîm yr FDAC.

Mae'r set ehangach hon o nodau yn gwneud synnwyr yng ngoleuni ffocws yr FDAC o fod yn ddull datrys problemau, a'r ffaith bod llawer o rieni sy'n rhan o achosion cyfraith gyhoeddus yn wynebu nifer o broblemau rhyng-gysylltiedig. Yn hytrach na chanolbwyntio mewn modd cul ar y diweddbwynt, mae'r broses llys yn asiant newid gweithredol sy'n delio â llawer o faterion gwahanol. Roedd yna gydnabyddiaeth hefyd y gallai’r FDAC fod o gymorth i rai teuluoedd hyd yn oed os nad yw aduno yn obaith realistig. Mae angen i gysyniadau o’r FDAC yn y dyfodol – a’r modd y mae llwyddiant yn cael ei gysyniadu – ystyried ystod ehangach o ganlyniadau a nodau, a hynny heb golli golwg ar bwysigrwydd aduno.

Ar lefel fwy haniaethol, amlygwyd pwysigrwydd ‘cyfiawnder gweithdrefnol' y broses trwy gydol yr astudiaeth hefyd. Er enghraifft, yn rhan o gadwyn achosol 1 yn y ddamcaniaeth ynghylch y rhaglen sy'n ymwneud ag adolygiadau bob pythefnos gan unigolyn nad yw’n gyfreithiwr, credid bod y rhieni’n ystyried y barnwr a'r achos yn decach oherwydd yr atebolrwydd a rennir. Mae mesur o’r graddau yr oedd y partïon yn teimlo bod hyn yn cael ei wireddu hefyd yn ymddangos yn bwysig. Gall p'un a yw gwrandawiadau terfynol yn cael eu herio neu beidio fod yn ddirprwy rhannol ar gyfer y cysyniad hwn, ond dylid archwilio rhai eraill.

## Y cyd-destun

Mae'r astudiaeth hon yn ychwanegu pwysau at ddadleuon a wnaed mewn mannau eraill am rôl cyd-destun mewn gwerthusiadau realaidd (Dixon-Woods, 2014). Er y nodwyd mecanweithiau a

chanlyniadau yn gymharol gyson, roedd yna amrywiaeth fawr yn y cyd-destunau. Gellid adnabod rhai, ond, ar y cyfan, roeddent yn anoddach eu dirnad. Mae hyn wedi arwain at fylchau a diffyg eglurder cyffredinol ynghylch y cyd-destunau lle'r ysgogwyd mecanweithiau i gynhyrchu canlyniadau, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â'r teuluoedd a ddefnyddiodd yr FDAC.

### Cyllid

Bu i'r ansicrwydd ynghylch cyllid estynedig ar gyfer y cynllun peilot achosi trafferth difrifol i'r gwasanaeth, ac – ynghyd â'r penderfyniad i beidio ag estyn y cynllun peilot y tu hwnt i fis Tachwedd 2023 – ni allodd rhai teuluoedd gwblhau proses yr FDAC wedi iddynt ddechrau. Fel y nodwyd yn yr adroddiad interim, nid yw materion ariannu wedi'u cyfyngu i'r cynllun peilot hwn; oherwydd heriau mewn perthynas â chyllid, cyfyngwyd neu tarfwyd ar nifer o wasanaethau'r FDAC yn Lloegr, neu cawsant eu cau. Nid yw materion ariannu wedi'u cyfyngu i'r FDAC ei hun chwaith; yn anffodus, mae problemau a achosir gan ansicrwydd ynghylch cyllid, penderfyniadau hwyr, a chanslo yn gyffredin ar draws llawer o ymyriadau ym maes Gofal Cymdeithasol Plant (see Westlake et al., 2023 for another example).

Er gwaethaf cynefindra'r heriau hyn, mae angen i wasanaethau'r FDAC yn y dyfodol sicrhau cyllid cynaliadwy i'w galluogi i gynnig gwasanaeth cyson a dibynadwy i deuluoedd. Yn ei ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer y cynllun peilot, nododd Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol De-ddwyrain Cymru ddiddordeb mewn datblygu 'cais buddsoddi i arbed' rhanbarthol a allai gynnig opsiwn addawol ar gyfer cyllid i'r FDAC yng Nghymru yn y dyfodol. Fodd bynnag, bu iddo, yn briodol, dynnu sylw at yr angen am ddadansoddiad ariannol i bennu cost gyfartalog achosion gofal safonol, ynghyd â thystiolaeth o unrhyw arbedion cost sy'n gysylltiedig â'r FDAC.

### Ansawdd data

Un o'r prif faterion y bydd angen i unrhyw safle FDAC yn y dyfodol eu cadw mewn cof yw'r broses o gasglu data gweinyddol arferol, ac ansawdd a chyflawnrwydd y data hynny. Fel y trafodwyd uchod, roedd yna lawer o broblemau'n bodoli o ran y data lefel gwasanaeth gweinyddol a gasglwyd yn rhan o'r cynllun peilot, sy'n peri peth syndod o ystyried y niferoedd cymharol hydrin a oedd dan sylw. Yn anffodus, roedd y cynllun peilot wedi cau erbyn i'r dadansoddiad gael ei gynnal, a olygodd na ellid gwirio a datrys anghysonderau yn y data mewn ymgynghoriad â thîm yr FDAC. Fodd bynnag, pwynt ehangach yw y gall y materion hyn barhau i fod yn rhwystr i bennu effaith yr FDAC os na chânt sylw. Yn yr un modd, mae ymchwilwyr eraill wedi dod ar draws problemau gyda data a gasglwyd am achosion gofal yn fwy cyffredinol, elfen sy'n peryglu dilysrwydd unrhyw ddadansoddiad cymharol.

### Cryfderau a chyfyngiadau

Mae i'r gwerthusiad hwn nifer o gryfderau a chyfyngiadau. Mae'r ystod o ddulliau a ddefnyddiwyd a nifer y cyfarfyddiadau â chyfranogwyr yn golygu bod yr astudiaeth wedi cipio data bron ym mhob cam o broses yr FDAC. Mae'r swm mawr o ddata ansoddol yn taflu goleuni ar y gwasanaeth a sut y mae'n cael ei brofi gan rieni a gweithwyr proffesiynol. Mae cyfranogiad gweithwyr proffesiynol wedi bod yn arbennig o fuddiol – yn ogystal â chael ymgysylltiad da gan y rhai a oedd yn nhîm yr FDAC, roedd nifer o randdeiliaid proffesiynol eraill a oedd yn gweithio gyda theuluoedd yn y cynllun peilot wedi cymryd rhan. Mae hyn wedi ennyn dirnadaeth am yr FDAC ymhlith gweithwyr proffesiynol sy'n *agos at* yr ymyriad ond nid *yn rhan ohono*. Mae cyfranogiad gweithredol barnwyr hefyd wedi cryfhau'r astudiaeth.

Hyd yn hyn, a hyd eithaf gwybodaeth yr ymchwilwyr, y damcaniaethau ynghylch y rhaglen a gyflwynir yn y gwerthusiad hwn yw'r damcaniaethau mwyaf manwl o ran y modd y mae'r FDAC yn gweithio. Maent yn offeryn esboniadol ar gyfer y modd i gyflawni canlyniadau llwyddiannus yn gyffredinol, mewn cyd-destunau penodol, i deuluoedd sy'n rhan o achosion FDAC. Gellir defnyddio'r damcaniaethau ynghylch y rhaglen i gynorthwyo'r broses o ddatblygu a gwerthuso polisi FDAC yn y dyfodol a byddant yn llywio allbwn sy'n canolbwyntio ar ymarfer yn y dyfodol.

Mae yna hefyd nifer o gyfyngiadau i'w hystyried. Nid oedd yn bosibl cael mynediad at ddata cymharol o safleoedd yr FDAC yn Lloegr i gymharu canlyniadau i deuluoedd a oedd yn ymwneud â chynllun peilot Caerdydd a'r Fro a theuluoedd sy'n ymwneud â gwasanaethau FDAC eraill. Ar ben hynny, roedd ansawdd y data lefel gwasanaeth meintiol a oedd ar gael yn wael. Yng ngoleuni profiadau tebyg o werthusiadau FDAC eraill, gan gynnwys y rhai a oedd ag adnoddau llawer gwell na'r astudiaeth hon, mae hwn yn ganfyddiad sy'n peri pryder. Mae'n awgrymu bod angen gwella ansawdd y data sydd ar gael am yr FDAC (ac yn wir am achosion llysoedd teulu eraill) yn sylweddol i allu bwrw ymlaen â gwerthusiadau crynodol o'r FDAC. Serch hynny, mae'r problemau a gafwyd o ran ansawdd y data wedi arwain at gasgliadau sy'n cefnogi casgliadau ymchwil i FDAC eraill. Dylai hyn o leiaf gryfhau'r achos dros weithredu i wella ansawdd y data yn y dyfodol.

Yn ymarferol, roedd hefyd yn amhosibl mabwysiadu'r dull gweithredu ar sail astudiaethau achos a fwriadwyd i ddilyn teuluoedd trwy'r achosion. Y rheswm am hyn oedd fod niferoedd is na'r disgwyl o deuluoedd yn cymryd rhan yn y gwerthusiad, er bod hyn wedi'i liniaru'n rhannol trwy gynnwys ystod ehangach o deuluoedd mewn gweithgareddau casglu data, elfen a alluogodd i nifer o brofiadau gael eu cipio o hyd ar adegau gwahanol yn ystod yr achosion, er bod yr elfen astudiaeth achos wedi'i cholli.

# Casgliadau ac argymhellion

Mae'r adroddiad hwn wedi cyflwyno canfyddiadau gwerthusiad bach o’r FDAC yng Nghymru, yn seiliedig ar gynllun peilot Caerdydd a’r Fro. Mae wedi awgrymu ei bod yn ymarferol gweithredu dull yr FDAC yng nghyd-destun De Cymru, ac wedi amlygu ffactorau amrywiol a oedd yn gysylltiedig â sefydlu a darparu'r gwasanaethau. O’u hystyried ynghyd, mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn gadarnhaol ac yn cefnogi'r defnydd parhaus o’r FDAC yng Nghymru fel ffurf amgen ar achosion gofal yn y llys teulu. Roedd y rhan fwyaf o’r rhanddeiliaid yn teimlo bod gan yr FDAC amrywiol fanteision o gymharu ag achosion gofal safonol, a'i fod yn fodel gwell ar gyfer helpu teuluoedd a dod i benderfyniadau priodol ynghylch parhauster i blant. Mae'r dadansoddiad o newidiadau meintiol rhwng dechrau a diwedd achosion, er ei fod yn gyfyngedig, yn awgrymu bod yr FDAC yn addawol mewn sawl ffordd. Mae angen dadansoddiad mwy cadarn o effaith yn awr i wirio a ellir priodoli’r newidiadau cadarnhaol a welwyd i'r ymyriad. Dylai’r damcaniaethau ynghylch y rhaglen a'r dadansoddiad o’r gweithredu gynorthwyo unrhyw ddatblygiad o ran yr FDAC yn y dyfodol, a hynny yng Nghymru ac yng ngweddill y DU.

Roedd i’r cynllun peilot ei heriau. Er bod y rhieni a’r gweithwyr proffesiynol a oedd yn agos at y gwasanaeth yn hynod o gadarnhaol ynghylch yr FDAC, roedd rhai o’r rhanddeiliaid proffesiynol ar y cyrion – cynrychiolwyr cyfreithiol yn bennaf – yn fwy beirniadol. Roedd barnwyr a thîm yr FDAC yn priodoli hyn i gamddealltwriaeth ynghylch natur y model, a'r athroniaethau sy'n sail iddo.

Yn y dyfodol, bydd gwell data am effaith yr FDAC, gan gynnwys cyfraddau’r achosion a ailadroddir, trefniadau lleoli sy’n methu, a chyfranogiad gwasanaethau amddiffyn plant yn y dyfodol, yn gwneud effeithiolrwydd dull yr FDAC o weithredu yn fwy eglur. Yn y cyfamser, mae'n bwysig bod pob gweithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â'r model yn ymgysylltu ac yn ymrwymo i'r hyn sy'n ffordd eithaf gwahanol o gynnal achosion cyfraith gyhoeddus fel y gellir ymdrechu i lunio consensws a meithrin cyd-ddealltwriaeth. Gall hyn arwain at addasiadau pellach o ran y modd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu a'r cymorth y mae'n ei ddarparu.

Mae’n werth nodi bod yr astudiaeth wedi amlygu’r angen i ddatrys y broblem o ddewis a mesur canlyniadau ar gyfer yr FDAC, ac mae'r data'n awgrymu efallai na fydd ffocws syml ar aduno yn ddigonol. Mae gan nifer o'r materion a drafodir uchod oblygiadau o ran camau nesaf y broses o werthuso’r FDAC, p'un a yw'n cael ei weithredu’n ehangach yng Nghymru neu mewn mannau eraill.

## Argymhellion

Nod yr argymhellion canlynol, sy’n seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad hwn, yw cefnogi’r broses o weithredu, cyflwyno, ehangu a gwerthuso’r FDAC yng Nghymru, ac yn ehangach yn y DU.

**Argymhelliad 1: Symud ymlaen â’r cynlluniau i ehangu’r FDAC ymhellach yng Nghymru, a chomisiynu gwerthusiad o’r effaith a’r gosteffeithiolrwydd.** Mae canfyddiadau’r gwerthusiad hwn, sy’n gyffredinol gadarnhaol, yn cefnogi'r defnydd parhaus o’r FDAC yn y llys teulu yng Nghymru. Dylai cyllid ar gyfer unrhyw safleoedd FDAC newydd ystyried y rolau craidd yn nhîm yr FDAC y mae eu hangen i sicrhau y gall y gwasanaeth redeg mewn modd effeithiol a chynaliadwy, a bod teuluoedd yn cael y gefnogaeth y mae pobl yn ei ddisgwyl bellach, ac sy’n gyson â model yr FDAC. Bydd yn hanfodol deall y goblygiadau a’r heriau o ran ehangu safleoedd yr FDAC, a bydd yn angenrheidiol gwneud hynny i fynd i'r afael â nifer o'r rhwystrau i weithredu a amlygir yn yr adroddiad hwn.

**Argymhelliad 2: Cynyddu cyfleoedd hyfforddi ar gyfer yr holl randdeiliaid sy'n rhyngweithio â’r FDAC a chynnig hyfforddiant dilynol i weithwyr proffesiynol ar ôl iddynt ddechrau gweithio gyda theuluoedd yn yr FDAC.** Dylai hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol sydd y tu allan i'r gwasanaeth egluro nodau a chwmpas yr FDAC ynghyd â rôl, natur a gwerth dull datrys problemau yn fwy cyffredinol. Byddai hyn yn helpu i leihau camsyniadau a dryswch ymhlith gweithwyr proffesiynol ynghylch y modd y mae risgiau'n cael eu nodi a sut yr ymdrinnir â nhw yn yr FDAC, ynghylch yr hyn y gall y gwasanaeth ddarparu cymorth ar ei gyfer, ac ynghylch ymgysylltu â theuluoedd mewn modd sy'n cyd-fynd â'r dull gweithredu. At hynny, egluro trothwyon a'r broses atgyfeirio byddai'n sicrhau bod teuluoedd a allai elwa o’r FDAC yn cael y cyfle i ddefnyddio'r gwasanaeth.

Byddai ail sesiwn hyfforddi neu 'sesiwn ddiweddaru' ar ôl i'r gweithwyr proffesiynol, yn enwedig tîm yr FDAC, ddechrau gweithio gyda theuluoedd yn yr FDAC yn rhoi cyfle ychwanegol i ymarferwyr fynd i sesiwn hyfforddiant ar yr FDAC pe na allent fod yn bresennol yn y lle cyntaf. Byddai hefyd yn atgyfnerthu gwybodaeth y tîm am y model yng nghyd-destun cymhwyso'r prosesau a'r egwyddorion, ac ar ôl iddynt nodi meysydd y mae arnynt angen arweiniad neu gymorth pellach.

**Argymhelliad 3: Gwella ansawdd a chyflawnrwydd y data am yr FDAC ac achosion gofal safonol a gesglir fel mater o drefn.** Mae hyn yn hanfodol er mwyn braenaru’r tir ar gyfer gwerthuso effaith yr FDAC ymhellach, yn enwedig yn ystod cyfnod peilot. Efallai y bydd galluogi a/neu hyfforddi timau’r FDAC i wneud hyn yn gofyn am adnoddau ychwanegol yn nhimau’r FDAC. Mae data cyson o ansawdd da am achosion yr FDAC ac achosion safonol yn hanfodol ar gyfer dadansoddi’r effaith gymharol ac ar gyfer cynnal gwerthusiad economaidd. Dylid ystyried casglu data am newidynnau ychwanegol i allu dadansoddi’r gosteffeithiolrwydd yn well.

**Argymhelliad 4: Rhoi ystyriaeth bellach i’r modd y mae canlyniadau heblaw aduno yn cael eu diffinio a'u mesur.** Mae aduno yn un o lawer o ganlyniadau cadarnhaol posibl i deuluoedd sy'n ymwneud â’r FDAC. Byddai ehangu'r ystyriaeth o’r modd y gallai'r canlyniadau hyn gael eu diffinio a'u mesur yn fwy cyson yn caniatáu i werth yr FDAC gael ei ddeall yn well. At hynny, dylid archwilio dulliau o gysyniadu cyfiawnder gweithdrefnol a mesur i ba raddau y mae'n cael ei wireddu.

**Argymhelliad 5: Ehangu'r amserlenni ar gyfer sefydlu a gweithredu’r cynllun peilot.** Cyn agor safle FDAC newydd, mae angen amser digonol i recriwtio staff i swyddi, darparu hyfforddiant, hysbysebu'r gwasanaeth, a datblygu ac egluro cynlluniau strategol a nodau’r gwasanaeth. Os bydd angen oedi cyn lansio safle FDAC newydd, a hynny i ddarparu amser ychwanegol ar gyfer cynllunio a pharatoi safle FDAC mewn modd priodol, dylid ystyried gwneud hyn. Dylid pennu argaeledd ac amseriad unrhyw ganfyddiadau gwerthuso yn y cyfnod hwn hefyd i sicrhau bod penderfyniadau ynghylch dyfodol yr FDAC yn seiliedig ar dystiolaeth.

# Cyfeiriadau


Astbury, B., a Leeuw, F. (2010). Unpacking black boxes: Mechanisms and theory building in evaluation. *American Journal of Evaluation, 31*(3), 363-381. https://doi.org/10.1177/1098214010371972

Baginsky, M., Hickman, B., & Manthorpe, J. (2023). *Post-proceedings Support in Gloucestershire's Family drug and alcohol Court*. Foundations.

Bowen, P. (2021). *Rolling-out Family Drug and Alcohol Courts (FDAC): the business case.* Centre for Justice Innovation. https://justiceinnovation.org/publications/rolling-out-family-drug-and-alcohol-courts-fdac-business-case

Bryant, J. (2023a, September 25). *Cardiff and Vale Family Drug and Alcohol Court Pilot.* [Letter from Jayne Bryant, Chair of the Children, Young People and Education Committee, to Julie Morgan, Deputy Minister for Social Services]. https://business.senedd.wales/documents/s140536/Letter%20from%20the%20Chair%20of%20the%20Children%20Young%20People%20and%20Education%20Committee%20to%20the%20Deputy%20Minister%20f.pdf

Bryant, J. (2023b, December 19). *Clarification of the steps leading to the closure of the FDAC pilot in November 2023.* [Letter from Jayne Bryant, Chair of the Children, Young People and Education Committee, to Julie Morgan, Deputy Minister for Social Services]. https://business.senedd.wales/documents/s143508/Letter%20from%20the%20Chair%20of%20the%20Children%20Young%20People%20and%20Education%20Committee%20to%20the%20Deputy%20Minister%20f.pdf

Centre for Justice Innovation. (2019a). *Family Drug and Alcohol Court Service Standards.* https://justiceinnovation.org/publications/family-drug-and-alcohol-court-service-standards

Centre for Justice Innovation. (2019b). *Thinking about Developing a Family Drug and Alcohol Court (FDAC)? Guidance on getting started from the FDAC national partnership.* https://justiceinnovation.org/sites/default/files/media/document/2019/20191021%20Getting-Going-2018%20Final.pdf

*Children and Families Act 2014*, c.6. https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/6/contents/enacted

Children, Young People and Education Committee. (2023a). *If not now, then when? Radical reform for care experienced children and young people.* Welsh Parliament.

Children, Young People and Education Committee. (2023b). *Children, Young People and Education Committee meeting* [transcript]. Welsh Parliament. https://record.assembly.wales/Committee/13300

Commission on Justice in Wales. (2019). *Justice in Wales for the people of Wales.* Welsh Government. https://gov.wales/commission-justice-wales-report

Damman, J. L. & Ruch, G. (2023). *Family Drug and Alcohol Courts (FDAC) Parent Mentoring Service, Pilot implementation evaluation report*. Foundations, London.

Dixon-Woods, M. (2014) *The problem of context in quality improvement.* London: Health Foundation. https://www.health.org.uk/sites/default/files/PerspectivesOnContextDixonWoodsTheProblemOfContextInQualityImprovement.pdf

Early intervention foundation. (2021). *How to conduct an implementation and process evaluation.* EIF Evaluation Hub. https://evaluationhub.eif.org.uk/implementation-and-process-studies/

FDAC National Unit. (2018). *FDAC post-proceedings handbook.* Centre for Justice Innovation. http://fdac.org.uk/wp-content/uploads/2020/04/Post-proceedings-Handbook-Updated.docx

Funnell, S., & Rogers, P. (2011). *Purposeful program theory: Effective use of theories of change and logic models*. John Wiley & Sons.

Gau, J.M. (2014). Procedural Justice and Police Legitimacy: A Test of Measurement and Structure. *American Journal of Criminal Justice, 39*, 187–205. https://doi.org/10.1007/s12103-013-9220-8

Green, B. L., Furrer, C., Worcel, S., Burrus, S., & Finigan, M. W. (2007). How effective are family treatment drug courts? Outcomes from a four-site national study. *Child Maltreatment, 12*(1), 43-59.

Grey, P., Grey, A., & Bolland, M. J. (2018). Outcomes, Interventions and Funding in Randomised Research Published in High-Impact Journals. *Trials*, *19*, 592. https://doi.org/10.1186/s13063-018-2978-8

Hallsworth, M., Chadborn, T., Sallis, A., Sanders, M., Berry, D., Greaves, F., Clements, L., & Davies, S. C. (2016). Provision of social norm feedback to high prescribers of antibiotics in general practice: A pragmatic national randomised controlled trial. *The Lancet*, *387*(10029), 1743–1752. https://doi.org/10.1016/S0140-6736(16)00215-4

Harwin, J., Alrouh, B., Broadhurst, K., McQuarrie, T., Golding, L., & Ryan, M. (2018). Child and parent outcomes in the London family drug and alcohol court five years on: Building on international evidence. *International Journal of Law, Policy, and the Family, 32*(2), 140–169. https://doi.org/10.1093/lawfam/eby006

Harwin, J., Alrouh, B., Ryan, M., & Tunnard, J. (2014). *Changing Lifestyles, Keeping Children Safe: an evaluation of the first Family Drug and Alcohol Court (FDAC) in care proceedings.* Brunel University. http://wp.lancs.ac.uk/cfj-fdac/files/2018/04/FDAC_May2014_FinalReport-V1.1.pdf

Lewis, J., Purdon, S., Bryson, C., Willis, E., & Dean, R. (2023). *Evaluation of interventions to increase engagement with Family Drug and Alcohol Courts (FDAC)*. Foundations.

Lister, A. (2023, November 1). *Welsh Government funding of the Family Drug and Alcohol Court (FDAC) Pilot*. [Letter from Councillor Ash Lister, Cabinet Member for Social Services, to

Jayne Bryant, Chair of the Children, Young People and Education Committee]. https://business.senedd.wales/documents/s500010157/Letter%20from%20Cardiff%20Council.pdf

Meindl, M., Hosch, M., & Westlake, D. (2022). *An evaluation of the Family Drug and Alcohol Court in Wales pilot: Interim report*. Cardiff University. https://cascadewales.org/research/evaluation-of-the-family-drug-and-alcohol-court-in-wales-pilot/

Mentzou, A., & Mutebi, N. (2023). *Problem-solving courts*. UK Parliament. https://post.parliament.uk/research-briefings/post-pn-0700/

Ministry of Justice. (2022). *Family Court Statistics Quarterly: January to March 2022*. GOV.UK. https://www.gov.uk/government/statistics/family-court-statistics-quarterly-january-to-march-2022/family-court-statistics-quarterly-january-to-march-2022

Ministry of Justice. (2023). *Pioneering initiative to force offenders to get clean or face jail time*. GOV.UK. https://www.gov.uk/government/news/pioneering-initiative-to-force-offenders-to-get-clean-or-face-jail-time

Morgan, J. (2023a). *Written Response by the Welsh Government to the report of the Children, Young People and Education Committee report entitled "If not now, then when? Radical reform for care-experienced children and young people".* Welsh Parliament. https://senedd.wales/media/tizdd0ro/gen-ld15931-r-e.pdf

Morgan, J. (2023b, October 16). [Letter from Julie Morgan, Deputy Minister for Social Services, to Jayne Bryant, Chair of the Children, Young People and Education Committee]. https://business.senedd.wales/documents/s141003/Letter%20from%20the%20Deputy%20Minister%20for%20Social%20Services.pdf

Morgan, J. (2024, February 15). [Letter from Julie Morgan, Deputy Minister for Social Services, to Jayne Bryant, Chair of the Children, Young People and Education Committee]. https://t.co/QiqDRVkQBM

Office for National Statistics. (2023). *How your area has changed in 10 years: Census 2021.* https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/articles/howyourareahaschangedin10yearscensus2021/2022-11-08/

Papaioannou, K., Kuo, T.-L., Dimova, S., Fugard, A., Sharrock, S., Roberts, E., Kersting, F., Haux, T., & Ng-Knight, T. (2023). *Evaluation of Family Drug and Alcohol Courts*. Foundations.

Pawson, R. (2002). Evidence-based policy: The promise of realist synthesis. *Evaluation, 8*(3) 340-358. https://doi.org/10.1177/135638902401462448

Pawson, R. (2008). Invisible mechanisms. *Evaluation Journal of Australasia, 8*(2), 3-13. https://doi.org/10.1177/1035719X0800800202

Pawson, R., & Tilley, N. (1997). *Realistic evaluation.* Sage Publications, Inc.

Lumivero. (2017). *NVivo qualitative data analysis software* (Version 12).

Sanders, M., Chande, R., & Selley, E. (2017). *Encouraging people into university: Research Report*. Department for Education. https://www.gov.uk/government/publications/encouraging-people-into-university.

Santoro, F., Groening, E., Mdluli, W., & Shongwe, M. (2020). *How to Best Nudge Taxpayers? The Impact of a Tailored Letter Experiment in Eswatini*. Institute of Development Studies. https://opendocs.ids.ac.uk/opendocs/handle/20.500.12413/15723

Scarpello, V. & Jones, F.F. (1996). Why justice matters in compensation decision making. *Journal of Organizational Behaviour, 17*, 285-299. https://doi.org/10.1002/(SICI)1099-1379(199605)17:3<285::AID-JOB750>3.0.CO;2-0

The RAMESES II Project. (2017). *What is a mechanism? What is a programme mechanism?* The RAMESES Projects. https://www.ramesesproject.org/Standards_and_Training_materials.php

Thomas, R. (2023, November 14). *Welsh Government (WG) funding of the family drug and alcohol court (FDAC) pilot.* [Letter from Robert Thomas, Chief Executive of the Vale of Glamorgan Council, to Jayne Bryant, Chair of the Children, Young People and Education Committee]. https://business.senedd.wales/documents/s142280/Letter%20from%20Vale%20of%20Glamorgan%20Council.pdf

Tunnard, J., Ryan, M., & Harwin, J. (2016) *Problem solving in court: current practice in FDACs in England. Final report.* Lancaster University.

Westlake, D., Pallmann, P., Lugg-Widger, F., Schroeder, E.-A., Adara, L., Munnery, K., Meister, L., Ayayo, S., Bennett, V., Meindl, M., Smith, P., Daher, S., Roberts, L., Rawlinson, S., Forrester, D., Petrou, S., & White, J. (2023). *The social workers in schools (SWIS) trial: An evaluation of school-based social work.* What Works for Children's Social Care.

Whitehead, S. & Reeder, N. (2016). *Better Courts: the financial impact of the London Family Drug and Alcohol Court*. Centre for Justice Innovation.

Wong, G., Greenhalgh, T., Westhorp, G., Buckingham, J., & Pawson, R. (2013). RAMESES publication standards: realist syntheses. *BMC Medicine, 11*(1), 1-14.

Wong, G., Greenhalgh, T., Westhorp, G., Manzano, A., Greenhalgh, J., Jagosh, J. (2016). RAMESES II reporting standards for realist evaluations. *BMC Medicine, 14*(1).

Worcel, S. D., Furrer, C. J., Green, B. L., Burrus, S. W., & Finigan, M. W. (2008). Effects of family treatment drug courts on substance abuse and child welfare outcomes. *Child Abuse Review: Journal of the British Association for the Study and Prevention of Child Abuse and Neglect, 17*(6), 427-443.

Young, G. (n.d.). *Setting and measuring outcomes*. The Government Outcomes Lab. https://golab.bsg.ox.ac.uk/toolkit/technical-guidance/setting-measuring-outcomes/

Zhang, S., Huang, H., Wu, W., Li, Y., a Liu, M. (2019). The impacts of family treatment drug court on child welfare core outcomes: A meta-analysis. *Child Abuse & Neglect, 88,* 1-14.

# Atodiad 1: Galluogwyr a rhwystrau a nodwyd mewn perthynas â gweithredu'r FDAC yng Nghymru

| Lefel gweithredu | Galluogwyr | Rhwystrau |
|---|---|---|
| Lefel genedlaethol/bolisi | Ymrwymiad:<br>• Mae llywodraethau ac uwch-randdeiliaid allweddol yn amlygu elfen o ymrwymiad, ymgysylltiad a diddordeb yn yr FDAC; mae'n galluogi ymrwymiad gan randdeiliaid ar lefelau eraill i ddiferu i lawr, ynghyd â rhagor o gefnogaeth i ddatrys problemau os byddant yn codi wrth roi FDAC ar waith.<br><br>Cyllid:<br>• Mae cyllid ar gael i ymchwilio i'r FDAC a'i werthuso'n dda; gall rhagor o ymchwil o ansawdd uchel arwain at frwdfrydedd ehangach dros y model, ac ymddiriedaeth ynddo.<br>• Darperir cyllid gan y Llywodraeth i'r Ganolfan Arloesi ym maes Cyfiawnder iddi oruchwylio'r cymorth a ddarperir wrth roi'r model ar waith ac ar ôl ei sefydlu; mae'n caniatáu i safleoedd yr FDAC gael cefnogaeth fwy dwys, ac yn gwreiddio'r model yn well.<br><br>COVID-19:<br>• Deddfwriaeth a chanllawiau sy'n gofyn am weithio o bell; gall alluogi i hyfforddiant yr FDAC gael ei ddarparu i ragor o ymarferwyr ac asiantaethau/a gwasanaethau partner. Gall hefyd wella ymgysylltiad a hygyrchedd mewn cyfarfodydd grŵp strategol a gweithredol hanfodol wrth weithredu'r FDACs. | Cyllid:<br>• Rhagor o gyllid cenedlaethol ar gyfer strategaethau cyffuriau ac ailgomisiynu gwasanaethau cyffuriau; mae'n cynyddu'r galw am arbenigwyr camddefnyddio sylweddau, a all greu anhawster wrth recriwtio'r rôl hon i dîm yr FDAC.<br>• Diffyg adnoddau a chyllid ar gael i'r FDAC; mae'n arwain at gynaliadwyedd gwael ar gyfer safleoedd FDAC newydd.<br>• Ailbennu neu ailgomisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.<br><br>COVID-19:<br>• Deddfwriaeth a chanllawiau sy'n gofyn am weithio o bell; gall greu rhwystrau i feithrin perthnasoedd â theuluoedd ac asiantaethau/a gwasanaethau partner, ac oedi o ran lansio safleoedd FDAC newydd. |
| Lefel yr awdurdod lleol | Argaeledd y gwasanaethau:<br>• Mae amrywiaeth eang o ddarparwyr triniaethau a sefydliadau trydydd sector ar gael yn yr ardal leol i atgyfeirio rhieni atynt; mae'n sicrhau gwell galluogrwydd yn nhîm yr FDAC i greu cynlluniau cymorth pwrpasol ar gyfer pob teulu ac mae'n caniatáu i deuluoedd gael mynediad haws at ragor o gymorth byrdymor a hirdymor.<br>• Gwasanaethau lleol cadarn yn yr awdurdod lleol (yn enwedig y rhai ag egwyddorion craidd sy'n debyg i rai'r FDAC, strwythur tîm amlddisgyblaethol tebyg, a/neu brosesau tebyg ar gyfer atgyfeirio at | Argaeledd y gwasanaethau:<br>• Cyfyngir ar wasanaethau triniaeth gan y canlynol: rhestrau aros hir, cost, cylch gwaith (e.e. y gallu i fynd i'r afael ag anhwylderau defnyddio sylweddau ac anghenion holistaidd), neu feini prawf mynediad (e.e argaeledd cyfyngedig y gwasanaethau triniaeth preswyl i ddynion; gwasanaethau iechyd meddwl sy'n caniatáu mynediad mewn argyfwng yn unig, tra bo'r FDAC yn ceisio atal argyfwng rhag digwydd); mae'n creu rhwystrau i rieni sy'n eu hatal |

| | | |
|---|---|---|
| | y gwasanaeth); mae'n gwneud i'r FDAC deimlo'n fwy cyfarwydd i deuluoedd ymgysylltu ag ef, mae ymarferwyr sy'n cael eu recriwtio o'r gwasanaethau hyn yn addasu'n well i weithio yn yr FDAC, ac mae'n haws i'r FDAC ddefnyddio'r gwasanaethau hyn ac iddynt gael eu gweithredu'n unol â'r gyllideb.<br><br>Gweithio rhyngasiantaethol:<br>• Asiantaethau/gwasanaethau partner sy'n gallu gweithio ar y cyd ac mewn modd cydweithredol; mae hyn yn bwysig o ran 'cael pawb ar yr un dudalen' ynghylch cefnogi teuluoedd o fewn model yr FDAC.<br>• Asiantaethau/gwasanaethau partner sydd â chanfyddiadau tebyg o ran y risgiau i blant, a'r effaith arnynt; mae'n cynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn cefnogi atgyfeiriadau i'r FDAC.<br><br>Ymrwymiad:<br>• Arweinwyr sy'n credu yn yr FDAC ac sy'n ymrwymedig i'r newidiadau o ran dull ac ymarfer.<br>• Asiantaethau/gwasanaethau partner sy'n ymwybodol o'r model a'r modd y mae'n gweithio; yn fwy tebygol o fod ag ymrwymiad i'r FDAC, ynghyd â diddordeb mewn cael hyfforddiant ar y model.<br>• Mae gweithwyr cymdeithasol yr ALI yn gefnogol i'r FDAC; gall helpu i sicrhau bod teuluoedd sy'n gymwys i gymryd rhan yn yr FDAC yn cael eu hatgyfeirio.<br><br>Hyfforddiant<br>• Y gweithlu camddefnyddio sylweddau wedi'i hyfforddi mewn arfer sy'n ystyriol o drawma. | rhag defnyddio'r gwasanaethau, cwblhau cyrsiau a gwneud newidiadau angenrheidiol yn ystod achosion.<br>• Mae amrywiaeth eang o ddarparwyr triniaethau a sefydliadau trydydd sector ar gael yn yr ardal leol i atgyfeirio rhieni atynt; gallant ddenu demograffeg fwy cymhleth, gan greu rhestrau aros hirach ar gyfer gwasanaethau.<br><br>Ymrwymiad:<br>• Anghynefindra â model yr FDAC a diffyg dealltwriaeth o'i ddiben; mae'n cyfyngu ar yr ymrwymiad gan yr Awdurdod Lleol ac asiantaethau/gwasanaethau partner ac yn ei gwneud yn anodd creu cysylltiad â rhai o'r rhanddeiliaid proffesiynol.<br>• Mae'r ddogfennaeth sy'n cefnogi'r FDAC yn canolbwyntio llawer ar y rieni ac ychydig iawn ar y modd y mae plant yn cael eu blaenoriaethu a sut yr eir ati i weithio gyda nhw yn yr FDAC; gall hyn greu ansicrwydd i weithwyr proffesiynol (yn enwedig gweithwyr cymdeithasol) ynghylch diogelwch plant, a lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn atgyfeirio at yr FDAC.<br><br>Amserlenni:<br>• Cyfnodau amser byr i sefydlu FDAC newydd; nid yw'n caniatáu unrhyw hyblygrwydd mewn perthynas â'r oblygiadau o ran recriwtio i dîm yr FDAC (e.e. sicrhau bod y swydd-ddisgrifiadau wedi'u cymeradwyo gan yr undebau), ac mae'n lleihau cyfleoedd i hysbysebu'r gwasanaeth, sefydlu'r gweithdrefnau angenrheidiol, a darparu hyfforddiant, sydd oll yn effeithio ar ymrwymiad.<br><br>Cynllun Strategol:<br>• Cyfathrebu a chynllunio gwael o ran canlyniadau a mesurau llwyddiant ar gyfer FDAC.<br>• Nodau, amcanion a chynllun strategol aneglur ar gyfer cynllun peilot.<br><br>Hyfforddiant:<br>• Nid yw awdurdodau lleol, ymarferwyr cyfreithiol, gwarcheidwaid, staff y llys nac asiantaethau/gwasanaethau partner yn cael yr un hyfforddiant, neu nid ydynt yn cael unrhyw hyfforddiant o gwbl; mae hyn yn cyfrannu at ddiffyg dealltwriaeth o'r model, y llwybrau atgyfeirio i'r FDAC, y meini prawf mynediad (e.e. y trothwy |

| | | |
|---|---|---|
| | | camddefnyddio sylweddau), a'r rolau, y cyfrifoldebau a'r ymrwymiad wrth gymryd rhan yn yr FDAC.<br><br>Cyllid:<br>• Diffyg adnoddau i dîm yr FDAC weithredu'n effeithiol, e.e. gofod swyddfa.<br>• Diffyg cyllid cynaliadwy ar gyfer FDAC. |
| Lefel yr FDAC | Ymrwymiad:<br>• Barnwyr lleol sy'n hybu dull gweithredu yr FDAC.<br>• Aelodau o dîm yr FDAC sy'n ymrwymedig i gydgysylltu a gweithredu'r FDAC.<br>• Pan fydd safle FDAC newydd yn credu y bydd yn bodoli y tu hwnt i gwmpas ei gynllun beilot; mae hyn yn galluogi tîm yr FDAC i fod yn fwy ymrwymedig yn ei ymarfer ac yn sicrhau ei fod yn darparu ei wasanaeth gorau.<br>• Mae aelodau tîm yr FDAC yn hawdd siarad â nhw ac yn barod i ystyried cefnogi asiantaethau/gwasanaethau partner; mae hyn yn lleihau pryder ac ansicrwydd ymhlith gweithwyr proffesiynol eraill a allai fod yn atgyfeirio at yr FDAC neu'n cefnogi teuluoedd yn yr FDAC.<br><br>Hyfforddiant:<br>• Hyfforddiant arbenigol (sy'n cwmpasu prosesau a gwerthoedd yr FDAC) ar gyfer holl aelodau tîm yr FDAC.<br>• Cyfleoedd i farnwyr a thîm yr FDAC gysgodi/arsylwi ar safleoedd FDAC sydd eisoes yn bodoli yn ystod y cyfnod gweithredu; mae hyn yn trosglwyddo gwybodaeth yn effeithiol, gan olygu eu bod yn meithrin dealltwriaeth dda o brosesau ac egwyddorion yr FDAC, ac yn gwneud y newid i weithio mewn ffordd wahanol yn haws.<br>• Annog datblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant i dîm yr FDAC; mae hynny'n sicrhau bod gan staff yr wybodaeth ddiweddaraf am weithdrefnau newydd ac yn helpu i gynnal set sgiliau lefel uchel yn y tîm.<br>• Mentoriaid o safleoedd FDAC eraill ar gyfer barnwyr ac aelodau o dîm yr FDAC; gall fod yn effeithiol o ran darparu cefnogaeth yn ystod heriau'r cyfnod gweithredu.<br>• Cymuned o fforymau ymarfer; mae'n galluogi aelodau o dîm yr FDAC i deimlo eu bod yn rhan o gymuned FDAC ehangach, i rannu gwybodaeth a pharhau i ddatblygu'r FDAC yn y DU. | Hyfforddiant:<br>• Hyfforddiant yr FDAC yn cael ei gyflwyno'n rhy gynnar yn ystod y broses o weithredu'r FDAC; gall achosi dryswch ac arwain at aelodau'r tîm yn colli sesiynau hyfforddi os nad yw'r gwaith o recriwtio pobl i dîm craidd yr FDAC wedi'i gwblhau, ac mae'n cyfrannu at yr angen am sesiynau hyfforddi dilynol ar ôl i dîm yr FDAC ddechrau gweithio gyda theuluoedd, a hynny am nad oes ganddynt yn aml lawer o gyd-destun o ran achosion yr FDAC yn ystod y cyfnod gweithredu.<br>• Nid yw arwyddocâd hyfforddiant yr FDAC yn cael ei bwysleisio'n ddigonol i asiantaethau/wasanaethau partner; gall gweithwyr proffesiynol feddwl bod yr hyfforddiant yn ddewisol neu'n anaddas ar gyfer eu rôl.<br>• Nid yw awdurdodau lleol, ymarferwyr cyfreithiol, gwarcheidwaid, staff y llys nac asiantaethau/gwasanaethau partner i gyd yn cael yr un hyfforddiant, neu nid ydynt yn cael unrhyw hyfforddiant o gwbl; mae hyn yn cyfrannu at ddiffyg dealltwriaeth o'r model, y llwybrau atgyfeirio a'r trothwyon, ynghyd â'r rolau, y cyfrifoldebau a'r ymrwymiad wrth gymryd rhan yn yr FDAC.<br><br>Capasiti'r tîm:<br>• Mae'r tîm yn rhy fach i gydbwyso'r capasiti â'r llwyth achosion disgwyliedig; mae'n lleihau'r cyfleoedd sydd gan dîm yr FDAC i gymryd gwyliau, sy'n effeithio ar lesiant a chynaliadwyedd y tîm. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Hyfforddiant ar y cyd ar gyfer tîm yr FDAC, barnwyr, a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda theuluoedd yn yr FDAC; mae'n helpu i feithrin perthnasoedd, yn sicrhau bod pawb yn deall pob agwedd ar yr FDAC, yn cefnogi dealltwriaeth ehangach o'r hyn y mae gweithio gyda theuluoedd yr FDAC yn ei olygu, a'r hyn a ddisgwylir gan ymarferwyr. Gall hyn gynyddu'r ymrwymiad a'r awydd i gefnogi achosion yr FDAC pan fydd gwybodaeth a gafwyd mewn sesiynau hyfforddiant yn cael ei bwydo'n ôl i aelodau eraill o'r tîm a theuluoedd.<br>• Mae tîm yr FDAC wedi'i hyfforddi ar lefel trawma uwch.<br><br>Gweithio rhyngasiantaethol:<br>• Perthnasoedd sefydledig rhwng awdurdodau lleol; galluogi safleoedd yr FDAC sy'n cefnogi nifer o ALlau i gael eu rhoi ar waith yn gyflymach.<br>• Canolbwyntio ar gydweithio, datrys problemau, gwerthoedd a diwylliannau a rennir, a chyfathrebu da.<br>• Gweithwyr cymdeithasol a Gwarcheidwaid Plant arbenigol yn cael eu neilltuo i achosion yr FDAC. | |
| Lefel unigol | Ymrwymiad:<br>• Teuluoedd yn deall model yr FDAC ac yn ymwybodol ei fod yn opsiwn arall; mae'n gwella ymrwymiad y teulu cyfan sy'n mynd trwy achos, ac yn creu gwell perthnasoedd gwaith ag ymarferwyr.<br><br>Addasrwydd:<br>• Sicrhau bod yr ymarferwyr cywir yn nhîm yr FDAC, ymarferwyr sy'n meddu ar sgiliau sylfaenol ac eilaidd priodol; mae hyn yn eu galluogi i addasu i weithio yn unol â model yr FDAC ac yn helpu'r tîm i gynnig cymorth holistaidd i deuluoedd.<br>• Mae rhanddeiliaid proffesiynol sy'n chwilfrydig ac yn barod i ystyried ffyrdd newydd o weithio yn credu y gall pobl newid, ac maent yn gallu ymdrin â theuluoedd mewn ffordd dyner ac yn barod i gydweithio.<br>• Mae barnwyr sy'n gyfeillgar, yn agored ac yn onest, sy'n ymrwymedig i ddull datrys problemau a chydweithio, yn lleihau stigma ac yn meithrin perthnasoedd gwaith â theuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill.<br>• Mae gan randdeiliaid proffesiynol gapasiti i weithio'n ddwys gyda theuluoedd, ac mae ganddynt amserlen waith sy'n cyd-fynd â diwrnodau llys yr FDAC. | Ymrwymiad:<br>• Ymarferwyr sy'n teimlo bod ffordd yr FDAC o weithio mewn achosion gofal yn beirniadu eu hymarfer/sgiliau nhw, neu fod eu rolau a'u cyfrifoldebau'n cael eu cymryd oddi arnynt gan dîm yr FDAC; gall leihau'r tebygolrwydd y byddant yn ymrwymo i'r model.<br>• Teuluoedd sydd â phrofiad negyddol blaenorol o achosion gofal/ofal cymdeithasol plant.<br><br>Addasrwydd:<br>• Rhanddeiliaid proffesiynol nad ydynt yn barod i adael eu parth cysur.<br>• Mae capasiti o ran llwyth gwaith gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd yn yr FDAC yn eu hatal rhag mynd i adolygiadau gan unigolyn nad yw'n gyfreithiwr. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Teuluoedd sydd â meddylfryd i ymrwymo'n llwyr a chynnal yr ymgysylltiad â'r FDAC. | |

# Atodiad 2: Diffiniad o raddfeydd camddefnyddio sylweddau

| Difrifoldeb | Camddefnyddio alcohol | Camddefnyddio cyffuriau |
|---|---|---|
| **Dim** | Ddim yn defnyddio alcohol | Ddim yn defnyddio cyffuriau |
| **Isel** | Defnydd o alcohol nad yw'n niweidiol/broblemus, yn cyfateb i'r lefel neu islaw'r lefel a argymhellir (dim mwy na 14 uned yr wythnos) | Defnydd o ganabis ar lefel isel, yn defnyddio cyffuriau presgripsiwn (zopiclone, diazepam, co-codamol) |
| **Canolig** | Yfed cymdeithasol, ynghyd â hanes o ddefnydd niweidiol, heb fod yn gorfforol ddibynnol<br>Yfed cymdeithasol lle mae yna hanes o ddefnydd corfforol ddibynnol | Defnydd cymdeithasol/hamdden o gyffuriau, gan gynnwys cyffuriau clwb a sylweddau penfeddwol cyfreithiol |
| **Uchel** | Defnydd corfforol ddibynnol o alcohol | Yn defnyddio cyffuriau mewnwythiennol.<br>Defnydd anhrefnus o gyffuriau (digartrefedd, trosedd, ffordd o fyw lle mae'r pwyslais ar ddefnyddio cyffuriau yn cael lle blaenllaw, perthnasoedd anhrefnus, gwaith rhyw)<br>Camddefnyddio mwy nag un cyffur anghyfreithlon<br>Camddefnyddio mwy nag un sylwedd, gan gynnwys camddefnyddio cyffuriau ar bresgripsiwn<br>Camddefnyddio mwy nag un sylwedd, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau penfeddwol cyfreithiol, canabis ar lefel uchel (defnydd sawl gwaith y dydd)<br>Camddefnyddio cyffuriau ar bresgripsiwn (eu cael heb bresgripsiwn); gorddefnyddio |

CASCADE

## Awduron a Chyfranwyr

Melissa Meindl a David Westlake

Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol i Blant (CASCADE), Prifysgol Caerdydd, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol (SOCSI), Prifysgol Caerdydd

## I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

CASCADE: Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol i Blant

Prifysgol Caerdydd
SPARK I Parc Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd
Heol Maendy
Caerdydd
CF24 4HQ

CASCADE@cardiff.ac.uk